# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 9FED HYDREF, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 2 Hydref 2025)

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands
Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn
Dafydd Meurig
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Elwyn Jones
Richard Glyn Roberts
Wendy Cleaver

## Aelodau Lleyg (6)

Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Dewi Lewis
Paul Millar-Mills

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11 Medi 2025 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR** 14 - 21

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

**6. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG** 22 - 43

I dderbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chraffu'r penderfyniadau'r Cabinet

**7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** 44 - 52

I ystyried yr adroddiad

**8. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 53 - 60

I sicrhau bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu

**9. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS** 61 - 66

I dderbyn a nodi'r wybodaeth.

**10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 67 - 89

I nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2025/26, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26** 90 - 93

I nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2025/26, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**12. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025** 94 - 107

I dderbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau i'r Cabinet

**13. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AC HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/25** 108 - 167

I ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2024/25 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion.

**14. BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR** 168 - 171

I ystyried y flaen raglen

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 11 Medi 2025**

**Presenoldeb:** Cadeirydd: Carys Edwards
Is-gadeirydd: Rhys Parry

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Dafydd Meurig, Elfed Wyn ap Elwyn, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell ac Ioan Thomas

**Aelodau Lleyg**: Eifion Jones, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 10: Carwyn Rees, Lora Gwawr a Sioned Owen (Archwilio Cymru)

Eitem 11: Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) a Mari Powell (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol)

Eitem 12: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Rowlands, Meryl Roberts, a Richard Glyn Roberts

Yn dilyn marwolaeth y Cyng Rob Triggs cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gydymdeimlo gyda'i deulu. Nodwyd bod Rob yn aelod presennol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'i gyfraniad i'r Pwyllgor a'r Cyngor wedi bod yn un gwerthfawr.

Cymerodd y Cadeirydd hefyd y cyfle i gydymdeinlo a theulu y ddiweddar Sharon Warnes (cyn Aelod o'r Pwyllgor a chyn Swyddog o'r Cyngor) oedd yn ffrind, yn berson parchus a chydwybodol – ei chefndir i waith Awdurdod Lleol yn amhrisiadwy; bydd bwlch ar ei hôl.

Cydymdeimlwyd a'r Cyng. Angela Russell a'i theulu o golli ei gŵr yn ddiweddar a croesawyd hi yn ôl i'r Pwyllgor.

Adroddwyd, yn dilyn proses gyfweld a chymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Orffennaf 2025, croesawyd tri Aelod Lleyg newydd i'r Pwyllgor - Mr Dewi Lewis, Dr Peter Barnes a Mr Paul Millar-Mills.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22 Mai 2025 fel rhai cywir.

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2024 / 2025**

Cyflwynwyd y Datganiad gan y Pennaeth Cyllid. Eglurodd  bod y Datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le a bod y system reoli yn cael ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r datganiad sydd yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE a gyhoeddwyd yn 2016, sydd yn adnabod 7 egwyddor craidd ar gyfer llywodraethu da sydd wedyn yn cael eu rhannu ymhellach i is-egwyddorion. Amlygwyd bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn ystyried yr egwyddorion a'r is-egwyddorion ac yn llunio Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Adnabuwyd risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Adroddwyd bod 4 math o risg a bod pob risg gyda pherchnogaeth adrannol; y Grŵp wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda risgiau uchel iawn, 6 maes risgiau uchel, 9 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Derbyniwyd er bod 6 maes risg uchel, bod y Grŵp yn ymwybodol o'r gwaith sydd angen cael ei wneud i leihau'r risgiau hyn.

O ran addasiadau, mynegwyd bod sgôr risg cyfredol Cyllid wedi lleihau o 20 i 15. Ategwyd y byddai diweddariad ar gamau gweithredu blynyddoedd blaenorol yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 yng nghyfarfod mis Hydref 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau gan Aelodau ac ymatebion gan Swyddogion:

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â diffyg manylder y risgiau, nodwyd y bydd adroddiad gwariant manylach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref, ac mai ymgais i grynhoi materion oedd yma i gydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â nifer isel o staff (Arolwg Llais Staff) a thrigolion (Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol) oedd wedi ymateb i'r ddau arolwg yma a beth oedd yn cael ei wneud i annog mwy o ymatebion i'r dyfodol, nodwyd er bod nifer ymatebion i'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn ymddangos yn isel iawn, ei fod yn cymharu yn dda gyda niferodd ymatebion y gorffennol. Ategwyd, gyda'r Arolwg hefyd yn un cenedlaethol, bod modd cymharu ymatebion fesul Awdurdod Lleol, ac o'r naw Awdurdod Lleol a gymerodd rhan yn yr arolwg (y cyntaf o'i fath yng Nghymru), yn ystod 2024/25 roedd cyfradd Gwynedd ymysg yr uchaf. Er hynny, derbyniwyd bod lle i wella a bod gwaith wedi ei wneud i gynnwys camau newydd yn y broses ymgysylltu i annog mwy o ymatebion. Un enghraifft o welliant oedd gofyn am gyd-destun neu naratif wrth ymateb yn hytrach na rhoi tic yn erbyn da iawn, da neu wael. Nodwyd hefyd bod canlyniadau'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol wedi gosod gwaelodlin ac felly bod modd mesur cynnydd i'r gwelliannau i'r dyfodol.

Wrth gyfeirio at y term 'diwylliant', nodwyd bod angen gwell dehongliad o'r gair gan fod iddo ystod eang o ystyriaethau posib. Nodwyd mai yn y cyd-destun yma mai diwylliant Ffordd Gwynedd oedd dan sylw a rôl y Pwyllgor oedd ystyried sicrwydd bod y wybodaeth yr oeddynt yn ei dderbyn am y diwylliant gwaith yn cael ei wreiddio fel ffordd o weithio'r Cyngor.

Mewn ymateb i sylw bod sgôr risg cyfredol Cyllid wedi lleihau o 20 i 15 a bod hynny yn gynamserol gan nad oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno bod y gorwariant wedi dod i ben, nododd y Pennaeth Cyllid, yn ei swyddogaeth fel Swyddog Adran 151 bod sgôr 15 yn sgôr risg teg. Cytunodd efallai bod codi'r sgôr i 20 yn ystod 2024/25 wedi bod yn ymateb rhy fyrbwyll a bod sgôr o 20 yn golygu cyflwyno rhybudd terfynol Adran 114 na fyddai'r gyllideb yn ddigonol ar gyfer cynnal gwasanaethau. Mynegodd nad oedd Cyngor Gwynedd yn y sefyllfa yma a gydag adolygiad parhaus o'r sefyllfa, roedd yn hyderus yng nghostyngiad y sgôr. Yn nhermau gorwariant, atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar wariant yr adrannau yn dilyn adolygiadau gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol ynglŷn â chyflwyno Cynllun Ariannol Tymor Canolig, nodwyd y byddai'r cynllun hwnnw yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Hydref 2025.

Wrth dynnu sylw at y ffaith mai Hunanasesiad oedd yma ac os oedd tuedd i beidio bod yn rhy galed ar berfformiadau personol, gofynnwyd sut gellid cael sicrwydd bod y sefyllfa yn un realistig. Mewn ymateb, nodwyd mai rôl y Pwyllgor oedd herio'r hunanasesiad ac nad oedd unrhyw fudd i'r Cyngor dan-sgorio risg. Awgrymwyd rhannu penawdau a chyflwyno gwybodaeth fanylach am y risgiau dros y flwyddyn fel bod gan yr Aelodau well dealltwriaeth o'r meysydd.

Canmolwyd llwyddiant y Cynllun Prentisiaethau

Wrth gyfeirio at yr adolygiad mewnol i wella trefniadau casglu Treth Cyngor, a'r bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd, gwnaed cais i amlygu gwybodaeth am y premiwm tai yn yr adroddiad hwnnw.

Mewn ymateb i sylw bod angen ystyried risg i gostau hawliadau posib adolygiad Erthygl 4, nodwyd y byddai hyn yn cael sylw yn y datganiad cyfrifon (nodyn 39 - ymrwymiadau dibynnol). Ategwyd, pe byddai'r risg yn fwy na 50% yna bydd arian yn cael ei roi o'r neilltu i gwrdd â'r costau

Yng nghyd-destun maes Rheoli Gwybodaeth (sgôr risg o 12 oherwydd 'methiant i fodloni gofynion statudol wrth ymdrin â gwybodaeth a data'), nodwyd bod gofynion 'statudol' yn cynnwys dwy elfen i'r gwaith ac er bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Gofynion Data, bod gan y Cyngor le i wella wrth wneud y defnydd gorau o ddata / gwybodaeth i wella gwasanaethau.

Yng nghyd-destun maes System Rheoli Iechyd, Diogelwch a Llesiant a bod y system yn aneffeithiol (sgôr risg 15), nodwyd mai cyfeiriad at system weithdrefnol oedd yma ac nid system dechnegol a bod y sgôr wedi ei osod ar y tebygolrwydd y gall rhywbeth fynd o'i le.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)**
- **Derbyn Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo**

Nodyn:

- Cywiro sgôr cyfredol Risg Cyllid o 20 i 15 yn yr adroddiad Cymraeg, pwynt 4.2
- Bod cyd-destun risg 'diwylliant' yn cyfeirio at egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd
- Cais am fwy o wybodaeth i sicrhau bod trefniadau mewn lle i wella gwasanaethau
- Cais i'r adroddiad Cyfraddau Casglu Treth Cyngor amlygu premiwm tai

## 7. DATGANIAD O GYFRIFON 2024/2025 (AMODOL AR ARCHWILIAD)

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau bod y cyfrifon wedi eu cwblhau a'u rhyddhau i'w harchwilio gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol y Cyngor, ers canol Mehefin. Nodwyd bod estyniad eto eleni yn yr amserlen statudol ar gyfer archwilio'r cyfrifon, gyda'r bwriad o gwblhau'r archwiliad a chymeradwyo'r cyfrifon ym Mhwyllgor Tachwedd 13eg 2025.

Adroddwyd ar gynnwys yr adroddiad gan egluro bod chwe set o gyfrifon ar gyfer 2023/24, yn cael eu cwblhau

1. Cyngor Gwynedd
2. Cronfa Bensiwn Gwynedd
3. GwE (cydbwyllgor sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
4. Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (cydbwyllgor sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
5. Harbyrau Gwynedd a
6. Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd

Atgoffwyd yr Aelodau bod sefyllfa ariannol diwedd flwyddyn ar gyfer 2024/25 wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y 21ain o Fai ar ffurf alldro syml, ond bod y Datganiad o'r Cyfrifon, sydd i bwrpas allanol a llywodraethu, yn gorfod cael ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys bellach yn ddogfen hirfaith a thechnegol gymhleth.

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Crynodeb o wariant cyfalaf. Bu gwariant o £85 miliwn yn ystod y flwyddyn o gymharu gyda £57 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.
- Bod y prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant, Mantolen, Llif arian ayyb

- Datganiad Symudiad mewn Reserfau sydd yn ddatganiad pwysig ac yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor. Amlygwyd bod balansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2025, sef yr un lefel â Mawrth 2024 a Mawrth 2023.
- Bod Reserfau yn amlygu cynnydd yn y cronfeydd £102 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2024 i £111 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2025
- Balansau Ysgolion lle gwelir lleihad cyson ym malansau ysgolion sydd wedi disgyn o £12 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2023, i £8.5 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2024 a £8 miliwn erbyn diwedd 2025 sydd bellach yn ddarlun sy'n agosach at lefel y balansau cyn Covid. Eglurwyd bod hyn yn ddarlun cyffredinol sydd yn cael ei weld yng Nghymru gan fod y balansau ysgolion wedi bod yn uchel yn dilyn nifer o grantiau yn sgil Covid.
- Reserfau a Glustnodwyd sy'n cynnwys dadansoddiad o'r £111 miliwn o gronfeydd wrth gefn – reserfau cyfalaf, cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor, cronfa cefnogi'r strategaeth ariannol a chronfa Premiwm Treth y Cyngor
- Cyfeiriwyd at Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd yn cyflwyno dadansoddiad fesul categori tir ac adeiladau, cerbydau, offer a chyfarpar ayyb. Ymrwymiadau Cyfalaf sydd yn cynnwys cynlluniau Gerddi Traphont Abermaw, a gwaith cyfalaf ar Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor ac Ysgol Bontnewydd a Thywyn. Hefyd, Datblygiad yng Nghoed Mawr Bangor.
- Nodyn 22 Darpariaethau sydd yn berthnasol i Safleoedd Gwastraff a hawliadau yswiriant a Nodyn 32 manylion am Incwm Grant sydd wedi ei dderbyn (dros £207 miliwn yn 2024/25 i'w gymharu gyda £145 miliwn yn 2023/24).
- Nodyn 36 - manylion Pecynnau Terfynu Gwaith y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Nodyn 43 - manylion am Weithrediadau ar y Cyd a Chydbwyllgorau mae Cyngor Gwynedd yn rhan ohonynt
- Atodiad B - Cronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan

Diolchwyd am yr adroddiad a canmolwyd yr Adran am gwblhau'r cyfrifon yn amserol a thaclus

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chrynodeb gwariant cyfalaf a'r ffaith bod gwariant Gwasanaethau Corfforaethol yn £0 yn 2023/24 ond yn £87,000 yn 2024/25, nodwyd mai gwariant cyfalaf oedd yma ac nid gwariant refeniw ac fod natur y Gwasanaethau Corfforaethol yn golygu fod rhai blynyddoedd yn mynd heibio heb wariant cyfalaf.

Mewn ymateb i sylw bod pecynnau ymadael wedi cynyddu yn sylweddol, nodwyd fod y niferoedd yn uwch yn 2024/25 oherwydd ad-drefnu mewn rhai gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â cheisio gwneud mwy gyda Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan, nodwyd bod amodau'r gronfa yn gyfyng iawn - gwariant ar faes penodol mewn ardal benodol. Cytunwyd mai buddiol fyddai rhannu gwybodaeth am y gronfa erbyn y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chasglu trethi a bod y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad yn £822,000, nodwyd y gwybodaeth bellach yn cael ei gyflwyno mewn adroddiad 'Cyfraddau Casglu Treth Cyngor' i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2024/25**

Nodyn:
Cais am fwy o wybodaeth am Gronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor mewn ymateb i ganllawiau CIPFA sydd yn nodi, 'y dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos effaith'. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros 2024/25 ac yn amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Braf oedd gweld bod seddi gwag Aelodau Lleyg wedi cael eu llenwi
- Awgrym cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol fyddai'n rhoi cyfle i'r aelodau ddod i adnabod ei gilydd yn well - diwrnod hyfforddiant efallai
- Awgrym i'r aelodau lleyg gyflwyno eu hunain yn y cyfarfod nesaf – cyflwyniad byr i'w cefndir
- Bod cyfraniad a phresenoldeb yr Aelodau yn dda iawn
- Awgrym i ddileu sylwadau gosod cyllideb 2025/26 – er yn amlygu trafodaeth mewn cyfarfod, ystyriwyd y byddant efallai yn creu dryswch yng nghyd-destun yr adroddiad yma.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol**

Nodyn: Gosod Cyllideb. Dileu pwyntiau bwled pwynt 28 cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn, Hydref 2il 2025

## 9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2024/25, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 7fedd o Fawrth 2025. Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £2.5m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau sydd yn is na'r £2.7m a oedd yn y gyllideb a hynny oherwydd bod cyfradd Banc Lloegr wedi lleihau o 5.25% i 4.5% yn ystod y flwyddyn.

Ar y 31 Mawrth 2025 roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Bwrdd Uchelgais a'r Gronfa Bensiwn. Ategwyd bod y gweithgaredd benthyca wedi bod yn ddistaw iawn yn y flwyddyn gyda dim ond ad-daliadau benthyg wedi digwydd.

Adroddwyd, yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau Lleol, Cronfeydd Marchnad Arian, Swyddfa Rheoli Dyledion a Chronfeydd wedi'i pwlio, sydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach. Nodwyd bod y cronfeydd wedi'i pwlio yn fuddsoddiadau tymor canolig/ tymor hir sydd yn dod a lefel incwm da iawn, a gyda lefelau arian y Cyngor yn iach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor - hyn yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

**10. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CH1**

Croesawyd Carwyn Rees, Lora Gwawr a Sioned Owen o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol (hyd at 30 Mehefin 2025) o raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Trafodwyd y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad lleol gan amlygu y byddai'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi diwedd Rhagfyr 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut roedd Archwilio Cymru yn blaenoriaethu eu gwaith, nodwyd eu bod yn cwblhau'r gwaith ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan sicrhau bod gan y Cynghorau drefniadau yn eu lle i ddarparu gwasanethau sydd yn cynnig gwerth am arian.

**ADRODDIAD RHEOLAETH STRATEGOL AR FALANSAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN**

Cyflwynwyd adroddiad ac argymhelliad archwiliad a gwblhawyd ar sut mae'r Cyngor yn rheoli cronfeydd wrth gefn gan ganolbwyntio ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol a sut mae'r cronfeydd hyn yn cael eu defnyddio'n strategol a chefnogi sefydlogrwydd hirdymor.

Cwblhawyd y gwaith yn ystod mis Mai a Mehefin 2025 gan fanylu ar ffigyrau diwedd blwyddyn 2024/25. Diolchwyd i'r swyddogion am eu cefnogaeth gyda'r archwiliad a hynny mewn amser prysur yn cau'r cyfrifon.

Daethpwyd i'r canlyniad bod cronfeydd y Cyngor mewn lle iach a bod sicrwydd bod trefniadau yn eu lle i gael y budd gorau. Cyfeiriwyd at yr un argymhelliad a wnaethpwyd a hynny i gryfhau'r trefniadau presennol drwy fabwysiadu Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn.

Mewn ymateb i'r archwiliad nododd y Pennaeth Cyllid, bod ymateb rheolwyr wedi ei gwblhau yn dilyn trafodaethau mewnol a gydag Archwilio Cymru. Cytunodd gyda'r un argymhelliad

Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd bod y cronfeydd wrth gefn wedi bod yn gymorth mawr dros y blynyddoedd diwethaf. Cytunwyd bod angen gosod cyfeiriad drwy fabwysiadau strategaeth i sicrhau bod defnydd yr arian wrth gefn yn glir.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn Rhaglen Waith Archwilio Cymru Chwarter 1**
- **Derbyn Adroddiad Archwilio Cymru – Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth gefn**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn cyflwyno sylwadau Ombwdsman Cymru ar drefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau yn ystod 2024/25 gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol ar y Pwyllgor i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Ategwyd, ni fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2024/2025 ac felly bod cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.

Yn ogystal, nodwyd bod yr adroddiad, mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor,  yn cynnwys mwy o wybodaeth am y drefn **gwynion corfforaethol** sydd yn eithrio cwynion ym maes Gofal, Addysg, Cyflogaeth a Byw'n Iach. Tynnwyd sylw bod cynllun Gofal Cwsmer newydd wedi ei fabwysiadu ddechrau Haf 2025 fel rhan o waith Cynllun Ffordd Gwynedd a hynny wedi proses ymgynghorol drwyadl. Bydd y gwaith o hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gofal Cwsmer newydd nid yn unig yn ffordd o atgoffa swyddogion am y drefn gwynion ar draws y Cyngor, ond yn gwella'r gwasanaeth i drigolion a lleihau'r nifer o gwynion.

Adroddwyd mai nod y drefn yw gwneud cyflwyno cwyn mor hawdd a phosib gan sicrhau trefn dryloyw, agored a hwylus. Bydd cam un yn gam anffurfiol fydd yn cael ei ddatrys yn syth, a cham 2 yn gam ffurfiol lle bydd trefn ac amser penodol i'r ymateb. Ategwyd bod derbyn cwynion yn fodd o ddysgu gwersi gyda swyddog yn caslgu'r holl wybodaeth ac yn cydweithio gyda'r gwasanethau priodol gyda'r bwriad o geisio gwelliant parhaus. Bydd adroddiad ar berfformiad y gwasanethau hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ddwy waith y flwyddyn.

Diolchwyd am yr adroddiad a chanmolwyd y gwasanaeth am eu cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf. Ystyriwyd bod y sefyllfa yn un boddhaol iawn

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- A yw cwynion am dai cymdeithasol yn rhan o'r broses yma?
- Mai pwysig yw dysgu gwersi o'r drefn cwynion
- Bod cwynion yn arwain at ddysgu a datrys problemau
- Bod yr adroddiad yn un positif - diolch i'r tîm casglu gwybodaeth
- Y wybodaeth yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r maes i'r Pwyllgor

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyr 'cyfradd ymyrraeth', nodwyd mai cyfeiriad at gwynion lle'r oedd ymyrraeth gan yr Ombwdsman oedd yma, oedd yn cynnwys archwiliadau pellach.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfradd cwynion maes Cynllunio (28% sydd llawer uwch na'r gwasanethau eraill) a pha wersi oedd yn cael eu dysgu yma?, nodwyd mai dyma'r cwynon oedd yn cyrraedd yr Ombwdsman. Derbyniwyd bod y gwasanaeth cynllunio yn derbyn nifer uchel o gwynion sydd efallai yn amlygu rhesymeg nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda'r ymateb / penderfyniad. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn ag arafwch y drefn ynteu diffyg adnoddau, nodwyd bod amrediad gwahanol o resymau i'r cwynion hyn. Ategwyd y bydd y wybodaeth am wasanaethau penodol yn cael ei gyflwyno mewn adroddiad i'r Cabinet.

Mewn ymateb i sylw bod nifer y cwynion wedi cynyddu yn ystod 2024/25, nodwyd bod hyn yn gyffredinol a'r draws yr Awdurdodau Lleol gyda chynnydd mewn cwynion i'r Ombwdsman ond gostyngiad yn nifer y cwynion mewnol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Nodyn: Gwirio os yw cwynion tai cymdeithasol yn rhan o'r broses cwynion

## 12. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn amlygu'r angen i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo oherwydd newidiadau sylweddol mewn gwerth eiddo a natur trafodaethau tir Cyngor Gwynedd. Ystyriwyd bod y ddarpariaeth bresennol hefyd wedi dyddio yn sylweddol a bod hwn yn gyfle i finiogi ystyr rhai agweddau cymhleth o'r maes.

Tynnwyd sylw at y bwriad o hwyluso proses o gaffael neu waredu tiroedd neu adeiladau ac at amodau a chyfyngiadau ar weithredu pwerau dirprwyedig.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad yn cefnogi diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn â chaffael gwaredu eiddo ac argymell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo'r newidiadau.**

## 13. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Medi 2026.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Hydref 2025 – Medi 2026**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12:25

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 HYDREF 2025** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYDLU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 5 Medi 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R CYNGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad.<br>Nodyn: Ychwanegu i'r daflen penderfyniad:<br>• Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel | **1. Dim sesiwn wedi ei drefnu hyd yma - angen cadarnhau cynnwys y sesiwn er mwyn i swyddogion o'r Adran Tai ac Eiddo baratoi'n addas.** |
| ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD (drafft) CYNGOR GWYNEDD 2023/24 | Derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad Drafft 2023/24.<br>Nodyn:<br>1. Angen ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses<br>2. Angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses – awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion<br><br>Prosiectau Gwynedd Yfory | **Mae hwn yn eitem ar wahân ar agenda'r pwyllgor yma ar 9 Hydref 2025.** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu bod arolygiad RAC wedi ei gynnal<br>• Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion<br>• Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu – ychwanegu cefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Byw'n Iach – hyn wedi bod yn benderfyniad positif | |

**Cyfarfod 10 Hydref 2024**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: 'LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU' | • Derbyn cynnwys yr adroddiad<br>• Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis | **Disgwylir diweddariad amserol.** |

**Cyfarfod 28 Tachwedd 2024**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2023-24 | • Derbyn yr adroddiad<br>• Derbyn cynnig Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno adroddiad pellach fydd yn gosod cyd-destun i bolisïau a threfniadau gwella gwasanaeth | **Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yng nghyfarfod Medi 2025 – Dim gweithrediad pellach** |

**Cyfarfod 16 Ionawr 2025**

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol<br>• Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion<br><br>Nodyn:<br>• Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026<br>• Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch | **Disgwylir i'r pwyntiau gweithredu yma gael eu cwblhau yn amserol.**<br><br>**O ran adroddiad CIPFA -**<br>**Mae'r adroddiad drafft wedi cael ei dderbyn gan CIPFA ac yn y broses o gael ei derfynu. Bydd amserlen gweithredu yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.** |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | • Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Chwefror 2025 – Ionawr 2026<br><br>Cais i ychwanegu:<br>• Rhaglen Datblygu'r Pwyllgor<br>• Blaenraglen Archwilio Mewnol<br>• Blaenoriaethau Archwiliadau – dilyniant i argymhellion<br>• Angen cynnal sgwrs rhwng yr adrannau perthnasol i drafod effaith gwrthod cynlluniau tai fforddiadwy ar ysgolion Gwynedd i'r dyfodol | **Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 17 Gorffennaf 2025, blaenoriaethwyd yr eitem 'Strategaeth Addysg' ar gyfer rhaglen waith 2025/26. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr heriau demograffeg sydd yn wynebu ysgolion.** |

**Cyfarfod 6 Chwefror 2025**

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF | • Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r drefniadau Gofal Cartref y Cyngor<br>• Croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth<br>• Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith | **Disgwylir i'r pwynt gweithredu perthnasol gael ei gwblhau yn amserol.** |

**Cyfarfod 22 Mai 2025**

| | | |
|---|---|---|
| HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD | • Derbyn adroddiad drafft 2024 /25 o HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD<br>Sylwadau:<br>• Cynllun Penrhos - angen pwyslais ar ddatblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos ac nid tai yn unig<br>• Strategaeth Llifogydd – ystyriaeth i'r brif ffordd A499<br>• Effeithiau Erthygl 4<br>• Dyfodol Cynllun ARFOR – sicrwydd parhad i'r Cynllun<br>• Trefniadau Diogelu Ysgolion – angen sylw pellach | **Mae hwn yn eitem ar wahân ar agenda'r pwyllgor yma ar 9 Hydref 2025.** |

**Cyfarfod 11 Medi 2025**

| | | |
|---|---|---|
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2024 / 25 | • Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)<br>• Derbyn Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)<br>• Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo<br>Nodyn:<br>• Cywiro sgôr cyfredol Risg Cyllid o 20 i 15 yn yr adroddiad Cymraeg, pwynt 4.2<br>• Bod cyd-destun risg 'diwylliant' yn cyfeirio at egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd<br>• Cais am fwy o wybodaeth i sicrhau bod trefniadau mewn lle i wella gwasanaethau<br>• Cais i'r adroddiad Cyfraddau Casglu Treth Cyngor amlygu premiwm tai | **Bydd y sgoriau risg llywodraethu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau o fewn yr adrannau.**<br><br>**Mae'r adroddiad ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor ar y blaenraglen i'w gyflwyno I'r Pwyllgor ar 13 Tachwedd.** |
| DATGANIAD O GYFRIFON 2024/2025 (AMODOL AR ARCHWILIAD) | • Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2024/25<br>Nodyn:<br>Cais am fwy o wybodaeth am Gronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | **Gweler atodiad A - sef yr ymateb a ddarparwyd i'r ymholiad yma.** |

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024/25 | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol<br>Nodyn:<br>Gosod Cyllideb. Dileu pwyntiau bwled pwynt 28 cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn, Hydref 2il 2025 | **Yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 2 Hydref 2025. Dim gweithrediad pellach.** |
| RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25 | • Derbyn yr adroddiad | **Dim Gweithrediad Pellach** |
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CH1 AC ADRODDIAD RHEOLAETH STRATEGOL AR FALANSAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN | • Derbyn Rhaglen Waith Archwilio Cymru Chwarter 1<br>• Derbyn Adroddiad Archwilio Cymru – Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth gefn | **Dim Gweithrediad Pellach** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH | • Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth<br><br>Nodyn: Gwirio os yw cwynion tai cymdeithasol yn rhan o'r broses cwynion | **Yn dilyn yr ymholiad ynglŷn a chwynion Tai Cymdeithasol, darparwyd ymateb i'r aelod yn cadarnhau bod angen i gwynion yn ymwneud ag opsiynau tai, rhestrau aros, digartrefedd neu gorfodaeth o ran perchnogion gael eu cyflwyno yn unol â pholisi cwynion y Cyngor. Ar gyfer tenantiaid sydd eisoes wedi eu cartrefu, fel rheol byddai cwynion yn cael eu cyflwyno neu eu cyfeirio at y gymdeithas dai berthnasol. Ar gyfer cwynion sy'n berthnasol i'r gymdeithas dai a'r Cyngor, bydd penderfyniad rhwng y ddau gorff ynglŷn a phwy fydd yn gyfrifol am arwain ar ymchwilio/ymateb i'r gwyn.** |
| ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO | • Derbyn yr adroddiad yn cefnogi diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn a chaffael gwaredu eiddo ac argymell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo'r newidiadau. | **Yr eitem ar raglen y Cyngor Llawn ar gyfer 2 Hydref 2025.** |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | • Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Hydref 2025 – Medi 2026 | **Dim Gweithrediad Pellach** |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

**ATODIAD A**

Ymateb i’r ymholiad ar Gronfa FMG Morgan –

"Mae Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan yn cynnwys 4 elusen ar wahân sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae'r wybodaeth sydd yn ymddangos yn nogfennau llywodraethu'r elusennau (fel sy'n ymddangos ar wefan y Comisiwn Elusennau) fel a ganlyn:

**CYMYNRODD FLORENCE M GUEST MORGAN (YSGOL UWCHRADD SIROL BOTTWNOG)**

Rhif elusen: 525284

**Gwrthrychau elusennol**

RHOI GRANTIAU TUAG AT GOSTAU TEITHIO, DILLAD, A DARPARU PRYDAU AM DDIM I UNRHYW BLENTYN NEU BLANT TLAWD A HAEDDIANNOL O BLWYF LLANENGAN SYDD YN MYNYCHU YSGOL UWCHRADD SIROL BOTTWNOG.

**Ardal ar gyfer y buddion**

PLWYF LLANENGAN

**CRONFA YSGOLORIAETH MORGAN**

Rhif elusen: 525297

**Gwrthrychau elusennol**

YSGOLORIAETH NEU GRANTIAU, MEWN UNRHYW BRIFYSGOL, COLEG PRIFYSGOL, COLEG HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON, NEU SEFYDLIAD ARALL O ADDYSG BELLACH (GAN GYNNWYS PROFFESIYNOL A THECHNEGOL). RHODDIR FFAFRIAETH I FUDDIOLWYR SY'N ISRADDEDIGION YNG NGHOLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU, BANGOR. GELLIR GWARIO UNRHYW WEDDILLION O'R INCWM BLYNYDDOL NET I DDARPARU BWRSARIAETHAU NEU GYNHALIAETH, CYMORTH ARIANNOL, AC ATI. Y BUDDIOLWYR YW PERSONAU O UNRHYW RYW A ANWYD NEU SY'N BYW YN YR ARDAL NAD YDYNT WEDI CYRRAEDD 25 OED, AC SYDD ANGEN CYMORTH.

**Ardal ar gyfer y buddion**

PLWYF LLANENGAN

**MORGAN AR GYFER GOFALU AM Y RHAI SY'N DDIFRIFOL WAEL**

Rhif elusen: 244683

**Gwrthrychau elusennol**

YW RHYDDHAD PERSONAU SY'N PRESWYLIO YN YR ARDAL AR GYFER Y BUDDION SY'N DIODDEF O UNRHYW SALWCH DIFRIFOL, TERFYNOL NEU HIRDYMOR A/NEU EU DIBYNYDDION A ALLAI FOD YN HAEDDU CYMORTH, GYDA BLAENORIAETH ARBENNIG YN CAEL EI ROI I'R RHAI SY'N DIODDEF O DWBERCWLOSIS. 2) GALL YR YMDDIRIEDOLWYR RYDDHAU'R RHAI SY'N GYMWYS I GAEL CYMORTH TRWY: A) RHOI GRANTIAU O ARIAN IDDYNT; NEU B) DARPARU NEU DALU AM NWYDDAU, GWASANAETHAU NEU GYFLEUSTERAU AR EU CYFER; NEU C) RHOI GRANTIAU O ARIAN I BERSONAU NEU GYRFF ERAILL SY'N DARPARU NWYDDAU, GWASANAETHAU NEU GYFLEUSTERAU I'R RHAI SY'N GYMWYS I GAEL CYMORTH.

**Ardal ar gyfer y buddion**

BWRDEISTREF DOSBARTH GWLEDIG PWLLHELI LLŶN

**MORGAN AR GYFER LLES PLANT A GOFALU AM ~~F~~AMAU BEICHIOG**

Rhif elusen: 244682

**Gwrthrychau elusennol**

HYRWYDDO, DATBLYGU A CHYMORTH GWAITH LLES PLANT A GOFAL MAMAU BEICHIOG YMHLITH Y TLAWD YN YR ARDAL AR GYFER Y BUDDION.

**Ardal ar gyfer y buddion**

ARDAL WLEDIG LLŶN A BWRDEISTREF PWLLHELI

Fel y gwelir, mae'r amcanion elusennol a'r ardaloedd daearyddol ar gyfer budd o'r gronfa ymddiriedolaeth yn gymharol gul, fel yr eglurwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd galw uwch ar yr elfen Lles Plant a Mamau Beichiog o'r ymddiriedolaeth yn ystod pandemig Covid a hyd at 2023/24. Mae taliadau yn ddibynnol ar dderbyn cais, ac roedd nifer y ceisiadau yn 2024/25 wedi haneru o'i gymharu â 2023/24, ac bellach yn ôl i lefelau cyn Covid. Dyma'r prif reswm dros y gostyngiad rhwng y ddwy flynedd."

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 HYDREF 2025** |
| TEITL: | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chraffu'r penderfyniadau'r Cabinet** |
| AELODAU CABINET: | **CYNGHORYDD HUW WYN JONES, AELOD CABINET CYLLID** |
| | **CYNGHORYDD NIA JEFFREYS, ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| | **DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR** |

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys cynlluniau ariannol yr awdurdod, lle'n briodol.

2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cynllun Ariannol Tymor Canolig) i'r Cabinet ar 16 Medi 2025.

3. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod allan y rhagolygon am sefyllfa ariannol y Cyngor dros y dair blynedd ariannol nesaf, ac mae'n cynnwys nifer o ragdybiaethau yn ogystal â chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt sefyllfa ariannol y Cyngor, herio'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**

Adroddiad Cabinet 16/09/2025: Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid a'r Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid*<br>*Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr* |
| | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *16 Medi 2025* |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2026/27 – 2028/29.

1.2 Comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o opsiynau, fel amlinellir yn rhan 4 a 5 o'r adroddiad hwn, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn gosod allan y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026.

2.2 Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

2.3 Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ystyried y gwaith sydd ei angen er mwyn creu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2026/27 – 2028/29, ac i lywio'r gwaith sydd ei angen.

2.4 Ni ddisgwylir i'r Cyngor gael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2026/27 tan o leiaf fis Tachwedd 2025, ond gyda'r rhagolygon fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn bwriadu rhoi cynnydd o 2% ar holl benawdau gwariant cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2026/37 gallwn ddisgwyl cynnydd blynyddol yn ein setliad ariannol o oddeutu 1.5%, yn enwedig o ystyried yr ansefydlogrwydd posib fydd yn deillio o etholiadau'r Senedd ym Mai 2026.

2.5 Mae risg sylweddol, felly, o ansefydlogrwydd ariannol difrifol o beidio cymryd camau cynnar a phendant i ystyried y sefyllfa ac chymryd camau adfer.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gwytnwch y Cyngor, a chynaliadwyedd ariannol hirdymor, trwy ddarparu rhagolwg strategol y tu hwnt i ystyriaethau cyllideb y flwyddyn gyfredol. Mae'n offeryn gwerthfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio am y dyfodol.

3.2 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft ar gyfer y 3 blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2026 wedi ei gynnwys yn yr atodiad. Mae’r CATC yn ddogfen fyw –mae'r gyllideb yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol gyda chynllun incwm a gwariant fanwl iawn, ond mae’r cynllun hwn yn asesiad lefel uchel o anghenion ariannol y Cyngor am dair blynedd fydd yn cael ei ddiweddaru’n gyson wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer newidiadau mewn tybiaethau ariannu cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm, pwysau gwario ac unrhyw newidiadau mewn cynlluniau arbed.

3.3 Cymeradwywyd fersiwn flaenorol y CATC gan y Cabinet ym Mai 2024.

3.4 Bydd unrhyw adolygiad neu adnewyddiad o Gynllun y Cyngor yn y blynyddoedd nesaf hefyd yn cael ei adlewyrchu, gan ymgorffori unrhyw newidiadau ariannol sy'n deillio o hynny.

3.5 Disgwylir bydd diweddariadau i’r Cynllun yn cael eu cyflwyno i’r Cabinet yn rheolaidd wrth i ragolygon ariannol newid.

### Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.6 Pwrpas y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yw dwyn ynghyd yr holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Mae’r CATC yn rhoi darlun cyfannol o'r dirwedd ariannol y tu hwnt i'r flwyddyn gyllidebol bresennol.

3.7 Mae'r CATC yn cydbwyso goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau adnoddau. Mae'n helpu'r Cyngor, y Cabinet, ac unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â’r Cynllun Dirprwyo, i ddeall y cyfaddawdau rhwng nodau ariannol a'r adnoddau sydd ar gael.

3.8 Mae’r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos rhagolygon bydd y Cyngor, heb ymyrraeth ganddo yn wynebu’r bylchau ariannol canlynol yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dan sylw:

- 2026/27 bwlch o £14.9 miliwn
- 2027/28: bwlch o £12.3 miliwn
- 2028/29: bwlch o £12.8 miliwn

3.9 Hynny yw, rhagwelir bwlch cronnus o £40 miliwn dros dair blynedd.

| | **Amcan Gorffennaf 2025** | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | **2026/27** | **2027/28** | **2028/29** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Pwysau** | | | |
| Chwyddiant Tâl | 9.3 | 8 | 8.3 |
| Chwyddiant Prisiau | 4.7 | 3.9 | 4 |
| Ardollau | 1 | 0.5 | 0.5 |
| Lleihad Cyfradd Pensiwn Cyflogwr | -3 | 0 | 0 |
| | | | |
| Pwysau / Galw | 8 | 5 | 5 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau** | **20** | **17.4** | **17.8** |
| | | | |
| **Newidiadau Ariannu** | | | |
| Treth Cyngor – newid yn y sylfaen | 1.1 | 1.2 | 1.2 |
| Setliad Grant | 3.7 | 3.8 | 3.8 |
| | | | |
| **Cyfanswm y newidiadau Ariannu** | **4.8** | **5** | **5** |
| | | | |
| Arbedion i'w gwireddu | 0.3 | 0.1 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Ariannu ac Arbedion** | **5.1** | **5.1** | **5** |
| | | | |
| **Bwlch** | **14.9** | **12.3** | **12.8** |

3.10 Mae manylion yr wybodaeth sydd yn y tabl, a chyfiawnhad manwl dros y ffigyrau a ddefnyddir, i'w cael yn y CATC.

3.11 Dylid nodi nad y sefyllfa orau posib na'r un waethaf sy'n cael ei ddangos yn y tabl uchod, ond y senario mwyaf tebygol ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i ni.

3.12 Nid yw'r dadansoddiad ychwaith yn ystyried unrhyw gynnydd yng nghyfradd Treth Cyngor dros y dair blynedd nesaf. Yn amlwg, wrth lunio camau i gau'r bwlch, bydd yn ofynnol ystyried cynyddu'r dreth.

3.13 Mae'n anorfod bydd y cyfyngiadau ariannol caeth bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf yn effeithio ar ei allu i wireddu ei amcanion, a darparu'r holl wasanaethau rydym yn eu dymuno ar ran pobl Gwynedd. Yn hynny o beth, fel yr arfer cam cychwynnol fyddai mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd wedi ei gynnwys yn yr atodiad. Mae'r Cynllun yn adnabod y bwlch ariannol, ac mae rhan 4 isod yn argymell camau gellid eu hystyried er mwyn mynd ati i isod cyllidebau cytbwys yn 2026/27, 2027/28 a 2028/29.

3.14 Pan fydd modd rhoi gwerth ariannol i'r camau gweithredu, bydd y CATC yn cael ei ddiweddaru fel bod modd cyflawni nod y CATC yma i gynnig golwg glir a chryno ar gynaliadwyedd yn y dyfodol fel bod modd llywio penderfyniadau i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyllid tymor hir, gan sicrhau iechyd ariannol y Cyngor dros amser.

**4. Ymateb i'r sefyllfa sy'n ein wynebu er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2026/27**

4.1 Gan ein bod bellach yn gwybod y byddwn yn wynebu diffyg ariannol oddeutu £40 miliwn dros y tair blynedd nesaf, mae'n hanfodol i roi ystyriaeth sut i ymateb i hynny a chanolbwyntio yn gyntaf ar gyllideb 2026/27.

4.2 Mae nifer o elfennau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dal yn aneglur ar hyn o bryd wrth gwrs. Gall cynnydd cyflogau fod yn llai na'r darogan, gall graddfa chwyddiant ostwng ac efallai na fydd angen darparu cymaint ar gyfer pwysau ar wasanaethau.

4.3 Y llynedd bu i ni dderbyn arian ychwanegol wrth i Llywodraeth Cymru ychwanegu mecanwaith "llawr" i ddyraniad y gyllideb refeniw oedd yn golygu y cawsom £1.6 miliwn yn hwyr yn y dydd. Defnyddiwyd yr arian yma y llynedd i ariannu materion "un tro", sef materion na wyddom os fydd angen eu hariannu'n barhaol neu beidio ar y pryd. Bydd yr arian yma ar gael i ni felly wrth ystyried gofynion gwario parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen. Mae hynny'n fymryn o gymorth.

4.4 Mae'r tueddiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn, ar gyfer rhai meysydd penodol sydd dan bwysau, yn bodoli ers rhai blynyddoedd bellach. Mae unrhyw arian ychwanegol i gydnabod pwysau ar wasanaethau yn cael ei groesawu wrth reswm, ond byddai rhyddhau'r arian hwnnw ymlaen llaw ar gychwyn y flwyddyn fel rhan o'r setliad yn llawer mwy buddiol i Awdurdodau Lleol. Gallwn dybio y daw rhyw gymaint o arian ar ffurf grant refeniw yn ystod y flwyddyn nesa hefyd er na fydd sicrwydd o hynny. Byddwn angen gwneud gwaith manwl a thrafod ymhellach gyda'r Llywodraeth cyn sefydlu os ydym yn teimlo'n gyfforddus i gynnwys ffigwr ar gyfer arian o'r fath wrth osod cyllideb 2026/27 a'i peidio.

4.5 Wrth lunio'r adroddiad hwn y llynedd bu i ni gadarnhau'r bwriad o gyflawni rhai tasgau gwaith allasai ein cynorthwyo i gau'r bwlch ariannol yr oeddem yn ei wynebu bryd hynny. Bu i ni gyflawni'r rhan helaeth o'r rhain ond mae ambell un wedi bod yn dasgau oedd angen mwy o amser i'w cwblhau ac mae eraill yn dasgau y gallwn edrych arnynt yn flynyddol. Yn benodol:

- Adolygiad gan CIPFA o gyfleon posib – y gwaith bellach wedi ei gwblhau a byddwn angen ystyried y casgliadau dros yr wythnosau nesa
- Ail edrych ar benawdau corfforaethol sydd yn y gyllideb e.e. Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor
- Adolygiad corfforaethol ffioedd ac incwm
- Adolygiad gwariant yn y maes Gofal gan arbenigwyr WLGA – Gwaith wedi ei gyflawni ac angen ystyried y casgliadau
- Adolygiad o drefniadau comisiynu gofal
- Adolygiad strategol cludiant ysgolion
- Cyfleon cydweithio gyda awdurdodau eraill e.e. Materion swyddfa gefn

4.6 Er hyn, mae'n amlwg mai ein prif opsiynau ar gyfer gosod cyllideb hafal fydd un ai setliad uwch na'r darogan presennol gan Lywodraeth Cymru, cyflawni arbedion/toriadau neu cynnydd yn y dreth Cyngor.

**Y setliad**

4.7 Eleni, mae diffyg eglurder o gyfeiriad y Llywodraeth yn golygu fod cynllunio ymlaen llaw ar sail y setliad tebygol hyd yn oed yn anoddach ar gyfer 2026/27 na'r arfer. Ar un llaw rydym yn clywed fod ychwanegiad i'r gyllideb sector gyhoeddus gan lywodraeth San Steffan y llynedd yn gam cyntaf tuag at gywiro effaith diffyg buddsoddiad dros ddegawd a mwy. Ar y llaw arall, rydym yn cael ein rhybuddio na all y Llywodraeth yng Nghaerdydd gynyddu gwariant cyhoeddus o dan yr amgylchiadau economaidd presennol.

4.8 Rhagrybuddir ni hefyd fod posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod yr hyn a gyfeirir ato fel "rollover budget" ar gyfer 26/27, sef parhau gyda chyllideb eleni gydag ychwanegiad bychan tuag at chwyddiant yn unig a dim ystyriaeth/cydnabyddiaeth tuag at y costau sylweddol eraill sy'n wynebu Llywodraeth Leol. Amcangyfrifir y byddai'r ychwanegiad cyfartalog cenedlaethol hwnnw oddeutu 2% (tebygol felly o fod oddeutu 1.5% i Wynedd o dan y fformiwla dyrannu) ac felly byddai hynny'n doriad cyllideb mewn termau real oni bai fod graddfa chwyddiant yn gostwng yn sydyn cyn Ebrill 2026, o gofio fod graddfa chwyddiant heddiw yn 3.8%.

4.9 Ynghlwm i'r rhybudd o "rollover budget", mae cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth y byddai hynny'n gadael oddeutu £400 miliwn heb ei ddyrannu o'u coffrau refeniw, ac y bydd penderfyniadau ar y cyllid hwnnw yn digwydd ar ôl Etholiad Senedd Cymru ym mis Mai. Bydd hynny ar ôl i ni osod ein cyllideb refeniw ni ac felly yn llawer rhy hwyr o ran ceisio gwarchod gwasanaethau hanfodol. Mae posibilrwydd hefyd na fyddai dim o'r £400 miliwn yma'n cael ei ddyrannu i lywodraeth leol.

4.10 Daw eglurder ar lefel ein Setliad erbyn Tachwedd, sy'n gynt o lawer na'r arfer. Byddai cynnydd pellach yn y setliad o 1% i ni yng Ngwynedd yn arwain at oddeutu £2.5 miliwn o refeniw ychwanegol tuag at ein bwlch.

**Arbedion/Toriadau**

4.11 Dros y 15 mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod gwasgu ar gyllidebau a chanfod arbedion drwy wahodd cynigion gan Adrannau, a blaenoriaethu'r cynlluniau oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.

4.12 Roedd hynny yn arwain at dorri hwnt ac yma ond i raddau helaeth yn parhau i geisio cyflawni cymaint ag y gallwn, i bawb.

4.13 Bu'r gyfundrefn arbedion a thoriadau yn effeithiol am flynyddoedd lawer gan adnabod £74 miliwn dros gyfnod oddeutu 15 mlynedd, ond rydym bellach wedi cyrraedd pwynt lle na allwn wasgu mwy ohoni heb dorri gwasanaethau fyddai'n cael effaith amlwg ac uniongyrchol ar drigolion Gwynedd. Yn sicr, nid yw'r gyfundrefn am ein galluogi i gau'r bwlch sy'n ein wynebu dros y dair mlynedd nesa.

4.14 Sgil effaith y wasgfa ariannol dros y blynyddoedd diwethaf yw fod gwasanaethau dan bwysau cynyddol, gyda diffyg cyllideb wedi bod yn arwain at orwario anorfod mewn nifer o feysydd. Diffyg gallu darparu cyllideb rhesymol oedd yn bennaf gyfrifol am y gorwario hwn h.y. mwy o alw am wasanaeth nag oedd yn bosib i'w gyflawni o fewn y gyllideb oedd ar gael.

4.15 Gwyddom fod gwaith ymchwil trylwyr megis Llechen Lân yn dangos mai parhau i gynyddu fydd y galw mewn rhai gwasanaethau e.e. gofal henoed, gofal plant, Anghenion Dysgu Ychwanegol, cludiant ysgolion a digartrefedd. Llynedd bu'n rhaid ychwanegu cyllideb sylweddol i rai o'r meysydd hyn yn y gobaith y bydd yn dod a'r gyllideb yn nes at y lefel sydd ei angen i osgoi gorwariant.

4.16 Byddwn yn cadw llygad ofalus ar effaith hyn eleni, ond hyd yn oed os fydd ein gorwariant eleni yn llai na'r blynyddoedd diwethaf, rydym yn gwybod yn barod y bydd y galw flwyddyn nesa yn uwch eto mewn rhai meysydd ac y bydd gofyn cynyddu ein gwariant felly, ac nid ei leihau.

4.17 Wedi dweud hyn, er mwyn bod yn sicr nad ydym yn colli unrhyw gyfleon, cychwynnwyd ar y broses y llynedd o edrych ar bob llinell gwariant yng nghyllidebau'r Cygor rhag ofn ein bo dyn methu unrhyw gyfle, ac mae bwriad i gwblhau'r gwaith hwnnw eleni.

4.18 Elfen arall sylweddol o wariant cyfansawdd y Cyngor yw'r gyllideb a ddyrannir i ysgolion. O gyfanswm gwariant refeniw y Cyngor o £361 miliwn mae £125 miliwn yn cael ei ddyrannu i gynnal ein cyfundrefn ysgolion, sef 35% o'n holl wariant.

4.19 Mae gwarchod y gyllideb hon rhag unrhyw doriad yn cynyddu'r pwysau i orfod torri cyllidebau gweddill ein gwasanaethau. Pe byddem yn ceisio canfod ein bwlch o £14.9 miliwn yn 2026/27 o doriadau yn unig, ac yn gwarchod y gyllideb ysgolion a'r gyllideb Gofal (gan fod y galw yn cynyddu yn y maes gofal yn flynyddol ac felly dim modd ei thorri) , byddai'n golygu torri 13% ym mhob adran arall gan arwain at effaith nodedig a gweladwy iawn ar wasanaethau yn ein cymunedau.

4.20 Hyd yma mae Gwynedd wedi gallu llwyddo i warchod ein hysgolion rhag toriadau o'r un graddfa sydd wedi digwydd mewn nifer o awdurdodau lleol eraill cyfagos. Bu toriad o 2.34% (£1.97 miliwn) rhwng blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25 (eithriwyd ysgolion Arbennig) ac roedd hynny'n bwysau sylweddol ar gyfundrefn oedd eisoes yn wynebu heriau ariannol. Ni fu toriadau pellach i gyllidebau ysgolion yn 2025/26.

4.21 Byddai torri 1% pellach ar gyllidebau ysgolion (gan eithrio ysgolion Arbennig) yn cyfrannu oddeutu £950,000 tuag at ein bwlch.

**Treth Cyngor**

4.22 Yn flynyddol rydym yn ceisio gwarchod trigolion Gwynedd rhag cynnydd yn y dreth Cyngor ac mae hynny'n bwysicach fyth mewn amgylchiadau economaidd cenedlaethol sy'n heriol i bawb. Rydym yn ceisio cefnogi pobl i allu byw bywydau ffyniannus yn ein cymunedau ac felly rydym wastad yn ceisio troi pob carreg cyn ystyried cynyddu'r dreth.

4.23 Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol drychinebus sydd wedi ein wynebu ni a phob Cyngor arall yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu fod pob Awdurdod wedi gorfod cynyddu'r dreth llawer mwy na fyddent yn ei ddymuno.

4.24 O geisio gwarchod pobl fregus ein cymunedau rhag toriadau gwasanaeth sy'n hanfodol i'w llesiant, ac os na fydd arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, bydd pob Cyngor yn cael ein gwthio i gynyddu'r dreth yn sylweddol unwaith yn rhagor ar gyfer 2026/27.

4.25 Yng Ngwynedd, mae cynyddu'r dreth o 1% yn arwain at refeniw ychwanegol oddeutu £1 miliwn tuag at ein bwlch ariannol.

**Argymhelliad ar gyfer 2026/27**

4.26 Mae'r holl ffactorau uchod a'r diffyg eglurder o ran bwriad Llywodraeth Cymru wrth osod cyllideb 26/27 yn ei gwneud yn heriol iawn i ni allu gosod cynllun cadarn ar gyfer delio gyda bwlch 2026/27 ar hyn o bryd. Bydd mwy o eglurder erbyn edrych ar y blynyddoedd dilynol, gobeithio, ond mae risg eleni i frysio i geisio cyflawni toriadau llym er mwyn ceisio cau'r bwlch. Mae toriadau yn creu effaith uniongyrchol ar drigolion y Sir ac mae'n bosib, pe bai dyraniadau ychwanegol gan y Llywodraeth ar ôl etholiad Mai 2026, na fyddem wedi gorfod torri'r gwasanaethau hynny wedi'r cyfan.

4.27 Wedi dweud hynny, ni allwn adael bwlch mor sylweddol a £14.9 miliwn heb ei gyfarch yn gadarn. Yn amlwg ni fydd unrhyw ddyraniad ychwanegol posib yn dilyn yr etholiad unlle'n agos i swm o'r maint yma ac felly bydd rhaid cynllunio i gyfarch y rhan helaeth ohono a defnyddio arian un tro wrth gefn ar gyfer y gweddill.

4.28 Wrth wneud hyn bydd rhaid bod yn hynod o ofalus nad ydym yn gadael swm sylweddol o'r bwlch presennol o £14.9 miliwn heb ei gyfarch gyda chynlluniau cadarn a pharhaol. Byddai hynny nid yn unig yn arwain at leihau ein cronfeydd wrth gefn yn sydyn (ac yn sgil hynny creu risg hyfywdra ariannol) ond hefyd os na ddaw arian ychwanegol wedi'r etholiad yna yn y flwyddyn ddilynol (2027/28) byddai ein bwlch ariannol gymaint a hynny yn uwch e.e. pe byddem yn cynllunio i osod cyllideb hafal eleni drwy ddefnyddio £5 miliwn o arian un tro wrth gefn, byddai'n golygu fod ein bwlch yn 2027/28 yn cynyddu o'r £12.3 miliwn presennol i £17.3 miliwn ac yn creu risg hyfywdra ariannol sylweddol.

4.29 Byddwn felly yn parhau i weithio ar yr opsiynau a amlygir uchod ac yn addasu ein cynllun ar gyfer 2026/27 wrth i ffigyrau gael eu cadarnhau.

**5. Paratoi ar gyfer 2027/28 a 2028/29**

5.1 Wrth edrych ar ddwy flynedd ddilynol y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gwelwn fod bylchau sylweddol o £12.3 miliwn a £12.8 miliwn, cyfanswm o £25.1 miliwn dros y ddwy flynedd ar sail y wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gosod cyllidebau tair mlynedd ers rhai blynyddoedd bellach ac yn ddiweddar rhoddwyd addewidion fod hynny am ddigwydd eleni. Hyd yn hyn nid ydym wedi gweld unrhyw arwyddion fod hynny am ddigwydd. Byddai eglurder o leiaf yn rhoi'r cyfle i ni gynllunio ymlaen llaw yn hytrach na gorfod gwneud penderfyniadau ar fyrder yn flynyddol heb wybod beth fydd yn ein wynebu y flwyddyn ganlynol.

5.3 Ar hyn o bryd felly ni allwn roi cynllun cadarn ar gyfer cau'r bwlch a bydd i raddau helaeth iawn yn ddibynnol ar lefel y setliad, ac yna'r ystyriaethau arferol a amlygir uchod pan yn edrych ar gyfuniad o doriadau a chynyddu'r dreth Cyngor.

5.4 Mae’n amlwg y byddwn yn gorfod cynllunio ar gyfer toriadau sylweddol yn y blynyddoedd hyn oni bai fod newid i’r sefyllfa genedlaethol. Pe byddem yn gwybod yn well pa fath o raddfa o doriadau fydd eu hangen byddai hynny’n gymorth i lywio’r broses o ganfod toriadau, ond nid dyna’r sefyllfa ac felly bydd rhaid cychwyn ystyried yr opsiynau yn syth ar ôl gosod cyllideb 2026/27.

5.5 Dros amser mae posibilrwydd y bydd ffynonellau eraill y byddwn yn gallu/gorfod eu hystyried hefyd.

5.6 Ar hyn o bryd rydym yn anelu i glustnodi’r incwm a ddaw o’r Premiwm Treth Cyngor i’w ail fuddsoddi yn y maes tai, un ai ar gynlluniau yn ein Cynllun Gweithredu Tai neu i gyfarch y cynnydd gwariant sylweddol sydd wedi bod ar wasanaethau i gefnogi’r rhai sy’n ddigartref. Penderfyniad y Cyngor oedd hyn wrth osod y Premiwm ond os fydd yr heriau ariannol yn parhau yna byddai modd i’r Cabinet roi ystyriaeth i ddefnyddio elfen o’r incwm i gyllido gwariant cyffredinol.

5.7 Yn yr un modd rydym bellach yn derbyn incwm o dreth cynhwysion plastig drwy Lywodraeth San Steffan. Pwrpas yr incwm yw cyfrannu tuag at y gost o ddelio gyda gwastraff cynhwysyddion plastig, yn arbennig felly i wella’n isadeiledd gwastraff. Fodd bynnag, yn dechnegol nid oes rheidrwydd i wneud hynny a gall y Cabinet gyfeirio yr incwm hwn tuag at gyllido gwariant cyffredinol pe bai rhaid. Ar hyn o bryd mae’n aneglur os fydd yr incwm hwnnw’n barhaol na faint yn union fydd y swm a dderbynnir. Mae’r swm ar gyfer eleni oddeutu £3.7 miliwn.

5.8 Rydym wedi manteisio ar gyfleon yn ystod y flwyddyn ariannol i ail lenwi ein Cronfa Trawsffurfio. Dyma’r gronfa a ddefnyddir i gyllido gwariant newydd sy’n ein taro, neu ar gyfer newid ein ffordd o weithio neu gyflawni pethau sydd wedi eu hadnabod yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

5.9 Eleni, rydym hefyd wedi gwahodd ceisiadau penodol ar gyfer prosiectau Buddsoddi i Arbed gan Adrannau’r Cyngor. Er fod yr hyblygrwydd ar gyfer ariannu cynlluniau o’r fath gennym bron a bod yn barhaus, rydym eleni wedi rhoi cyfarwyddyd penodol i adrannau geisio adnabod cyfleon o’r fath, gan ganolbwyntio ar faterion allai arwain at arbedion refeniw o fewn y 2/3 mlynedd nesa. Byddai modd defnyddio unrhyw arbedion o'r fath fel cyfraniad uniongyrchol tuag at leihau ein bwlch refeniw yn hytrach na’u defnyddio i ail-gyflenwi’r gronfa drawsffurfio.

5.10 Unwaith y byddwn wedi sefydlu cynllun cadarn ar gyfer 2026/27, byddwn yn gweithio ymhellach ar yr opsiynau uchod er mwyn cynllunio ar gyfer y ddwy flynedd dilynol. Mae’n amlwg fod Llywodraeth leol yn parhau i wynebu gwasgfa ariannol debyg i’r blynyddoedd diwethaf ac nad oes arwydd y bydd y sefyllfa’n newid yn y dyfodol agos.

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 6.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 6.2 Swyddog Monitro

Mae ymateb i'r sefyllfa a amlygir yn golygu gwaith rhag blaen i gynllunio a pharatoi tra yn cydnabod fod elfennau o ansicrwydd sylfaenol yn bodoli. . Rwy'n croesawu'r comisiwn i'r Prif Weithredwr i gychwyn ar y gwaith yma. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ystyried yr oblygiadau posib ac ymateb ynghyd ac asesu ardrawiadau er canfod datrysiadau.

**Atodiadau:**

*Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 – 2028/29*

# CYNGOR GWYNEDD

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2026/27 i 2028/29

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ar gyfer Cyngor Gwynedd hyd at flwyddyn ariannol 2028/29.


1.2. Mae'r gyllideb yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol i ystyried unrhyw newidiadau lleol neu genedlaethol, ond mae’r cynllun hwn yn asesiad lefel uchel o anghenion ariannol y Cyngor am dair blynedd. Bydd unrhyw adolygiad neu adnewyddiad o Gynllun y Cyngor yn y blynyddoedd nesaf hefyd yn cael ei adlewyrchu, gan ymgorffori unrhyw newidiadau ariannol sy'n deillio o hynny. Bydd hefyd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer newidiadau mewn tybiaethau ariannu cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm lleol, pwysau gwario ac unrhyw newidiadau mewn cynlluniau arbed.

1.3. Mae’r ddogfen yma yn gosod cyd-destun ac yn egluro’r bwlch ariannol sydd angen ei lenwi cyn bydd modd gosod cyllideb cytbwys am y dair blynedd yn oes y Cynllun. Ceir eglurhad am yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ddatblygu'r Gyllideb a'r CATC. Bydd y rhagdybiaethau hynny'n cael eu hadolygu'n barhaus ac, os oes angen, eu diwygio ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth i fwy o ddata a thystiolaeth ar ofynion a chyllid gwasanaethau ddod ar gael.

1.4. Felly, er bod y gyllideb ar gyfer 2025/26 eisoes wedi ei osod ar 6 Mawrth 2025, mae cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd dilynol 2026/27 – 2028/29 yn ddangosol yn unig ac yn debygol o newid cyn i'r cyllidebau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu cymeradwyo fel rhan o'r cylch blynyddol.

## 2. RHAGDYBIAETHAU AR DDULLIAU ARIANNU

2.1. Mae'r siart isod yn dangos ffynhonnell ariannu'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26:




### <u>Cyllid Allanol Cyfunol</u>

2.2. Gyda'i gilydd, gelwir y cyfuniad o gyfraniad y Cyngor o'r Grant Dreth Annomestig Genedlaethol (£44m) a'r Grant Bloc (neu Grant Cynnal Refeniw (RSG)) (£204m) yn **Cyllid Allanol Cyfun (AEF)** ond yn gyffredin defnyddir y term "Setliad" ar gyfer y swm yma. Ar gyfer 2025/26 mae AEF Cyngor Gwynedd yn **£248,389,720** (cyfeirir ato yn adroddiad y Gyllideb fel "Grant Llywodraeth"), ac mae'n cynrychioli oddeutu 40% o incwm gros y Cyngor.

<u>Cyllideb 2025-26</u>

2.3. Mae setliad pob Cyngor yn deillio o ganlyniad Asesiad o Wariant Safonol (SSA) i bob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru gan y Llywodraeth, a caiff y swm yma ei bennu ar lefel Cymru gyfan fel cam cyntaf, yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu.

2.4. I ddibenion cyfrifo dyraniadau SSA unigol i bob Cyngor, dadansoddir gwariant refeniw net llywodraeth leol i 53 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Gosodir swm gwario damcaniaethol ar gyfer pob un o'r meysydd gwario hyn, sy'n seiliedig ar wariant yn y gorffennol (lle mae gwybodaeth o'r fath yn bodoli), fel arfer gydag oediad o tua 3 blynedd oherwydd yr amserlen cyhoeddi, gwirio ayb. Y ffigwr yma ydi'r Asesiad Gwariant Safonol (SSA) ar gyfer y maes gwasanaeth.

2.5. Pennir dull dosbarthu ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn yn eu tro er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth ar draws yr awdurdodau.

2.6. Mae'n egwyddor sylfaenol o'r drefn dylai cydrannau pob fformiwla fod yn wrthrychol lle bo hynny'n bosibl, fel na all awdurdodau ddylanwadu'n uniongyrchol ar gyllid (h.y. "chwarae'r system").

2.7. O'r holl ddata a ddefnyddir, mae:

- **67% o fewnbynnau data yn seiliedig ar gleientiaid (e.e. poblogaeth a demograffi)**
- **27% yn fesurau amddifadedd**
- **6% yn fesurau o ddilysrwydd / dwysedd.**

2.8. Mae dyraniadau'n seiliedig ar raniadau cymharol Cymru, nid lefelau data awdurdod, gan bod swm yr arian sydd ar gael wedi ei sefydlu ar ddechrau'r broses.

2.9. Pan gyhoeddwyd setliad drafft llywodraeth leol ar gyfer 2025/26, Cyngor Gwynedd dderbyniodd y setliad ariannol ail-waethaf gan Lywodraeth Cymru o ran canran, sef cynnydd o 3.1% Fodd bynnag, yn dilyn pwysau gan nifer o awdurdodau gweledig (oedd yn gweld y cynnydd isaf) gosodwyd llawr o 3.8% erbyn y setliad terfynol. Fel gwelir yn y tabl isod, derbyniodd 9 awdurdod lleol gynnydd o 3.8%, gan gynnwys Gwynedd. Mae hynny'n cymharu â chyfartaledd Cymru o 4.5%:

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2024-25 [Nodyn 1] | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2025-26 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 130,907 | 135,881 | 3.8% | 14 |
| Gwynedd | 239,296 | 248,390 | 3.8% | 14 |
| Conwy | 210,992 | 219,010 | 3.8% | 14 |
| Sir Ddinbych | 205,729 | 215,251 | 4.6% | 8 |
| Sir y Fflint | 265,881 | 275,984 | 3.8% | 14 |
| Wrecsam | 239,206 | 249,508 | 4.3% | 11 |
| Powys | 242,255 | 251,461 | 3.8% | 14 |
| Ceredigion | 138,945 | 144,225 | 3.8% | 14 |
| Sir Benfro | 224,985 | 233,534 | 3.8% | 14 |
| Sir Gaerfyrddin | 360,749 | 375,692 | 4.1% | 12 |
| Abertawe | 446,796 | 468,409 | 4.8% | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 293,059 | 306,177 | 4.5% | 10 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 266,326 | 276,528 | 3.8% | 13 |
| Bro Morgannwg | 216,231 | 224,448 | 3.8% | 14 |
| Rhondda Cynon Taf | 497,404 | 521,329 | 4.8% | 5 |
| Merthyr Tudful | 126,901 | 133,144 | 4.9% | 3 |
| Caerffili | 357,689 | 373,900 | 4.5% | 9 |
| Blaenau Gwent | 147,468 | 154,534 | 4.8% | 6 |
| Torfaen | 183,439 | 192,216 | 4.8% | 7 |
| Sir Fynwy | 130,297 | 135,248 | 3.8% | 14 |
| Casnewydd | 311,915 | 329,322 | 5.6% | 1 |
| Caerdydd | 640,911 | 674,886 | 5.3% | 2 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | **5,877,384** | **6,139,078** | **4.5%** | |

2.10. Gwelwyd gostyngiad arwyddocaol yn y ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd at bwrpasau'r setliad rhwng yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn 2022/23 a ffigyrau cyfrifiad 2021 a ddefnyddiwyd yn 2024/25. Er fod effaith y gostyngiad hwn bellach yn cael ei deimlo'n llawn yn y prif ddangosyddion (roedd 2023/24 yn flwyddyn drosiannol lle defnyddiwyd cyfartaledd y amcangyfrifon a chanlyniadau'r setliad), mae'r effaith yn parhau yn hir-dymor.

2.11. Fel gydag unrhyw ffactor wrth gyfrifo'r Setliad, nid y newid i boblogaeth Gwynedd ynddo'i hun sydd yn effeithio ar y cyfrifiad, ond y newid i boblogaeth Gwynedd mewn cymhariaeth â newid ym mhoblogaeth gweddill Cymru. Gwelir yn y tabl isod fod data poblogaeth Gwynedd fel % o boblogaeth Cymru, at bwrpasu'r setliad, bellach wedi sefydlogi yn yr amcangyfrif ar gyfer 2025/26 ar ôl gostwng dros y 3 blynedd blaenorol o 3.95% i 3.75%:

| Awdurdod Unedol | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2022-23 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2023-24 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2024-25 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **3.95%** | **3.86%** | **3.75%** | **3.77%** |

2.12. O ystyried fod Gwynedd yn parhau i fod ymysg y siroedd sy'n derbyn y setliad isaf (a hynny'n seiliedig ar ffactorau ar wahân i boblogaeth yn unig), erbyn hyn rydym yn disgwyl y bydd y cynnydd Cyngor Gwynedd yn y setliad yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

2.13. Wrth ystyried cynnydd yn y setliad ar gyfer 2026/27 hyd 2028/29 rydym wedi ystyried y ffactorau uchod ac yn rhagdybio bydd yr AEF i Gyngor Gwynedd yn cynyddu o 1.5% y flwyddyn.

**Treth Cyngor**

2.14. Mae'r rhagolygon ar gyfer incwm Treth y Cyngor yn cael ei yrru gan ddau brif ffactor:

a) Nifer yr eiddo cyfatebol Band D, a elwir yn "sylfaen drethiannol".

Mae'r sylfaen drethiannol ar gyfer 2025/26 yn cyfateb i 56,842.05 o eiddo Band D. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor wedi tybio bydd y gyfradd gasglu yn parhau'n gyson ar 99% a bydd twf blynyddol o tua 1% y flwyddyn, wrth i unedau gwyliau hunan-ddarpar ddychwelyd o'r gyfundrefn ardrethi busnes, ond nifer y ceisiadau am eithriadau a disgowntau gynyddu. Rhagwelir erbyn 2028/29 y bydd sylfaen y dreth felly yn cyfateb i 58,564.42 eiddo Band D.

b) Y tâl fesul eiddo cyfatebol Band D.

Mae Treth y Cyngor 2025/26 yn £1,907.49 oedd yn gynnydd o 8.66% o'r lefel yn 2024/25.

**Crynodeb o Gynnydd yn yr Incwm a Ragwelir**

**2.15. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu cyllideb o £356,815,330 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £248,389,720 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor.**

**2.16. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod, rhagwelir bydd incwm y Cyngor o Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor yn cynyddu fel a ganlyn dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn:**

| | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Setliad Grant | 3.7 | 3.8 | 3.8 |
| Treth Cyngor – newid yn y sylfaen | 1.1 | 1.2 | 1.2 |
| **Cynnydd mewn incwm** | **4.8** | **5.0** | **5.0** |

..

**3. PWYSAU GWARIANT**

**Defnyddir y term "pwysau" i ddisgrifio'r gofynion gwario newydd sy'n debygol o wynebu'r Cyngor yn y blynyddoedd i ddod. Mae gofyn i ni geisio meintoli'r elfennau hynny sy'n debygol o gynyddu mewn mwn cost, materion lle bydd mwy o alw am wasanaethau a hefyd materion newydd sy'n debygol o'r taro o gasgliad i ofynion megis newid mewn deddfwriaeth neu i gyflawni rhywbeth sy'n flaenoriaeth i'r Cyngor.**

**Manylir ar yr elfennu hyn isod. Wrth geisio meintoli'r gost rydym yn derbyn cyngor arbenigol gan ein Ymgynghorwyr Trysorlys, yn ymchwilio i dueddiadau hanesyddol ac yn meincnodi yn erbyn tueddiadau cenedlaethol ac ymysg Awdurdodau eraill.**

**Chwyddiant cyflog**

3.1. Mae chwyddiant cyflog yn cynnwys y cynnig cyflog cenedlaethol. Mae £8.6m wedi'i gyllidebu ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer 2025/26, sy'n cynrychioli cynnydd o 3.5%. Roedd y cytundeb tâl terfynol i weithwyr ar wahân i athrawon, a gyhoeddwyd yn Gorffennaf 2025, yn cyfateb i 3.2% tra fod athrawon wedi derbyn cynnydd o 4% o Medi 2025 ymlaen. Amcangyfrifir bydd chwyddiant tâl blynyddol i athrawon yn 4.0% yn 2026/27 hefyd a 3.4% i staff eraill, fyddai'n gyfartaledd o 3.6% yn 2026/27. Rydym yn rhagweld bydd y cynnydd hwn yn 3% yn y ddwy flynedd ddilynol. Mae cyflogau yn cael eu cytuno'n genedlaethol ac mae rheidrwydd arnom i ariannu'r cynnydd blynyddol a gytunir yn dilyn ymgynghoriadau gyda'r undebau llafur.

3.2. Bob tair mlynedd mae ail brisiad o sefyllfa a gwerth y gronfa bensiwn. Bydd ail-brisiad teirblynyddol y Gronfa Bensiwn yn dod yn weithredol o 1 Ebrill 2026. Er na fydd y ffigyrau yn derfynol am rai misoedd eto, mae'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn awgrymu fod y gronfa yn perfformio'n dda ac o ganlyniad byddai'n ddarbodus i ddisgwyl gostyngiad o hyd at 3%, neu £3miliwn, yn y cyfraniadau cyflogwr yn 2026/27.

**Chwyddiant prisiau**

3.3. At ddibenion cynllunio cyllideb strategol, rydym yn cynllunio bydd chwyddiant costau eraill yn gyson â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), heblaw am rai meysydd gwariant penodol lle mae'r cynnydd hanesyddol wedi bod yn nodedig o wahanol i CPI.

| | **2026/27 chwyddiant** | **2027/28 chwyddiant** | **2028/29 chwyddiant** |
|---|---|---|---|
| Costau Gofal | 4% | 4% | 4% |
| Ynni a Tanwydd | 3% | 3% | 2% |
| Chwyddiant arall (CPI) | 3% | 3% | 2% |


** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig), Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd*

<u>Costau Gofal</u>. Mae chwyddiant yn y maes Gofal wedi bod yn hanesyddol uwch na phrisiau yn gyffredinol, yn bennaf oherwydd costau cartrefi gofal annibynnol. Disgwylir bydd y chwyddiant dros y 3 blynedd nesaf yn is nag a fu, ond yn parhau'n uwch na chwyddiant CPI.

<u>Ynni a Thanwydd</u>. Mae'r ffigyrau chwyddiant hyn yn tueddu i fod yn llawer mwy cyfnewidiol na chwyddiant cyffredinol, ond at bwrpasau cynllunio yn y tymor canolig mae'n rhesymol i ddefnyddio ffigyrau CPI.

Ardollau. Mae'r rhain yn symiau sy'n cael eu codi gan 4 corff allanol sy'n codi lefi, sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) a Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd. Mae lefi Awdurdod y Parc yn seiliedig ar y grant mae'r Awdurdod yn ei dderbyn gan y Llywodraeth, ond mae'r cyrff eraill yn codi lefi sy'n adlewyrchu'r gyllideb a osodir ganddynt. Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd o £1m ar y cyfan yn 2026/27 (yn bennaf yn cael ei yrru gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd wrth iddo sefydlu trefniadau i wireddu ei ddyletswyddau statudol) gan ostwng i £500,000 yn y ddwy flynedd ddilynol.

Chwyddiant arall (CPI). Mae'r cyngor yn defnyddio rhagolwg Banc Lloegr (BoE), ynghyd â chyngor Arlingclose ein Ymgynghorwyr Trysorlys, i amcangyfrif cyfradd y CPI. Mae'r siart isod yn ddyfyniad o'r rhagolwg chwyddiant CPI a gyhoeddwyd gan y BoE yn adroddiad Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Awst 2025.




3.4. At bwrpasu cynllunio'r costau am oes y Cynllun hwn, felly, rydym wedi gweithio yn unol â'r rhagdybiaethau diweddaraf sydd ar gael, a gosod lefel chwyddiant CPI ar 3% yn 2026/27 a 2027/28 er mwyn lliniaru effaith chwyddiant uwch na'r disgwyl yn 2025/26 ac yna 2% yn 2028/29.

**Pwysau / Galw am wasanaethau**

3.5. Yn 2023/24 a 2024/25, dim ond bidiau ariannol cwbl anorfod roedd Cyngor wedi gallu ei hariannu, a hynny er mwyn ariannu meysydd lle rydym yn argyhoeddedig nad oedd y gyllideb yn ddigonol. Yn 2024/25 rydym wedi ariannu £5.1miliwn o fidiau parhaol anorfod, yn dilyn ariannu £2.7miliwn o fidiau parhaol ar gyfer 2023/24. Yn 2025/26 fodd bynnag caniatawyd bidiau gwerth £7.7miliwn, yn benodol i fynd i'r afael â meysydd oedd yn gorwario yn flynyddol gan nad oedd modd iddynt gyfarch o galw o fewn y gyllideb oedd ar gael.

3.6. Mae adrannau'r Cyngor, ar y cyfan, wedi gwario yn uwch na'u cyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, sef £9miliwn yn 2023/24 a £6.7miliwn yn 2025/26. Mae cyfuniad o danwariant mewn penawdau corfforaethol (e.e. Treth Cyngor) a grantiau yn cyrraedd yn hwyr yn y flwyddyn wedi bod yn gymorth amlwg i liniaru'r gorwariant, ond bydd y gwaith manwl o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau yn parhau, gan roi sylw i resymau yn y meysydd lle mae amrywiannau sylweddol neu reolaidd.

**3.7.** Wrth osod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gwneir rhagdybiaeth bydd angen parhau i ariannu bidiau oherwydd y pwysau anorfod fydd ar wasanaethau. Mae'r cynllun yn clustnodi £8m y flwyddyn i ariannu bidiau anorfod yn 2026/27 a £5m yn 2027/28 a 2028/29. Seilir y symiau hyn ar wybodaeth sydd gennym o waith ymchwil megis Llechen Lân sy'n dangos yn glir y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal, sy'n gostus i'w darparu. Gwyddom hefyd am ofynion gwario anorfod yn y maes Addysg Anghenion Arbennig, Gofal Plant a chludiant ysgolion. Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi bydd gwybodaeth fwy cadarn am y gofynion hyn a bydd angen addasu ein Cynllun i gyd fynd a'r wybodaeth fydd gennym bryd hynny.

**Crynodeb o Gynnydd yn y Gwariant a Ragwelir**

**3.8. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu cyllideb o £356,815,330 ar gyfer 2025/26.**

**3.9. Ar sail y rhagdybiaethau sydd wedi cael eu nodi uchod, rhagwelir bydd gofynion gwariant yn cynyddu fel a ganlyn dros oes y CATC:**

| | **2026/27** | **2027/28** | **2028/29** |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Pwysau** | | | |
| Chwyddiant Tâl | 9.3 | 8 | 8.3 |
| Chwyddiant Prisiau | 4.7 | 3.9 | 4 |
| Ardollau | 1 | 0.5 | 0.5 |
| Lleihad Cyfradd Pensiwn Cyflogwr | -3 | 0 | 0 |
| Pwysau / Galw | 8 | 5 | 5 |
| **Cyfanswm Pwysau** | **20** | **17.4** | **17.8** |

## 4. ARBEDION

4.1. Mae cyfanswm o £43 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 90% o'r £46.6m gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol, o ystyried fod £46.6 miliwn yn cynrychioli oddeutu 13% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2025/26. Mae'n anorfod fod darganfod arbedion a thoriadau pellach am fod yn gynyddol anodd; gan fod llai o arbedion effeithlonrwydd ar gael, mae opsiynau sydd yn weddill yn rhai all arwain ar dorri gwasanaethau yn sylweddol fel canlyniad i ddiswyddiadau niferus.

Arbedion a gymeradwywyd Mawrth 2023

4.2. Ar 14 Chwefror 2023, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £8.4m o arbedion (gan gynnwys ysgolion) ar gyfer cyllideb 2023/24 ymlaen. Daeth yr arbedion i rym yn unol â'r proffil isod. Nid yw'r arbedion o £450,000 sydd yng ngholofn 2025/26 yn y tabl isod wedi cael eu tynnu o gyllidebau adrannol eto felly maent ar gael i lenwi bwlch ariannol yn 2025/26.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 YMLAEN**

| | 2023/24<br>£ | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion (heb ysgolion) | 3,097,370 | 2,848,630 | 450,000 | **6,396,000** |
| Ysgolion | 1,146,600 | 819,500 | - | **1,966,100** |
| **CYFANSWM** | **4,243,970** | **3,668,130** | **450,000** | **8,362,100** |

Arbedion a gymeradwywyd Mawrth 2024

4.3. Yn sgil y setliad ariannol gwael a hefyd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r lefelau chwyddiant uchel, roedd yn anorfod fod rhaid i awdurdodau lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Yn Chwefror 2024, cymeradwyodd y Cabinet restr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gweithredu yn 2024/25 – 2026/27 sydd werth £5.2m, a fyddai'n dod i rym yn unol â'r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN**

| | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | 2026/27<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,150** |

4.4. Cafodd cyfanswm arbedion parhaol 2024/25 a 2025/26 (£4.8m) ei gynnwys yng nghyllideb 2024/25, gyda'r arbedion oedd wedi eu hodi tan 2025/26 yn cael eu pontio o gronfeydd am un flwyddyn yn unig. Serch hynny, nid yw'r arbedion o £343,090 sydd wedi cael eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 wedi cael eu tynnu o gyllidebau adrannol eto felly maent ar gael i lenwi bwlch ariannol yn 2026/27.

Arbedion a gymeradwywyd Mawrth 2025

4.5. Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, cymeradwyodd y Cabinet arbedion pellach o £519,000 wedi eu proffilio fel a ganlyn. Roeddynt yn gyfuniad o gynyddu incwm (£90,000) a lleihau adnoddau / cyfuno gwasanaethau (£429,000).

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2025/26 YMLAEN**

| | **2025/26**<br>**£** | **2026/27**<br>**£** | **2027/28**<br>**£** | **Cyfanswm**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion | 100,000 | 320,500 | 98,500 | **519,000** |

Crynodeb o arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 hyd 2028/29 sydd eu tynnu o gyllidebau adrannol eto

4.6. I grynhoi'r uchod, mae arbedion pellach sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo ond nad ydynt wedi cael eu tynnu o gyllidebau (ac felly ar gael i gyfrannu at y bwlch ariannol yn y CATC) fel a ganlyn:

| | **2026/27**<br>**£m** | **2027/28**<br>**£m** | **2028/29**<br>**£m** |
|---|---|---|---|
| Arbedion wedi eu cymeradwyo | 0.3 | 0.1 | 0 |
| **Arbedion sydd ar gael i lenwi blwch** | **0.3** | **0.1** | **0** |

## 5. BWLCH ARIANNOL CYFNOD Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**5.1. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r elfennau incwm a gwariant a nodir uchod ac yn awgrymu bydd y Cyngor, yn wynebu bwlch ariannol o £14.9 miliwn yn 2026/27, a £12.3 miliwn pellach yn 2027/28 a £12.8 miliwn pellach yn 2028/29.**

| | **Amcan Gorffennaf 2025** | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | **2026/27** | **2027/28** | **2028/29** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Pwysau** | | | |
| Chwyddiant Tâl | 9.3 | 8 | 8.3 |
| Chwyddiant Prisiau | 4.7 | 3.9 | 4 |
| Ardollau | 1 | 0.5 | 0.5 |
| Lleihad Cyfradd Pensiwn Cyflogwr | -3 | 0 | 0 |
| | | | |
| Pwysau / Galw | 8 | 5 | 5 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau** | **20** | **17.4** | **17.8** |
| | | | |
| **Newidiadau Ariannu** | | | |
| Treth Cyngor – newid yn y sylfaen | 1.1 | 1.2 | 1.2 |
| Setliad Grant | 3.7 | 3.8 | 3.8 |
| | | | |
| **Cyfanswm y newidiadau Ariannu** | **4.8** | **5** | **5** |
| | | | |
| Arbedion i'w gwireddu | 0.3 | 0.1 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Ariannu ac Arbedion** | **5.1** | **5.1** | **5** |
| | | | |
| **Bwlch** | **14.9** | **12.3** | **12.8** |

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN

6.1. Mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn naill ai i ymgymryd â buddsoddiad/gwariant un tro wedi'i gynllunio neu i ddelio â sioc/risg ariannol sy'n wynebu'r awdurdod yn ei weithrediadau.

6.2. Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn eu lle ar gyfer sefyllfa o wir argyfwng a nid yw cynllunio i ddefnyddio’r arian yma yn arddangos cynllunio ariannol darbodus gan byddai hyn yn gwanio cynaliadwyedd ariannol yr awdurdod i lefel is na’r hyn sy’n dderbyniol. Ar 31/03/2025 mae gan y Cyngor **£7.912 miliwn o falansau cyffredinol**.

6.3. Ar wahân i’r balansau cyffredinol, mae dwy gronfa wedi bodoli dros y 3 blynedd ddiwethaf i ariannu gofynion gwariant un tro, i ymdrin â gorwariant neu i bontio cyn i arbedion ddod i rym, sef:

- Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol
- Cronfa Trawsffurfio

6.4. Mae sefyllfa alldro’r cronfeydd hyn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 fel a ganlyn:

| **Cronfa** | **Balans 31/03/2025 £’000** |
|---|---:|
| Cefnogi'r Strategaeth Ariannol | 18,924 |
| Trawsffurfio | 11,564 |
| **Cyfanswm** | **30,488** |

6.5. Yn y cynllun blaenorol roeddem yn adrodd byddai’r Gronfa Trawsffurfio wedi ei wacáu yn llwyr erbyn cau cyfrifon blwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, yn sgil sefyllfa ariannol well na’r disgwyl ar ddiwedd 2024/25 penderfynodd y Cabinet ar 15 Mai 2025:

- Cynaeafu £1.275 miliwn o amrywiol gronfeydd a’i drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio.
- Dad-ymrwymo £375k o gynlluniau hanesyddol neu rai heb ymrwymiadau yn y Gronfa Trawsffurfio.
- Symud £2.5 miliwn o gronfa Cynorthwyo’r Strategaeth Ariannol i’r Gronfa Trawsffurfio fel eu bod ar gael ar gyfer blaenoriaethau’r Cyngor a chyllido bidiau un tro i'r dyfodol.

6.6. Mae gan y Cyngor ystod o gronfeydd eraill, ond mae’r rheini wedi cael eu clustnodi ar gyfer pwrpasau penodol a ni fyddant ar gael i ariannu bylchau yn y gyllideb refeniw. Roedd gwerth y balansau ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025/26 fel a ganlyn

| **Cronfeydd** | **£'000** |
|---|---:|
| Cefnogi'r Strategaeth Ariannol | 18,924 |
| Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 11,564 |
| Cronfeydd Adnewyddu | 5,970 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 26,805 |
| Cynllun Gweithredu Tai | 17,417 |
| Cronfeydd Eraill | 30,121 |
| | **110,801** |
| | |
| **Balansau Cyffredinol** | **7,912** |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol**<br>**- Cyfrifeg a Phensiynau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Hydref 2025** |

**1. Penderfyniad a geisir**

Mi fyddwn yn argymell i'r Cabinet i wneud y canlynol:

**1.1** Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

**1.2** Cymeradwyo dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 yn y maes Cyswllt Cwsmer yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

**1.3** Cymeradwyo arian pontio o £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i gynllun arbedion Neuadd Dwyfor yn yr Adran Economi a Chymuned.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2025/26 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2025.

**3.2** Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Bu i werth £100k o arbedion ei gymeradwywyd yng Nghabinet 11 Chwefror 2025, tra fod y £3.4 miliwn yn gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ond sydd yn berthnasol i 2025/26.

**4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

**5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2025/26**

**5.1** Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn eu targedau arbedion o **£34.4m** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2025**. Gellir adrodd bod gwerth £33.8m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

**5.2** Mae tri cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gwerth £399k ac un cynllun gwerth £20k gan yr Adran Economi a Chymuned yn wynebu risgiau i'w cyflawni, gweler rhan 8 o'r adroddiad am fanylion pellach.

**5.4** Mae pump cynllun sydd yn weddill gwerth £209k wedi llithro ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem eu gwireddu.

**6. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2023/24 – 2025/26**

**6.1** Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion **sydd yn gyfanswm dros £15m,** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2025. **Gellir adrodd fod £12m, neu 77% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £659k pellach, neu 4% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

**6.2** Mae risgiau sylweddol i wireddu un cynllun gwerth £50k yn y maes Cartrefi Pobl Hŷn gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac mae'r adran yn edrych ar sut i'w wireddu.

**6.3** Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth £2.3m o gynlluniau arbedion sydd yn cynnwys tri cynllun gan yr Adran Addysg (£66k), pump cynllun gan yr Adran Amgylchedd (£1,018k), pump gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£835k), dau gan yr Adran Priffyrdd a Pheirianneg (£321k) ac un cynllun gan yr Adran Tai ac Eiddo (£95k).

**6.4** Mae llithriad ar rai cynlluniau gwerth £90k oedd wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn 2023/24 a pheth oediad i wireddu cynlluniau gwerth £469k perthnasol i 2024/25, ond nid yw'r adrannau'n rhagweld problemau i'w gwireddu, o'r swm yma mae bron i hanner sef gwerth £243k ohono yn berthnasol i'r Adran Amgylchedd. Mae oediad ar un cynllun perthnasol i 2025/26 gwerth £20k.

**7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2026/27 ymlaen**

**7.1** Rhestrir arbedion presennol 2026/27 ymlaen fesul Adran, sydd werth £681k yn **Atodiad 3**, mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

**7.2** Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig eisoes wedi ei gyflwyno i Gabinet 16 Medi 2025 sydd yn ystyried y bwlch cyllidol ar gyfer 2026/27 a'r bwriad o ran ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2026/27.

## 8. Adolygiad gwireddu arbedion

**8.1** O ganlyniad i'r risg o beidio gallu gwireddu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor gan yr Adran Economi a Chymuned, derbyniwyd cais i leihau y targed incwm o £100k i £20k ar sail dros dro ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Bydd £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei bontio o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor.

**8.2** Derbyniwyd cais gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol i ddileu un cynllun arbedion yn y maes Cyswllt Cwsmer ar gyfer adolygu oriau agor Siop Gwynedd yn y dair brif swyddfa, sydd werth £25k ac yn berthnasol i 2025/26. Awgrymir fod yr arbediad yn cael ei ddileu gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

## 9. Casgliad

**9.1** Gellir adrodd bod cyfanswm o bron i £46 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 92% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwyf yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

**9.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 92% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 1: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| **Statws yr Arbediad** | **Porth** | **£m** | **%** |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 45.8 | 91.5 |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.6 | 1.3 |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 0.8 | 1.6 |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu | 4 | 2.4 | 4.7 |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.4 | 0.9 |
| **Cyfanswm arbedion** | | **50.0** | **100** |

**9.3** Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 a phontio £80k o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor am gyfnod o ddwy flynedd.

## 10. Camau nesaf ac amserlen

**10.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2025.

## 11. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 11.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 11.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2025/26 fesul adran
Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2023/24 - 2025/26 fesul adran
Atodiad 3 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2026/27 ymlaen fesul adran

ATODIAD 1

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2025/26 FESUL ADRAN

### TABL 1
### CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2025/26 £ | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | Canran cynlluniau wedi eu gwireddu |
|---|---|---|---|
| Addysg | 1,659,740 | 1,659,740 | 100% |
| Ysgolion | 4,331,620 | 4,331,620 | 100% |
| Amgylchedd | 2,972,463 | 2,922,463 | 98% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2,569,218 | 2,569,218 | 100% |
| Cyllid | 1,881,636 | 1,881,636 | 100% |
| Economi a Chymuned | 2,916,422 | 2,851,422 | 98% |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,794,981 | 6,317,451 | 93% |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | 100% |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 6,531,580 | 6,496,580 | 99% |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 403,240 | 100% |
| Tai ac Eiddo | 843,230 | 843,230 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **33,223,038** | **32,595,508** | 98% |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | 100% |
| **CYFANSWM** | **34,423,398** | **33,795,868** | 98% |

**TABL 2**

**CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU**

| Adran | 2019/20<br>£ | 2020/21<br>£ | 2021/22<br>£ | 2022/23<br>£ | 2023/24<br>£ | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgylchedd | | | 37,500 | 12,500 | | | | 50,000 |
| Economi a Chymuned | | 45,000 | | | | | 20,000 | 65,000 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 215,600 | 49,360 | | | 12,570 | | 200,000 | 477,530 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | | 8,750 | 26,250 | | | | | 35,000 |
| **CYFANSWM** | **215,600** | **103,110** | **63,750** | **12,500** | **12,570** | **0** | **220,000** | **627,530** |

| **Adran *(nifer cynlluniau)*** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:** |
|---|---|
| Amgylchedd<br>*(1 cynllun)* | Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio* (£50k). |
| Economi a Chymuned<br>*(2 gynllun)* | Bu oediad ar y cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15* (£45k), bwriedir i drefniadau parhaol i godi ffi parcio ddod yn weithredol yn ystod 2026/27. Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau y targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Mae'r monitro diweddaraf yn awgrymu bod pethau yn edrych yn fwy addawol gyda chynnydd yn yr incwm cysylltedig. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>*(5 cynllun)* | Mae risgiau sylweddol o gyflawni arbedion gwerth £200k ar y cynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)* a £186k ar y cynllun *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn.* Yn ogystal mae rhai risgiau cyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£13k). Bu llithriad ar 2 gynllun sef *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k) a *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k ond nid yw'r Adran yn rhagweld problemau eu gwireddu. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd<br>*(1 cynllun)* | Mae'r cynllun Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont (£35k) wedi llithro ond mae'r adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail. |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,456,510 | *34* | 1,390,770 | *31* | - | | 65,740 | *3* | Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 3 cynllun (2 wedi eu proffilio yn 2024/25) sef *Trosglwyddo Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes Ni* (£25k), *Torri 25% o gyllideb hybiau Ymddygiad Cyfnod Allweddol 4* (£18k) a *Dileu swydd cymhorthydd lefel 3 y Tîm Cynhwysiad* (£23k). |
| Ysgolion | 1,966,100 | *1* | 1,966,100 | *1* | - | | - | | Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu. |
| Amgylchedd | 2,147,380 | *36* | 617,880 | *23* | 250,000 | *3* | 1,279,500 | *10* | Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 5 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £1,018k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol* (£150k), *arbedion yn y gwasanaethau Gwastraff* (£200k) a *gwasanaeth Gwastraff Masnachol* (£430k), *Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor* (£78k) a *Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2* (£160k). Mae llithriad/oediad ar 5 cynllun gwerth £262k ond maent yn symud yn eu blaen a 3 cynllun ar drac i wireddu'n amserol. |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 711,410 | *25* | 558,410 | *21* | 153,000 | *4* | - | | Mae 4 cynllun ar drac i wireddu'n amserol. |
| Cyllid | 977,640 | *22* | 757,030 | *17* | 90,000 | *2* | 130,610 | *3* | Bu llithriad ar 3 cynllun ond nid yw'r adran yn rhagweld risgiau o'u gwireddu a 2 ar drac i wireddu'n amserol. |
| Economi a Chymuned | 648,780 | *41* | 623,780 | *40* | 25,000 | *1* | - | | Mae 1 cynllun gan Byw'n Iach ar drac i gyflawni'n amserol. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,498,770 | *27* | 1,482,850 | *18* | 50,680 | *2* * | 965,240 | *7* * | Mae'r Adran yn rhagweld risgiau i wireddu 6 cynllun gwerth cyfanswm o £884k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Cartrefi Preswyl a Nyrsio: Helpu 20 o unigolion i barhau i fyw yn y gymuned (yn hytrach na chartref gofal preswyl) dros amser* (£100k), 4 cynllun yn y maes *Anableddau Dysgu* (cyfanswm o £734k) a *Chartrefi Pobl Hŷn: Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal* (£50k). Bu llithriad o 2024/25 ar 1 cynllun ac yn rhannol ar 2, gwerth cyfanswm o £81k. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 308,140 | *8* | 238,140 | *6* | 70,000 | *2* | - | | Mae 2 gynllun ar drac i wireddu'n amserol. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 1,558,940 | *22* | 1,131,940 | *18* | - | | 427,000 | *4* | Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 2 gynllun sef *Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Priffyrdd* (£250k) a *Lleihau adnodd drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gyda'r gwasanaeth Edrychiad Stryd* (£71k) . Bu llithriad o 2024/25 yn ymwneud â 2 gynllun sef *Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd* (£60k) a *Newid trefn torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu* (£46k). |

**ATODIAD 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26** £ | ***nifer*** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu** £ | ***nifer*** | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol** £ | ***nifer*** | **Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion** £ | ***nifer*** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 161,190 | *8* | 161,190 | *8* | - | | - | | Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 780,350 | *14* | 664,850 | *12* | 20,000 | *1* | 95,500 | *1* | Mae peth risg i gyflawni arbedion o £95.5k ar y cynllun *Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio,* ac 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol. |
| Arbedion Rheolaethol | 2,400,000 | *1* | 2,400,000 | *1* | - | | - | | Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu. |
| **CYFANSWM** | **15,615,210** | ***239*** | **11,992,940** | ***196*** | **658,680** | ***15*** | **2,963,590** | ***28*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 77% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 eisoes wedi eu gwireddu a 4% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.** |

** cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio*

**ATODIAD 3**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2026/27 YMLAEN FESUL ADRAN

| **Adran** | **2026/27**<br>**£** | **2027/28**<br>**£** | **Cyfanswm Arbedion 2026/27 a 2027/28**<br>**£ -** | ***nifer*** |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 98,500 | 98,500 | 197,000 | *1* |
| Amgylchedd | 200,000 | - | 200,000 | *1* |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 50,000 | - | 50,000 | *1* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 143,090 | - | 143,090 | *2* |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 91,000 | - | 91,000 | *1* |
| **CYFANSWM** | **582,590** | **98,500** | **681,090** | ***6*** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **9ed o Hydref 2025** |
| **TEITL** | **Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.** |
| **AWDUR** | **Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1 Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr o arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2022 a 2025 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.

3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.

3.3 Hefyd, fe nodir 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis ym mis Chwefror 2025.

3.4 Rydym wedyn yn nodi ein ‘Casgliad’ o’r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni’r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu’r argymhelliad ‘wedi’i gwblhau’, yntau a yw yn parhau ‘ar waith’. Yn dilyn adborth gan y Pwyllgor, mae’r categori ‘wedi ei gwblhau’ wedi ei rhannu yn ddau er mwyn adlewyrchu os yw’r argymhellion wedi eu gwireddu neu os ydynt yn waith parhaus ar gyfer yr adran. Mae’r casgliadau yma wedi eu cytuno gan Grŵp Llywodraethu’r Cyngor. Mater i’r Pwyllgor hwn yw barnu a yw’n cytuno â’r ‘Casgliadau’. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

3.5 Mae’r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a’u argymhellion ‘heb ei gychwyn’, ‘wrthi’n cael ei gynllunio’ neu ‘ar waith’ pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Chwefror 2025, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae’r gwaith o ymateb i’r rhan fwyaf o’r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda’r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd “wedi’i gwblhau” yn derbyn sylw’r Pwyllgor hwn eto.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol.

## HYDREF 2025

**Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol**

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
2. **Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus** - cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus.
3. **Wedi ei gwblhau - argymhellion wedi eu gwireddu.**

**RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd**

**1. Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Cyngor Gwynedd**

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Tachwedd 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad sydd yn parhau i fod angen sylw:

i) Diweddariad ar recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol.
ii) Trefniadau darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor.
iii) Ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

1. Yn dilyn ymgyrch recriwtio pellach, mae pob sedd aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach wedi ei llenwi.
2. Mae meysydd hyfforddiant wedi cael eu hadnabod yn y gweithdy ar 3 Ebrill 2024.
3. Mae trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyd bellach mewn llaw. Mae'r chwe Cyngor yng ngogledd Cymru bellach wedi cymeradwyo trefniadau craffu y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac mae trefniadau ar waith i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Craffu ar y Cyd.

Casgliad:
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**2. Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Gwynedd**

Archwilio Cymru

Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

A1

**Cyflawni amcanion llesiant**

Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwaith o bennu'r gyllideb neu lunio cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant newydd y Cyngor, fel bod eglurder ynghylch sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

A2

**Mesurau a threfniadau monitro priodol**

Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu mesurau canlyniadau priodol ac yn monitro, adrodd a chraffu'n effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

A3

**Gwella llesiant a chael effaith eang**

Dylai'r Cyngor fapio sut y gallai gwaith y Cyngor gefnogi amcanion partneriaid, ac i'r gwrthwyneb, wrth bennu amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol fel y gall adnabod cyfleoedd i gydweithio ag eraill.

A4

**Cynnwys ac ymgynghori**

Dylai'r Cyngor ymestyn ei rwydweithiau rhanddeiliaid wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol a cheisio cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y sir.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

Argymhellion wedi'i derbyn a chynlluniau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb. Cyflwynwyd y ffurflen ymateb sefydliadol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar y 23ain o Fai 2023.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

**A1**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 14 o Fai 2024. Cynllun Tymor Canolig newydd ar gyfer cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026 wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 16 Medi 2025.

**A2**
Y gwaith o adolygu mesurau yn digwydd yn barhaol tra mae cerrig milltir ac allbynnau wedi eu hadnabod ar gyfer prosiectau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor, ac mae'r cynnydd yn eu herbyn yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad bob deufis. Ers mis Mehefin 2025 mae adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol. Bydd hyn yn golygu bod trefniadau craffu ar berfformiad gwaith dydd i ddydd ynghyd a chynnydd ein prosiectau blaenoriaeth yn eu lle er mwyn monitro cynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

**A3**
Mae mapio heriau a bygythiadau bellach yn eitem sefydlog ar raglen waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Esiamplau lle mae hyn wedi arwain at adnabod cyfleoedd i gydweithio a gweithredu ar hynny yw meysydd bod yn fwy gwybodus am drawma, denu pobl ifanc i swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol, a gweithredu ar y Siarter Teithio Llesol drwy rannu adnoddau ac arferion da.

**A4**
Canfuwyd ei bod yn medru bod yn anodd iawn i gynyddu cynrychiolwyr o wahanol grwpiau nodweddion ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb ac er bod ymdrechion yn parhau i geisio gwneud hyn rydym hefyd rydym yn buddsoddi amser ac adnoddau i sicrhau mewnbwn trwy dargedu grwpiau nodweddion penodol pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau.

Fel y nodwyd pan yr adroddwyd ddiwethaf bu'r Cyngor yn rhan o Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol ar ddechrau 2025 a derbyniwyd dros 3,000 o ymatebion (sydd llawer yn uwch na'r ymateb arferol i ymgynghoriadau). Mae bwriad i barhau i gynnal arolwg o'r fath gyda preswylwyr i'r dyfodol yn flynyddol neu bob yn ail flwyddyn.

<u>Casgliad</u>
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

**RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol**

**1. <u>Amser am newid – Tlodi yng Nghymru</u>**
Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Tachwedd 2022
<u>Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru</u>

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad sydd angen diweddariad</u> –

Argymhelliad 2
**Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu**
Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:
• gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;
• cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;
• cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;
• cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a
• bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth.

Argymhelliad 5
**Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi**
Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

**Argymhelliad 2**
Bu i Cyngor Gwynedd gynnal gweithdai gyda Sefydliad Bevan i ddau haen o staff ar draws sefydliadau'r BGC yn 2024 – staff rheng flaen a staff lefel gweithredol. Byddwn hefyd yn cynnal gweithdy ar lefel strategol i Brif Weithredwyr y sefydliadau cyhoeddus fydd yn defnyddio data ac astudiaethau achos lleol. Erbyn hyn rydym yn cydweithio yn rhanbarthol ac yn debygol o ddefnyddio'r gwersi dysgu o'r sesiynau ar dlodi a gynhaliwyd ar gyfer aelodau BGC Conwy a Dinbych.

**Argymhelliad 5**
Mae Cydlynydd Cynhwysiad a Threchu Tlodi wedi ei phenodi ac mae Gweithgor Cefnogi Pobl trawsadrannol wedi ei sefydlu. Mae'r gweithgor yn llywio rhaglen waith cefnogi pobl y Cyngor gan gynnwys yr agenda trechu tlodi a gwella mynediad i gyngor a gwasanaethau. Mae gweithredu y rhaglen waith cefnogi pobl yn rhan o waith parhaus y Cyngor sy'n digwydd yn drawsadrannol. Mae'r Cyngor hefyd yn ariannu a chydweithio yn agos gyda rhwydwaith o bartneriaid sy'n gweithredu fel hybiau cymunedol sy'n helpu pobl i gael mynediad haws i gefnogaeth, gweithgareddau a gwasanaethau yn eu cymuned. Mae'r wefan Help gyda Costau Byw yn rhoi gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael mewn un lle. Mae prosiect Gafael Llaw yn cael ei beilota ar hyn o bryd gyda bwrdd cyfeirio Galw Gwynedd yn mynd y filltir ychwanegol er mwyn canfod os oes cymorth pellach y gellir ei roi i grŵp bach o bobl sy'n cysylltu. Bydd dysgu o'r prosiect yma yn galluogi i ni adnabod maint y galw am y gwasanaeth yma.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**2. Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru**
Adroddiad gan Archwilio Cymru
Dolen i'r adroddiad

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

Ceir 16 o argymhellion yn yr adroddiad – ceir y manylion llawn yma: Dolen i'r adroddiad

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

Adroddiad rhanbarthol ydi hwn i Ogledd Cymru, a paratowyd ymateb ar lefel rhanbarthol i ddelio gyda'r argymhellion. Cafwyd trafodaeth ar hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref, 2024. Cytunwyd bryd hynny y byddai diweddariad ar yr argymhellion yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.

Mae camau gweithredu ar waith, a darparwyd adroddiad ar y cynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fis Mawrth, 2025 oedd yn cynnwys cyfeiriad at Bolisi Rhyddhau o Ysbyty newydd. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng ngwanwyn 2026.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus. Mae hwn yn cael ei arwain gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fydd hefyd yn monitro cynnydd.

**Adroddiadau newydd ers Ionawr 2025**

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor fis Ionawr 2025, pan gyhoeddir adroddiad allanol bydd "ymateb sefydliadol" yn dod i'r Pwyllgor hwn, ac yna bydd yr adran berthnasol yn cael hyd at 12 mis i gyflawni unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol, cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn eu bod wedi eu cyflawni.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ymateb yn brydlon i argymhellion allanol, ac yn osgoi sefyllfa, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, ble mae diweddariadau cyson yn cael eu darparu i'r Pwyllgor ynglŷn a'n ymateb dros nifer fawr o flynyddoedd.

Yn ogystal, bydd cam ychwanegol yn cael ei gyflwyno ble bydd y broses Herio a Chefnogi Perfformiad yn gwirio fod adrannau yn gweithredu ar yr hyn amlinellwyd yn yr "ymateb sefydliadol", ac yn sicrhau fod unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cwblhau o fewn y 12 mis.

Dyma'r adroddiadau sydd wedi ei cyhoeddi ers Ionawr 2025, a'r dyddiad y disgwylir i'r Adrannau adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn:

| Teitl yr adroddiad | Awdur | Dyddiad cyflwyno'r ymateb sefydliadol | Yr Adran yn adrodd ar gyflawniad erbyn |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd | Archwilio Cymru | 16 Ionawr 2025 | Ionawr 2026 |
| Adolygiad Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd | Archwilio Cymru | 22 Mai, 2025 | Mai, 2026 |
| Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Gwynedd | Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mai, 2025 | Mai, 2026 |
| Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn | Archwilio Cymru | 11 Medi, 2025 | Medi, 2026 |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 HYDREF 2025** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS** |
| PWRPAS: | **Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y dangosyddion darbodus yn cael eu hadrodd bob chwarter** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo adroddiadau rheolaeth trysorlys yn chwarterol a blynyddol.

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn darparu’r diweddariad ychwanegol hyd at 30 Mehefin 2025 ac yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 o adrodd chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 2. Cefndir Economaidd

Dechreuodd y chwarter gyda anwadalrwydd sylweddol yn y farchnad ariannol wrth i Arlywydd yr Unol Daleithiau Donald Trump gyhoeddi ystod eang o dariffau masnach 'cilyddol' ddechrau mis Ebrill, gan achosi i farchnadoedd ecwiti ostwng yn sydyn a ddilynwyd wedyn gan farchnadoedd bondiau wrth i fuddsoddwyr fod yn fwyfwy pryderus am bolisi cyllidol yr Unol Daleithiau. Gan fod y DU wedi'i chynnwys yn y tariffau cynyddol hyn, effeithiwyd ar farchnadoedd ecwiti a bondiau yma yn yr un modd gan yr ansicrwydd a phryderon buddsoddwyr.

Ar ôl hynny, gweithredodd yr Arlywydd Trump seibiant 90 diwrnod ar y rhan fwyaf o'r tariffau a gyhoeddwyd yn flaenorol, sydd wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol ar gyfer marchnadoedd ecwiti a bondiau ers hynny, ond roedd ansicrwydd ac anwadalrwydd uchel yn parhau i fod yn nodwedd dros y cyfnod.

Cynyddodd chwyddiant prisiau defnyddwyr y DU (CPI) dros y chwarter, gan godi o gyfradd flynyddol o 2.6% ym mis Mawrth i 3.4% ym mis Mai, ymhell uwchlaw

targed 2% Banc Lloegr. Cynyddodd mesur craidd chwyddiant hefyd, o 3.4% i 3.5% dros yr un cyfnod. Roedd ffigurau chwyddiant Mai yn gyffredinol yn is nag yn y mis blaenorol, fodd bynnag, pan oedd CPI yn 3.5% a CPI craidd 3.8%. Roedd chwyddiant gwasanaethau yn 4.7% ym mis Mai, gostyngiad o 5.4% yn y mis blaenorol.

Dangosodd data a ryddhawyd yn ystod y cyfnod fod economi'r DU wedi ehangu 0.7% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr, yn dilyn tri chwarter blaenorol o dwf gwannach. Fodd bynnag, dangosodd data bod y Cynnyrch Mewnol Crynswth (CMC) misol wedi crebachu o 0.3% ym mis Ebrill, sy'n awgrymu bod twf yn ail chwarter y flwyddyn galendr yn annhebygol o fod mor gryf â'r cyntaf.

Ymddengys bod data'r farchnad lafur yn dangos meddalu mewn amodau cyflogaeth wrth i dwf enillion gwannach gael ei adrodd ar gyfer y cyfnod Chwefror i Ebrill 2025, yn yr hyn a fyddai'n newyddion i'w groesawu i wneuthurwyr polisi Banc Lloegr. Enillion rheolaidd (ac eithrio bonws) oedd 5.2% tra bod cyfanswm enillion yn 5.3%.

Ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol ar 4.5%, torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) Gyfradd y Banc i 4.25% ym mis Mai. Rhannwyd y bleidlais 5-4 gyda'r mwyafrif eisiau toriad o 0.25%, dau aelod yn pleidleisio i gynnal cyfraddau ar 4.5% a dau yn pleidleisio dros ostyngiad o 0.50%. Yng nghyfarfod MPC mis Mehefin, pleidleisiodd y pwyllgor gan fwyafrif o 6-3 i gadw cyfraddau yr un fath. Roedd y tri arall eisiau gostyngiad ar unwaith i 4%. Disgwylir i'r gogwydd hwn gan y Pwyllgor barhau a disgwyliadau'r farchnad ariannol yw y bydd y toriad nesaf ym mis Awst, yn unol â chyhoeddi'r Adroddiad Polisi Ariannol (MPR) chwarterol nesaf.

Amlygodd fersiwn mis Mai o safbwynt Banc Lloegr bod lleihad mewn chwyddiant domestig a pwysau cyflogau’n parhau yn gyffredinol a bod ychydig o gyflenwad gormodol wedi agor yn economi’r DU, a fyddai'n helpu chwyddiant i ostwng i 2% y Banc dros y tymor canolig. Er y rhagwelwyd y byddai twf CMC yn y tymor byr yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol yn ail chwarter calendr 2025, Cafodd twf yn yr un cyfnod y flwyddyn ganlynol ei dorri'n ôl, yn rhannol oherwydd datblygiadau masnach fyd-eang parhaus.

Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose, wedi cadw ei farn ganolog y byddai Cyfradd Banc yn parhau i ostwng, ac y byddai Banc Lloegr yn canolbwyntio mwy ar dwf CMC gwan yn hytrach na chwyddiant yn uwch na'r targed. Disgwylir dau doriad arall i'r Gyfradd Banc yn ystod 2025, gan gymryd y brif gyfradd bolisi i 3.75%, fodd bynnag, ystyrir bod cydbwysedd y risgiau i lawr gan fod teimlad gwan defnyddwyr a hyder busnes a buddsoddiad yn effeithio ar dwf economaidd.

Er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch polisi masnach yr Unol Daleithiau a galwadau dro ar ôl tro am weithredu gan Arlywydd yr Unol Daleithiau, roedd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau wedi cadw cyfraddau llog yn sefydlog yn y cyfnod, gan gynnal Cyfradd Cronfeydd Fed ar 4.25% -4.50%. Y penderfyniad ym mis Mehefin oedd y pedwerydd mis yn olynol lle na wnaed unrhyw newidiadau i'r brif gyfradd llog a daeth er gwaethaf rhagolygon gan wneuthurwyr polisi Fed a o'i gymharu ag ychydig fisoedd yn ôl eu bod bellach yn disgwyl twf is, diweithdra uwch a chwyddiant uwch.

Torrodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau ym mis Mehefin, gan leihau ei brif gyfradd ailariannu o 2.25% i 2.0%, ac yn cynrychioli'r wythfed toriad mewn ychydig dros flwyddyn. Nododd Banc Canolog Ewrop ansicrwydd uwch yn y tymor byr o fasnach ac y gallai twf economaidd cryfach yn chwarter cyntaf y calendr wanhau. Cododd chwyddiant yn y rhanbarth i 2.0% ym mis Mehefin, i fyny o isaf wyth mis o 1.9% yn y mis blaenorol ond yn unol â tharged Banc Canolog Ewrop. Disgwylir i chwyddiant aros yn fras o gwmpas y targed o 2% dros y flwyddyn nesaf.

Cynhaliodd Arlingclose ei derfyn hyd heb ei warantu uchaf a argymhellir ar y mwyafrif o'r banciau ar ei restr wrthbarti ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

## 3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 30ain Mehefin 2025 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £18.8m yn deillio o'i weithgareddau refeniw a chyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

| | **31.3.25 Balans £m** | **Symudiad £m** | **30.6.25 Balans £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 90.1 | 0.0 | 90.1 |
| Benthyca tymor hir | 4.0 | 0.0 | 4.0 |
| PFI | 5.5 | 0.0 | 5.5 |
| **Cyfanswm benthyca** | **99.6** | **0.0** | **99.6** |
| Buddsoddiadau tymor byr | (86.9) | 24.8 | (62.1) |
| Arian a chyfwerthoedd arian | (66.0) | 47.3 | (18.7) |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **(152.9)** | **72.1** | **(80.8)** |
| **Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)** | **(53.3)** | **72.1** | **18.8** |

**Strategaeth a Gweithgaredd Benthyca**: Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2024/25 na chwarter cyntaf 2025/26 gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu. Galluogodd y strategaeth hon i’r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

**Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys:** Mae gan y Cyngor gronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw o wariant ynghyd â balansau y Gronfa Bensiwn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Cyngor yn amrywio rhwng £61.3m a £111.3m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant.

**Sefyllfa Buddsoddiadau Trysorlys**

| | 31.3.25 Balans £m | Symudiad £m | 30.6.25 Balans £m |
|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu diogelu) | 6.0 | (0.3) | 5.7 |
| Awdurdodau Lleol | 25.0 | 20.0 | 45.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 65.0 | (47.0) | 18.0 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 45.0 | (45.0) | 0.0 |
| Cronfeydd wedi'i pwlio | 11.9 | 0.2 | 12.1 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **152.9** | **(72.1)** | **80.8** |

## 4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.


1) **Meincnod ymrwymiad:** Mae'r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiad sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiad yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar yr isafswm lefel o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | 31.3.25 Gwir £m | 31.3.26 Amcan £m | 31.3.27 Amcan £m | 31.3.28 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 174.4 | 171.8 | 176.9 | 172.4 |
| Llai: Adnoddau mantolen | (232.8) | (149.8) | (126.9) | (126.9) |
| **Gofyniad benthyciadau net** | **(58.4)** | **22.0** | **50.0** | **45.5** |
| Ychwanegu: Gofynion hylifedd | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **Meincnod ymrwymiad** | **(36.9)** | **43.5** | **71.5** | **67.0** |
| **Benthyciadau presennol** | **99.6** | **73.9** | **69.4** | **68.2** |

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod ymrwymiadau hyd at 2026. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca a isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull

llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.




Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol.

2) **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| | 30.6.25 Gwir | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 4.26% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.86% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.03% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 25.13% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd a mwy | 62.72% | 100% | 0% | ✓ |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

3) **Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys tymor hir:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Mae'r terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yn:

| | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | Dim dyddiad penodol |
|---|---|---|---|---|
| Gwir brifswm wedi'i fuddsoddi y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £13m | £0 | £0 | £0 |
| Terfyn ar y prif fuddsoddiad y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Dangosyddion ychwanegol**
Mae’r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli’r trysorlys gan ddefnyddio’r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwyso gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | 30.6.25 Gwir | Targed 2025/26 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.84 | Sgôr o 6 neu is | ✓ |

**Hylifedd:** Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o’i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | 30.6.25 Gwir | Targed 2025/26 | Cydymffurfio | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £38.7m | £10m | ✓ | |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| | 30.6.25 Gwir | Terfyn 2025/26 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog | £525,923 | £1,324,700 | ✓ |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £525,923 | £1,324,700 | ✓ |

**4) Argymhelliad**

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 HYDREF 2025** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 28 MEDI 2025** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*

1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*

1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 12 Mai 2025 hyd 28 Medi 2025.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun yn y cyfnod o 12 Mai 2025 hyd 28 Medi 2025:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2024-25 | 3 |
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2025-26 | 6 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 12 Mai 2025 hyd 28 Medi 2025, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Ysgolion (2024-25) | Addysg | Ysgolion | Digonol | Atodiad 1 |
| Clybiau Brecwast (2024-25) | Addysg | Ysgolion | Cyfyngedig | Atodiad 2 |
| Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu (2024-25) | Corfforaethol | - | Cyfyngedig | Atodiad 3 |
| Darpariaeth Addysg Ôl-16 2024-25 | Addysg | Ysgolion | Uchel | Atodiad 4 |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 5 |
| Cronfa'r Degwm | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | Uchel | Atodiad 6 |
| Plas Hedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Cyfyngedig | Atodiad 7 |
| Plas y Don | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Cyfyngedig | Atodiad 8 |
| Trefniadau Clefyd Coed Ynn | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | - | Cyfyngedig | Atodiad 9 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 29 Medi 2025:

- Casglu Gwastraff Masnachol *(Amgylchedd)*
- Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion *(Amgylchedd)*
- Dilyniant Trefniadau Casglu Biniau *(Amgylchedd)*
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu *(Corfforaethol)*
- Incwm – Trefniadau Adennill *(Cyllid)*
- Amgueddfa Lloyd George *(Economi a Chymuned)*
- Cartref y Frondeg *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilyniant Llys Cadfan *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilyniant Plas Hafan *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Taliadau Uniongyrchol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Coed yn Syrthio *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Cynllun Parhad Gwasanaeth/Cynllun Argyfwng *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Grant Atal Digartrefedd *(Tai ac Eiddo)*
- Grant Cymorth Tai *(Tai ac Eiddo)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 12 Mai 2025 hyd 28 Medi 2025, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**CRONFEYDD YSGOLION**

## 1. Cefndir

1.1 Mae paragraff 16.22.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

*'Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cyd-fynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:*

*(a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.*

*(b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.*

*(c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.*

*(ch) Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwilwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.'*

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a gweinyddu addas mewn lle ar gyfer cronfeydd ysgolion. Er mwyn cyflawni hyn, detholwyd sampl o ysgolion a cynhaliwyd archwiliad llawn ar y cyfrifon.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Yn dilyn dosbarthu holiadur yn 2021/22 er mwyn cael darlun o sefyllfa cyfrifon ysgolion Gwynedd, yr adroddiad yma yw'r trydydd archwiliad llawn yn olynol ar gronfeydd sampl o'r ysgolion. Ni fydd yr ysgolion yn derbyn adroddiad unigol yn dilyn yr archwiliad yma ond maent wedi eu hysbysu o'r gwendidau perthnasol i'w cronfeydd.

5.2 Gwelwyd bod 3 allan o'r 4 ysgol yn defnyddio'r 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010', gyda'r bedwaredd ysgol am ei gynnwys ar agenda cyfarfod y Corff Llywodraethu nesaf. Er bod y canllawiau yma wedi eu diweddaru yn 2022 nid ydynt yn cwmpasu prosesau sydd fwy cyffredin heddiw, e.e. taliadau ar-lein a defnydd o gardiau banc, yn ogystal â'r drefn ynglŷn â chau cronfeydd. Mae sawl elfen angen ei adolygu, ac mae hyn eisoes wedi ei adrodd i'r Adran Addysg yn y gorffennol ond ni ymddengys fod unrhyw weithrediad wedi digwydd hyd yma.

5.3 Roedd un ysgol yn y sampl yn defnyddio bancio ar-lein ac ymddengys fod ganddynt drefniadau priodol mewn lle i liniaru'r risg o dwyll. Mynegodd y Penaethiaid eraill eu bod yn ystyried cychwyn defnyddio bancio ar-lein.

5.4 Ar y cyfan roedd ymwybyddiaeth dda ymysg y sampl o'r angen i archwilio cyfrifon. Dylai'r person yma fod yn brofiadol gyda chymwysterau addas ac yn annibynnol, a ni ddylai'r archwiliwr gymryd unrhyw ran yng ngweithgareddau dydd i ddydd y gronfa. Serch hyn, gwelwyd anghysondebau yn y llyfrau arian.

5.5 Mae amod 19.1 o Reolau Ariannol i Ysgolion â Chyllidebau Dirprwyedig yn datgan;

"*Ble mae swyddog y Cyngor, yn rhinwedd yn ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn berchen cronfa answyddogol gysylltiedig â'r ysgol ac at bwrpas sydd yn gyfatebol i'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor;"*

*(ch) "Bydd yn rhaid gyrru adroddiadau o'r fath wedi eu hardystio gan yr archwilydd ynghyd â chopi o'r cofnod pwyllgor perthnasol yn cydnabod derbyn y cyfrifon wedi eu harchwilio i'r Adain Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn flynyddol*".

Yn gyffredinol, nid yw hyn yn digwydd. Yn ystod yr archwiliad nododd rhai ysgolion nad ydynt wedi derbyn cais i anfon y dogfennau, ac felly heb wneud, ac nid oedd eraill yn ymwybodol o'r angen i wneud. Er tegwch, mae'r ddogfen Rheolau Ariannol i Ysgolion â Chyllidebau Dirprwyedig yn un hanesyddol, ac nid yw'r 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol' yn cyfeirio at yr angen i'w hanfon. Bydd anfon y cyfrifon archwiliedig i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn brawf bod y cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad annibynnol, yn ogystal a chraffu gan y Corff Llywodraethu, gyda'r gobaith o gryfhau ansawdd.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru'r canllawiau i lywodraethwyr a phenaethiaid ar reolaeth cronfeydd ysgol.**

# CLYBIAU BRECWAST

## 1. Cefndir

1.1 Yn 2004 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Menter Brecwast am Ddim yn ysgolion cynradd, gyda'r nod o wella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio, a thrwy hynny godi safonau dysgu. Ar 25ain o Fedi 2024, roedd 79 o ysgolion cynradd Gwynedd yn cynnal clwb brecwast drwy'r fenter. Mae'r clybiau wedi eu rhannu yn 2 sesiwn, sef sesiwn gofal, sy'n daladwy, a sesiwn brecwast, sydd am ddim.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cynnal clybiau brecwast, yn ogystal â gweinyddu incwm o'r elfen gofal yn ystod y sesiynau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o glybiau brecwast i gadarnhau trefniadau staffio, a bod rheolaeth ar ofynion dietegol ac/neu alergeddau disgyblion, yn ogystal â gwirio fod trefniadau priodol ar gyfer rheoli a monitro'r gyllideb.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r 79 ysgol gynradd roedd yn cynnal clwb brecwast ar Fedi 2024, dim ond 33 ohonynt roedd â phlentyn yn mynychu gydag alergedd. Er mwyn gwirio trefniadau ymdrin ag alergeddau, detholwyd sampl o 4 ysgol. Fodd bynnag, methwyd ymweld ag un ysgol oherwydd nid oedd yr ysgol ar gael dros gyfnod yr archwiliad.

5.2 Cyn yr ymweliadau derbyniwyd copi o’r Ffolder Alergeddau gan Reolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau, sef llawlyfr sydd wedi ei rannu gyda phob cegin yn cynnwys gwybodaeth a threfniadau mewn perthynas â rhedeg clwb brecwast, bwydlenni, asesiadau risg, a chopi o’r Polisi Alergeddau. Gwelwyd nad oedd y Ffolder yn gyfredol, gyda bwydlenni 2023/24 wedi eu cynnwys, ac asesiadau risg heb eu hadolygu ers 2023. Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad nad oedd Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn ei rôl bellach, a bod y Swyddog Moderneiddio Addysg yn y cyfamser wedi bod yn cydweithio gyda’r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i adolygu’r asesiadau’r risg. Nodwyd y byddai’r asesiadau, yn ogystal â bwydlenni cyfredol yn cael eu rhannu gyda’r ysgolion yn ystod yr haf.

5.3 O’r sampl o glybiau brecwast a wiriwyd, mynegodd un Pennaeth nad oedd wedi derbyn unrhyw arweiniad/manylion o’i ddyletswyddau mewn perthynas â chlybiau brecwast ers y 5 mlynedd yn ei rôl. Eglurodd Pennaeth Cynorthwyo - Gwasanaethau Addysg ei fod yn debygol iawn nad oedd unrhyw wybodaeth wedi ei rannu ers cyfnod COVID, ac y byddai’n trefnu fod unrhyw benaethiaid newydd yn derbyn arweiniad yn y dyfodol.

5.4 Mae’r Polisi Alergeddau yn nodi camau gweithredu clir ar gyfer sut mae casglu gwybodaeth, cofnodi, ac adrodd am unrhyw blentyn sydd ag alergedd. Gwelwyd yn ystod yr ymweliadau nad ydi’r ysgolion yn dilyn y canllawiau ar bob achlysur, gyda nifer o’r camau, megis cynnal cyfarfodydd penodol gyda’r Pennaeth, rhieni, a'r cogydd, yn ogystal â llunio asesiadau risg personol ar gyfer pob plentyn, yn cael eu methu yn gyfan gwbl.

5.5 Yn yr un modd, gwelwyd nad oedd cofnodion o blant gydag alergeddau yn cael eu rhannu yn brydlon gyda’r Tîm Arlwyo, nac ychwaith yn cytuno o un cofnod i’r llall. Mae enw pob plentyn gydag alergedd yn cael ei nodi ar Ffurflen Rhybudd Alergedd, gyda chopi yn cael ei gadw yn y Ffeil Alergedd yn y gegin, a chopi yn cael ei anfon at sylw’r Tîm Arlwyo. Mae Ffurflen Alergedd Disgybl hefyd yn cael ei pharatoi, un ar gyfer pob plentyn, sydd yn cynnwys llun o’r plentyn, ac yn cael ei arddangos ar wal y gegin. Mewn 2 o’r 3 ysgol ymwelwyd â hwy, gwelwyd fod y rhestr o enwau oddi fewn i’r Ffolder yn anghytuno gyda’r hyn anfonwyd i’r Tîm Arlwyo, a hefyd gyda’r ffurflenni/lluniau ar wal y gegin, gyda phlant wedi gadael heb eu dileu, a phlant newydd gydag alergeddau heb eu cynnwys. Mynegodd Pennaeth Cynorthwyol - Gwasanaethau Addysg bryder mawr nad oedd yr ysgolion yn darparu’r wybodaeth i’r Tîm Arlwyo yn brydlon.

5.6 Mae’r Polisi Alergeddau yn nodi fod plant gydag alergeddau yn derbyn offer piws (plât a phowlen), fel i’w gwahaniaethu, a bod yn rhaid i’r offer hynny cael ei gadw ar wahân i’r offer eraill yn y gegin i osgoi croeshalogi. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliadau gwelwyd nad oedd gan un ysgol bowlenni piws yn eu meddiant eto, a bod un plentyn gydag alergedd cnau wedi derbyn brecwast ar blât cyffredin. Nododd y Cogydd nad oedd rhaid rhoi plât piws bryd hynny, gan nad oedd cnau oddi fewn i’r brecwast, gan nodi ei bod yn derbyn plât piws ar bob achlysur amser cinio. Gwelwyd fod y blât ar gyfer amser cinio wedi ei chadw ymysg y platiau cyffredin, heb ei gwahanu.

5.7 Sylweddolwyd nad oedd y Polisi yn nodi fod angen teclynnau bwyta ar wahân ar gyfer plant gydag alergeddau. Gwelwyd sawl achlysur yn ystod yr ymweliadau o blant yn rhoi llwyau ar y bwrdd, ble bysa'n ddigon agos a haws i'r plentyn wrth eu ochr eu codi. Awgrymwyd i'r Tîm Arlwyo bod risg yma o groeshalogi, cytunwyd i ystyried hyn, gan drafod gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.

5.8 O ran cynnwys y brecwast, mae'n rhaid darparu bwydydd wedi eu gosod gan y Llywodraeth. Mae pedwar categori, a rhaid darparu un opsiwn o bob categori. Y categorïau yw: Diodydd sy'n seiliedig ar laeth neu iogwrt, Grawnfwyd, Ffrwyth a Llysiau, a Bara. Mynegodd sawl Pennaeth bryder nad oedd ffrwyth ffres yn cael ei gynnig, fodd bynnag, gwelwyd fod pob ysgol yn darparu sudd (oren neu afal), a bod hwnnw yn bodloni gofyniad y Llywodraeth. Cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol - Gwasanaethau Addysg y bydd y dewis bwyd yn newid yn fuan, gyda'r Llywodraeth yn gwahardd sudd oherwydd y lefelau siwgr.

5.9 Ymddengys nad ydi unrhyw un o'r aelodau staff a oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliadau, yn staff goruchwylio (dan gyfrifoldeb yr ysgol), a staff cegin (dan gyfrifoldeb y Tîm Arlwyo) wedi cwblhau hyfforddiant Tân, nac unrhyw un o fodiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i gyd-weithio gyda'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i adolygu asesiadau risg yn ymwneud ag arlwyo.**
- **Sicrhau fod llawlyfrau/ffolderi Alergeddau pob cegin wedi eu diweddaru ac yn gyfredol ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd.**
- **Ar gyfer unrhyw benaethiaid newydd, sicrhau fod canllawiau yn cael eu rhannu mewn perthynas â chynnal Clwb Brecwast, yn nodi dyletswyddau clir.**
- **Trefnu cyfarfod gyda phenaethiaid i ail gyflwyno cynnwys y Polisi Alergedd, gan bwysleisio'r angen i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag alergeddau yn gywir, ac yn brydlon i'r Tîm Arlwyo.**
- **Atgoffa staff cegin i gadw cofnodion cywir, cyfredol o alergeddau, gyda'r Tîm Arlwyo, yn ystod eu hymweliadau, yn cynnal gwiriadau.**
- **Atgoffa staff o'r canllawiau mewn perthynas â darparu offer piws i bob plentyn gydag alergedd, gyda'r Tîm Arlwyo i gynnal gwiriadau yn ystod ymweliadau.**
- **Adnabod unrhyw ysgolion sydd heb yr offer priodol, gan sicrhau fod archeb yn cael ei drefnu yn syth.**
- **Ystyried fod angen darparu teclynnau bwyta ar wahân i blant ag alergeddau i osgoi croeshalogi.**
- **Fel Rheolwyr Safle, ystyried addasu trefniadau/amseroedd cynnal ymarferion tân i gynnwys staff y gegin.**

Atodiad 3

**YMWYBYDDIAETH GWEITHWYR MAES O'R POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL**

## 1. Cefndir

1.1 Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor, ac mae Polisi Diogelu Corfforaethol yn ei le er mwyn egluro sut i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Yn dilyn cais gan y Grŵp Gweithredol Diogelu, bwriad yr archwiliad oedd gwirio ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor o'r Polisi Diogelu corfforaethol drwy ddylunio a dosbarthu holiaduron i'r gweithwyr.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd ystadegau o'r nifer o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol 'Diogelu' hyd at 03/06/25. Mae'r ystadegau yma yn cynnwys gweithwyr swyddfa a gweithwyr maes, ond yn eithrio yr adran Addysg, gan fod staff ysgolion yn dilyn Polisi gwahanol.

| | |
|---|---|
| Nifer unigolion unigryw yn y Cyngor | 3,772 |
| Nifer unigolion unigryw wedi cwblhau Hyfforddiant Mandadol Diogelu | 2,632 |
| | 70% |

5.2 Derbyniwyd hefyd ystadegau fesul adran, unwaith eto yn cynnwys gweithwyr swyddfa a gweithwyr maes. Mae'r ystadegau yn cynnwys dyblygu unigolion sydd gan fwy nag un swydd.

| Adran | Nifer Staff | % Wedi Cwblhau Hyfforddiant Diogelu |
|---|---|---|
| Amgylchedd | 407 | 33% |
| Cyllid | 219 | 99% |
| Economi a Chymuned | 249 | 71% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 182 | 93% |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,241 | 86% |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 651 | 67% |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 434 | 34% |
| Tai ac Eiddo | 270 | 44% |
| Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol | 111 | 73% |

5.3 Cynhaliwyd archwiliad penodol ar ymwybyddiaeth gweithwyr maes o'r Polisi Diogelu Corfforaethol gan ei fod eisoes yn wybodus bod trefniadau cyfathrebu'r Cyngor gyda'r gweithwyr yma ddim mor effeithiol o'i gymharu gyda staff swyddfa. Yn anffodus, mae'r un heriau cyfathrebu yma yn codi wrth gynnal archwiliad sy'n ddibynnol ar fewnbwn y gweithwyr maes, sydd yn aml heb fynediad parod at e-byst, y fewnrwyd a'r modiwlau hyfforddiant mandadol, ond yn heriau sydd angen eu goresgyn gan mai'r gweithwyr yma sydd ar lawr gwlad ac yn cynnal gwaith rheng flaen y Cyngor.

5.4 Gan fod Archwilio Mewnol, yn rhinwedd gweithredu'r cynllun archwilio blynyddol, yn ymweld â nifer o leoliadau gwaith tu allan i'r prif swyddfeydd, yna mae'n bosib rhannu a chasglu'r holiaduron gyda'r staff presennol yr un pryd, yn ogystal â gadael pecyn o holiaduron i staff eraill i'w cwblhau pan mae'n gyfleus. Pan ofynnodd y Grŵp Gweithredol Diogelu i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad o ymwybyddiaeth gweithwyr maes, roedd cyfyngiadau adnoddau yn atal ymweliadau allanol pwrpasol. Fodd bynnag, llwyddwyd i dderbyn 67 ymateb drwy gyfuniad o ymweliadau â Depos Priffyrdd, Peirianneg ac YGC fel rhan o archwiliadau rhaglenedig, ac ymdrech y Rheolwr Datblygu Busnes i gylchredeg yr holiadur ymysg 160 o staff yr adran. Nid pob adran sydd gyda gweithwyr maes.

5.5 Roedd y 67 ymateb yn amrywio fesul man gwaith, gyda hanner ar gyfartaledd yn ymwybodol o'r Polisi, chwarter yn ymwybodol o'r cynnwys, 21% wedi derbyn hyfforddiant (sy'n llai na chyfartaledd yr adran) a 60% yn cydnabod bod ganddynt y cyfrifoldeb i adrodd ar bryderon, gyda 84% yn barod i wneud hynny. Dim ond 18% fynegodd eu bod yn gwybod pwy yw eu Rheolwr Dynodedig Diogelu, ond ni enwodd neb y swyddog cywir.

5.6 Ar gais y Panel Strategol Diogelu, ehangwyd y sampl i gynnwys staff ysgolion, ag eithrio staff dysgu. Mae staff dysgu yn dilyn polisi Diogelu'r ysgol, sy'n seiliedig ar Ganllaw Cenedlaethol 'Cadw'r Dysgwr yn Ddiogel'. Mae staff ategol, gan gynnwys staff glanhau a chegin yn atebol i'r polisi Corfforaethol, ond yn ymatebol i bolisi diogelu'r ysgol wrth ymwneud â disgyblion. Mae disgwyl iddynt ymgymryd â hyfforddiant gloywi Diogelu yn flynyddol o dan reolaeth Person Dynodedig Diogelu'r ysgol. Nid yw'r hyfforddiant gloywi yma yn cyfeirio at y polisi Corfforaethol gan fod polisi Diogelu'r ysgolion ychydig yn wahanol, ond mae'r egwyddorion yr un fath.

5.7 Mae'r cyflwyniad Diogelu gaiff ei ddarparu gan yr adran Addysg yn cynnwys cod QR ar y diwedd i staff gofrestru eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant. Gan mai cyfrifoldeb yr ysgol yw cynnal y gofrestr o bawb sydd wedi mynychu, mae rhai yn dewis defnyddio eu ffurf lleol hwy i gofrestru - felly nid yw'r ystadegau presenoldeb cyflawn mewn llaw. Fodd bynnag, fel modd o wirio trefniadau hyfforddi'r ysgolion, mynegwyd y cynhelir ymweliadau gwirio ansawdd blynyddol gan yr adran Addysg, sy'n cynnwys gwirio fod yr ysgol yn darparu'r hyfforddiant i holl aelodau o staff yr ysgol.

5.8 Yn ôl ystadegau'r Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant yr adran Addysg, mae 1,180 o staff wedi cofrestru drwy'r cod QR eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu, ac Atal, ar ddechrau Medi 2024. Nid pob ysgol sy'n defnyddio'r cod QR. O'r ymatebion, mynegodd pob ysgol eu bod wedi mabwysiadau Polisi Diogelu yn ystod y flwyddyn 24/25. Mae:

- 94% o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- 85% o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- 97% o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- 100% o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

5.9 Mae holiadur yr archwiliad yma yn cyfeirio at y Polisi Corfforaethol, ond nid oes modd rhoi sicrwydd bod yr ymatebion a roddwyd gan y 125 o staff ategol (allan o 569) ar draws 17 o'r 94 ysgol ymholwyd yn cyfeirio at y Polisi Corfforaethol, yntau Polisi'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau yn gyson ag ystadegau'r adran Addysg.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Grwp Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i geisio codi ymwybyddiaeth gweithwyr maes o'r Polisi Diogelu Corfforaethol.**
- **Rhannu ac arddangos posteri gyda manylion Swyddogion Dynodedig Diogelu.**

Atodiad 4

**DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 2024-25**

**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd dros £4.5m i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflenwi darpariaeth addysg ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, dyrannwyd dros £200k ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif dyraniad 'Dyraniadau Chweched Dosbarth' a 'Darpariaeth Dysgu Oedolion' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25, gan sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu clir wedi eu cynnal i nodi bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn ac wedyn ei ddosbarthu i ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu Cymunedol at ddibenion cyllid fel y nodir yn y llythyrau gwobrwyo.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb y tystysgrifau dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

Atodiad 5

**DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU**

**1. Cefndir**

1.1 Yn unol â’r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae’n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy’n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad cyfrifyddu blynyddol ‘Harbyrau’ ar gyfer y flwyddyn 2024/25, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu ‘Harbyrau’ ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i’r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi’u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad.

4.4 Cefnogir y ffigwr asedau sefydlog ar y datganiad cyfrifyddu gyda’r cofrestr asedau.

Atodiad 6

**CRONFA'R DEGWM**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu'r llog yn flynyddol ar ffurf grantiau i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sydd o fudd i drigolion Gwynedd, ac yn cyfoethogi cymunedau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2024/25, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2024/25.

4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

4.3 Er gwaethaf y datganiad o sicrwydd, mae gwefan y Comisiwn Elusennau yn nodi yn anghywir bod y cyfrifon am y 4 mlynedd diwethaf wedi'u cymhwyso. Fodd bynnag, mae Archwilio Mewnol wedi cysylltu efo'r Comisiwn Elusennau i gywiro hyn.

Atodiad 7

**PLAS HEDD**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Plas Hedd wedi ei leoli yn ninas Bangor ac wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth ar gyfer, hyd at 28 o breswylwyr dros 18 oed sydd yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned, neu sydd wedi eu hasesu fel angen cefnogaeth.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 5 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae cartrefi yn derbyn sawl Archwiliad Sicrwydd Ansawdd yn flynyddol, wedi eu cynnal yn fewnol gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch gan y Gwasanaeth Eiddo, ac Archwiliadau Meddyginiaeth gan GIG a'r fferyllfa leol. Pe byddai unrhyw elfen o'r Archwiliad Mewnol eisoes wedi ei wirio yn ddiweddar fel rhan o'r Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, neu Feddyginiaeth, penderfynwyd dibynnu ar yr adroddiadau, gan dderbyn eu sicrwydd.

5.2 Er hynny, darganfuwyd nad yw argymhellion yn deillio o Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd yn cael eu gweithredu ar bob achlysur. Gwiriwyd sampl o gynlluniau gofal fel rhan o Archwiliad Sicrwydd Ansawdd 24ain o Fawrth, 2025, ble adnabuwyd nad oedd staff yn llofnodi'r bylchau perthnasol wrth gwblhau'r Nodiadau Dyddiol. Ymwelwyd â'r cartref i gynnal Archwiliad Mewnol ar 16eg o Orffennaf, ble gwiriwyd sampl o 3 cynllun gofal. Gwelwyd fod Nodiadau Dyddiol y tri preswylydd am y bythefnos cynt yn parhau heb eu llofnodi. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft cadarnhawyd fod cyfarfod staff wedi ei drefnu i drafod hyn.

5.3 Ar gyfer y 4 preswylydd gwiriwyd eu cofnodion arian poced, gwelwyd fod derbynebau ar gyfer gwariant ar goll ar ddau achlysur, i ddau wahanol breswylydd. Ymchwiliodd y Rheolwr a'r Is-reolwr i hyn ar unwaith, gan ddod o hyd i'r derbynebau ymhlith cofnodion preswylwyr eraill. Nodwyd y byddent yn atgoffa staff i fod yn fwy gofalus wrth gadw derbynebau yn y dyfodol. Gwelwyd hefyd nad oedd y Rheolwr yn llofnodi na chadarnhau dyddiad wrth gysoni'r arian poced, yn ei gwneud yn amhosibl nodi pryd cynhaliwyd y cysoniad diwethaf. Erbyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol roedd tystiolaeth wedi ei dderbyn yn dangos fod arian poced pob preswylydd wedi ei gysoni, gyda cofnod priodol wedi ei gadw, a bod bwriad cynnal cysoniadau misol o hyn ymlaen.

5.4 Gwelwyd nad oedd ymwelwyr yn arwyddo'r llyfr ymwelwyr ar bob achlysur wrth adael y cartref, nac yn nodi amser gadael. Nododd y Rheolwr byddai'n trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr ar gyfer atgoffa pawb i arwyddo wrth adael. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft derbyniwyd copi o'r poster, ynglŷn â chadarnhad ei fod wedi ei arddangos wrth y llyfr ymwelwyr.

5.5 Yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod profion ar y diffoddwyr tân a llwybrau dianc yn cael eu cynnal yn fisol ble mae disgwyl eu cynnal yn wythnosol. Nododd y Rheolwr, er mai misol cynhaliwyd a chofnodwyd y profion, eu bod yn cael eu gwirio wrth "fynd heibio" yn rheolaidd.

5.6 Ni welwyd fod poster 'Diogelu' wedi ei arddangos yn y cartref. Cadarnhaodd y Rheolwr y byddai'n trefnu cael poster yn fuan. Erbyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol, gwelwyd fod poster wedi ei dderbyn â'i arddangos.

5.7 Nid oes modd cadarnhau sawl aelod staff sydd wedi darllen y Polisi Diogelu na wedi cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol. Mae gan y cartref liniadur ar gael i alluogi mynediad i staff at bolisïau yn ogystal â'r modiwlau. Fodd bynnag, 'log in' generig sydd ar y gliniadur, sy'n galluogi gweld/darllen y dogfennau/modiwlau yn unig. Nid oes modd i'r staff fewngofnodi yn unigol fel bod y system yn gallu adnabod pwy sydd wedi darllen/cwblhau pa bolisïau neu fodiwlau. Mae galluogi mynediad staff gofal i'r Ganolfan Bolisi a'r Porth E-ddysgu wedi bod yn her dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gliniadur generig wedi galluogi hynny. Fel bod cofnod ar gael, ac i ddibenion monitro, cytunodd y Rheolwr i ofyn i staff nodi unrhyw bolisïau wedi eu darllen neu fodiwlau wedi eu cwblhau yn y dyfodol, gan gofnodi'r rhain ar daenlen hyfforddiant mewnol y cartref.

5.8 Ymddengys nad yw pob aelod staff sydd yn darparu meddyginiaeth gyda hyfforddiant cyfredol. Detholwyd sampl o 10 aelod staff ar hap ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant. Diystyriwyd 3 gan nad ydynt yn darparu meddyginiaeth. O'r 7 yn weddill, mae hyfforddiant 2 wedi rhedeg allan, gydag 1 yn unig wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn ddiwethaf, ble mae disgwyl eu cynnal yn flynyddol. Nododd yr Is-reolwr y byddai'n trefnu hyfforddiant mor fuan â phosibl. Eglurwyd fod problemau staffio yn ei gwneud yn anodd rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant. Darganfuwyd fod y Cogydd yn ogystal â'r Cogydd Cynorthwyol ar absenoldeb salwch hir dymor, gyda'r un aelod staff ar ôl yn y gegin yn ymddiswyddo mis Awst 2025. Ers rhai misoedd bellach mae staff gofal wedi gorfod gweithio sifftiau yn y gegin er mwyn sicrhau fod preswylwyr yn cael eu bwydo. Er bod sawl swydd wedi eu hysbysebu, nodwyd fod denu ymgeiswyr yn anodd, a bod rhaid yn aml ymestyn dyddiadau cau.

5.9 Ers Hydref 2022 mae'n ofynnol i weithwyr cartrefi gofal oedolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gyfer y sampl o 10 aelod staff gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, ni welwyd fod 2 wedi cofrestru. Daethpwyd a hyn i sylw'r Rheolwr. Erbyn rhyddhau'r adroddiad terfynol roedd un o'r rhain wedi cofrestru, ac y llall ar fin cychwyn y broses.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ymdrechu i weithredu ar argymhellion archwiliadau allanol yn brydlon, yn benodol, Nodiadau Dyddiol, gan gynnal gwiriadau ar hap er mwyn sicrhau fod staff yn llofnodi wrth gwblhau tasgau, ac atgoffa staff sy'n tan-perfformio o'u dyletswyddau.**
- **Cadw cofnodion priodol o gysoniadau arian poced, gan nodi'r dyddiad, a llofnodi.**
- **Trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr yn atgoffa pawb i arwyddo a chadarnhau amser wrth adael, gan atgoffa staff i adrodd hynny hefyd wrth ymwelwyr wrth eu derbyn i'r cartref.**
- **Arddangos poster 'Diogelu' mewn man priodol, ble bydd pob aelod staff yn ei weld.**
- **Cadw cofnodion priodol o unrhyw bolisïau/fodiwlau hyfforddiant mae staff yn eu cwblhau ar liniadur generig y cartref ac anfon y wybodaeth at y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad i ddiweddaru'r cofnodion unigol**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sy'n darparu meddyginiaeth yn cwblhau hyfforddiant perthnasol mor fuan â phosibl, gan gynnwys profion cymhwysedd.**

# PLAS Y DON

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Plas Y Don wedi ei leoli yn nhref Pwllheli ac wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth ar gyfer hyd at 28 o breswylwyr dros 18 oed sydd yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned, neu sydd wedi eu hasesu fel angen cefnogaeth.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 2 |
| CANOLIG | 7 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae cartrefi yn derbyn sawl Archwiliad Sicrwydd Ansawdd yn flynyddol, wedi eu cynnal yn fewnol gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch gan y Gwasanaeth Eiddo, ac Archwiliadau Meddyginiaeth gan GIG a'r fferyllfa leol. Pe byddai unrhyw elfen o'r Archwiliad Mewnol eisoes wedi ei wirio yn ddiweddar fel rhan o'r Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, neu Feddyginiaeth, penderfynwyd dibynnu ar yr adroddiadau, gan dderbyn eu sicrwydd.

5.2 Er hynny, darganfuwyd nad yw argymhellion yn deillio o Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd yn cael eu gweithredu ar bob achlysur. Gwiriwyd sampl o 3 cynlluniau gofal fel rhan o Archwiliad Sicrwydd Ansawdd 21ain o Ionawr, 2025, ble nodwyd nad oedd holl ddogfennau 2 gynllun wedi eu hadolygu pob tri mis fel y disgwyl. O’r 3 cynllun gofal a wiriwyd fel rhan o’r Archwiliad Mewnol, er eu bod wedi eu hadolygu yn ddiweddar, nid oeddent wedi eu hadolygu pob tri mis cyn hynny, gydag asesiadau misol ar ‘gofal ceg’ wedi eu methu ar sawl achlysur. Ni welwyd fod asesiad gofal ceg wedi ei gwblhau ar gyfer 1 preswylydd ers 2024. Yn yr un modd, gwelwyd nad oedd ‘Nodiadau Dyddiol’ y preswylwyr yn gyflawn ar bob achlysur am fis Gorffennaf 2025, gyda dyddiau wedi eu methu, a staff heb ddyddio na llofnodi wrth gwblhau tasgau.

5.3 Ar un achlysur, gwelwyd nad oedd cofnod o eitemau personol preswylydd yn bresennol yn eu cynllun gofal.

5.4 Ers Hydref 2022 mae’n ofynnol i weithwyr cartrefi gofal oedolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gyfer y sampl o 10 aelod staff gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, ni welwyd fod 2 wedi cofrestru. Daethpwyd a hyn i sylw’r Rheolwr. Cadarnhawyd y byddai’n trefnu i gofrestru’r 2 aelod staff mor fuan â phosibl.

5.5 O’r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu ffeiliau staff, gwelwyd nad oedd 3 ohonynt wedi eu goruchwylio ers dros bedwar mis, ble mae disgwyl eu cynnal pob tri mis. Ni wiriwyd cofnodion gwerthuso’r cartref yn dilyn derbyn cadarnhad gan y Rheolwr nad oedd wedi cynnal gwerthuso blynyddol ers rhai blynyddoedd. Yn dilyn cyhoeddi’r Adroddiad Drafft, gwelwyd fod amserlen gwerthuso wedi ei llunio.

5.6 Ar gyfer 1 aelod staff, gwelwyd fod yr oriau a hawlir ar gyfer wythnos yn diweddu 24/05/25 yn anghytuno gyda’r hyn ar y rota waith, gan arwain at ordaliad cyflog o 42 munud. Awgrymodd y Rheolwr fod hwn yn gamgymeriad ar ei rhan hi wrth fewnbynnu manylion y rota ar y daenlen cyflogau, neu bosibl fod yr aelod staff heb allu cymryd brêc yn ystod un sifft, a bod y Rheolwr felly wedi trefnu ei bod yn cael ei thalu amdano. Nododd fod hyn yn digwydd yn aml, ond nad oedd yn ei gofnodi yn unman.

5.7 Ni wiriwyd Cofrestr Eiddo’r cartref yn dilyn cadarnhad gan y Rheolwr nad oedd wedi ei adolygu ers dros 2 flynedd. Cadarnhaodd y byddai cofrestr gyfredol gyflawn wedi ei gwblhau yn y dyfodol agos.

5.8 Ar gyfer y 4 preswylydd gwiriwyd eu cofnodion arian poced, gwelwyd fod derbynebau ar gyfer gwariant ar goll ar dri achlysur, i dri gwahanol breswylydd. Cadarnhawyd fod y preswylwyr ar achlysur yn gwario ar “bingo” yn y canolfan dydd, ond nad oedd derbynebau yn cael eu creu. Cytunwyd i ofyn am dderbynebau o hyn ymlaen. Gwelwyd mai symiau bychan ydi'r rhain, dim mwy ‘na £2.

5.9 Gwelwyd nad oedd ymwelwyr yn arwyddo’r llyfr ymwelwyr ar bob achlysur wrth adael y cartref, nac yn nodi amser gadael. Nodir fod poster eisoes wedi ei leoli uwchben y llyfr yn gofyn i ymwelwyr arwyddo mewn. Cadarnhaodd y Rheolwr y byddai’n llunio poster newydd sy’n nodi fod angen llofnodi a chadarnhau amser gadael.

5.10 Ni welwyd fod profion wedi eu cynnal ar y diffoddwyr tân, na llwybrau dianc ers mis o ddyddiad yr ymweliad, ble mae disgwyl eu cynnal yn wythnosol. Ymwelwyd â'r cartref 24/07/25. Nododd y Rheolwr ei bod yn ffyddiog fod y rhain yn cael eu cynnal, ond nad oedd staff yn eu cofnodi ar bob achlysur.

5.11 Mae disgwyliad i adolygu asesiadau risg unigol preswylwyr yn fisol. O'r 3 preswylydd a wiriwyd eu cofnodion, nid roedd eu hasesiadau risg wedi eu hadolygu ers dros 4 mis, er i Sicrwydd Ansawdd amlygu'r methiant yn eu hadroddiad dyddiedig 21/01/25. Erbyn rhyddhau'r Adroddiad Terfynol cadarnhawyd fod trefniadau mewn lle i archwilio'r Cynlluniau Gofal pob 3 mis.

5.12 Gwelwyd fod 31 digwyddiad o ganlyniad i wall meddyginiaeth wedi digwydd rhwng Chwefror a Gorffennaf 2025. Mae'r rhain wedi eu dogfennu a'u hadrodd i'r Rheolwr Ardal, GIG, a Sicrwydd Ansawdd. O ganlyniad, mae 3 aelod staff erbyn hyn wedi eu harddel dros dro o ddarparu meddyginiaeth, gyda chyfarfod eisoes wedi ei drefnu ar gyfer 4ydd o Fedi i drafod ymhellach, ble bydd Rheolwyr Ardal, Penaethiaid Adran, Sicrwydd Ansawdd, yn ogystal ag aelod o'r Tîm Diogelu ymhlith y mynychwyr.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ymdrechu i weithredu ar argymhellion archwiliadau allanol yn brydlon, yn benodol, adolygu cynlluniau gofal, gan gynnal gwiriadau ar hap, ac atgoffa staff sy'n tan-perfformio o'u dyletswyddau.**
- **Sicrhau fod cofnod cyfredol o eiddo preswylwyr, ar ffurf rhestr neu luniau, yn cael ei gadw yn eu cynlluniau gofal.**
- **Llunio rota goruchwyliaeth a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.**
- **Sicrhau cywirdeb wrth fewnbynnu oriau staff ar y daenlen cyflogau, gan gofnodi unrhyw frêc nad ydi wedi yn bosibl eu cymryd, ar y rota waith.**
- **Sicrhau fod gan y cartref gofnod cyfredol a'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.**
- **Llunio poster newydd i'w arddangos ger y llyfr ymwelwyr yn nodi'r glir yr angen i gadarnhau amser cyrraedd a gadael, yn ogystal â llofnodi.**
- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, a chofnodion priodol yn cael eu cadw.**
- **Cynnal cyfarfod gyda'r staff perthnasol er mwyn eu hatgoffa o'u dyletswyddau mewn perthynas â adolygu asesiadau risg preswylwyr, gan gynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw adolygiadau wedi eu methu.**
- **Atgoffa staff i fod yn wyliadwrus wrth ddarparu meddyginiaeth.**

Atodiad 9

**TREFNIADAU CLEFYD COED YNN**

**1. Cefndir**

1.1 Mae clefyd coed ynn (‘*Ash Dieback*’) yn achosi ystod o symptomau, gan gael effaith andwyol ar sefydlogrwydd strwythurol y mwyafrif o goed y mae’n eu heintio. Mae disgwyl y bydd rhan fwyaf o goed ynn, (neu onnen) yng Ngwynedd yn marw o’r clefyd dros y blynyddoedd nesaf, gan arwain at risgiau amgylcheddol, economaidd ac iechyd a diogelwch o ganlyniad i goed neu ganghennau yn disgyn.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn rheoli a lliniaru risgiau clefyd coed ynn, drwy wirio trefniadau cynllunio a rheoli risg, hyfforddiant, yn ogystal ag adolygu cofnodion sampl o goed am archwiliadau a gweithrediadau. Mae archwiliad cyffredinol ‘Coed yn Syrthio’ hefyd wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio'r flwyddyn gyfredol.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau’r archwiliad fel y ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod clefyd coed ynn yn peri risgiau corfforaethol i’r Cyngor, ac fel canlyniad mae wedi cael ei gynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol. Nid yn unig mae risgiau amgylcheddol amlwg, ond mae risgiau economaidd ac iechyd a diogelwch o goed neu ganghennau yn disgyn ar unigolion, adeiladau, ffyrdd a cherbydau.

5.2 Yn dilyn gwaith casglu data ar goed ynn y sir, ym mis Medi 2021 cymeradwyodd yr awdurdod gais yr Adran i greu tîm arbenigol i geisio rheoli'r clwyf ar ei ffyrdd a'i diroedd. Ar yr un pryd, dyrannwyd cyllideb barhaol o £100k i'r tîm i wneud gwaith gweithredol megis archwilio, tocio a thorri coed heintiedig. O fewn y 25% o lonydd, parciau, mynwentydd ac ysgolion Gwynedd sydd wedi eu harolygu ers 2020, mae oddeutu 25,000 o goed ynn wedi'u harchwilio, gydag oddeutu 8,000 o'r coed wedi eu hadnabod fel rhai yn y categori risg uchel. Mae'r Gwasanaeth wedi torri neu thocio oddeutu 3,000 o'r coed ynn hyd yn hyn, a hynny yn dilyn i'r Gwasanaeth ail-wirio'r data o fewn y system yn ystod yr archwiliad. Mae 75% o'r lonydd a llwybrau ar ôl i'w arolygu.

5.3 Oherwydd diffyg adnoddau, mae'r tîm yn blaenoriaethu ar sail tebygolrwydd ag effaith digwyddiad, ac felly yn archwilio coed sydd ar, neu'n agos at brif ffyrdd, ysgolion, mynwentydd a mannau agored cyhoeddus. O ganlyniad, mae nifer o ffyrdd a thiroedd tawelach eto i dderbyn archwiliadau cynlluniedig, gyda'r angen i ailymweld â safleoedd risg uchel er mwyn canfod os oes dirywiad yng nghyflwr y coed yn cael blaenoriaeth.

5.4 Mae'r diffyg adnoddau yn wybodus i'r Cyngor, ond mae amryw o fidiau am ragor o gyllideb i gyflogi coedyddwyr wedi bod yn aflwyddiannus. Bydd cais llwyddiannus wedi golygu gallu cynnal rhagor o'r rhaglen waith, ynghyd â gwaith ategol megis codi ymwybyddiaeth ymysg perchnogion preifat. Serch hynny, mae gwefan wedi ei chreu sy'n cynnwys manylion defnyddiol i'r cyhoedd ac i berchnogion tir preifat ar y clefyd.

5.5 Mae Strategaeth Rheoli Risg Coed wrthi'n cael ei llunio ar amser yr archwiliad, a bydd y Cynllun Gwywiad yr Onnen yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa adnoddau heriol yn golygu bod risg na fydd y coed yn cael eu harchwilio a'u trin mor aml â'r hyn sydd wedi ei nodi yn y rhaglen gynlluniedig.

5.6 Detholwyd sampl o goed ynn penodol mewn ardaloedd o wahanol flaenoriaeth, a derbyniwyd cofnodion y Gwasanaeth ar eu cyfer oddi ar system Ezytreev. Gwelwyd o'r sampl bod y coed a ddetholwyd, a rhai cyfagos, wedi cael eu harchwilio, rhai ger rhan o'r A4085 a Pharc y Dre Caernarfon o fewn y flwyddyn ddiwethaf, rhai ger rhan o'r A4871 yn 2022, a rhan o Lôn Eifion yn 2020. Gwelwyd bod y rhan helaeth o'r coed sydd wedi eu hasesu yn risg uchel yn parhau yn sefyll heb weithrediad pellach er gwaethaf argymhelliad i'w torri. Y gobaith yw y bydd coed yn cael eu harchwilio o leiaf pob dwy flynedd, a choed bregus yn flynyddol tan eu bod wedi eu tocio, ond mae'r diffyg adnoddau yn creu risg o beidio gallu cyflawni hyn. Er y tebygolrwydd gymharol isel o goeden neu gangen yn disgyn a chreu anaf neu farwolaeth, mae'n anodd profi os yw'r drefn archwilio a thorri presennol yn ddigonol hyd orfod amddiffyn y drefn petai achos llys yn erbyn y Cyngor.

5.7 Mae cyfyngiadau o ran torri coed yn ystod y cyfnod nythu dros y Gwanwyn a'r Haf. Wedi i'r cyfnod yma ddod i ben, bydd canlyniadau'r archwiliadau diweddar yn cael eu dadansoddi er mwyn llunio rhaglen gwaith torri. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn cael eu cyfyngu i leoliadau risg uchel, a gall ffactorau eraill megis tywydd, yr angen i gau lôn ayb arwain at fwy o amser a chostau all amharu ar y cynllun gwaith a chyfyngu ymhellach y coed caiff eu torri.

5.8 Mae nifer o heriau arall yn wynebu'r Gwasanaeth, megis asesu *crown dieback* (colli dail drwy wywiad coeden o'r top i lawr o ganlyniad i'r clefyd) yn y gaeaf pan mae coed yn colli dail yn naturiol, tywydd garw a gwyntoedd cryfion gall wanhau neu lorio canghennau dros ardal faith dros nos, a beth i wneud gyda'r pren sydd wedi ei dorri lawr, gan fod ganddynt werth ariannol. Disgwylir bydd y Cynllun Gwywiad yr Onnen yn ystyried y rhain.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cyhoeddi Strategaeth Rheoli Risg Coed a diweddaru Cynllun Gwywiad yr Onnen**
- **Cyflwyno bid arall am ragor o adnoddau**
- **Torri'r coed sydd wedi eu dynodi fel rhai risg uchel mewn mannau o flaenoriaeth uchel, o fewn cyfyngiadau adnoddau y Gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 HYDREF 2025** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2025/26 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 28 Medi 2025 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 20 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 14 |
| Disgwyl Adolygiad | 0 |
| Adroddiad Drafft | 5 |
| Wedi ei gau | 0 |
| Adroddiad Terfynol | 6 |
| **Cyfanswm** | **45** |
| | |
| **Canslwyd** | **5** |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2026. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 28 Medi 2025 oedd **13.33% -** allan o'r **45** archwiliad unigol yng nghynllun diwygiedig 2025/26 roedd **6** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 580 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2025/26. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

3.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus.

3.3 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu ganslo/gohirio'r archwiliadau canlynol:

| Archwiliad | Dyddiau | Addasiad/Canslo |
|---|---|---|
| Cartref y Frondeg | +12 | Ychwanegiad |
| Canolfannau Anabledd Dysgu | +25 | Ychwanegiad |
| Dilyniant Cyffredinol | +20 | Ychwanegiad |
| Dilyniant Plas Pengwaith | +4 | Addasiad |
| Dilyniant Llys Cadfan | +3 | Addasiad |
| Dilyniant Plas Hafan | +3 | Addasiad |
| ***Cyfanswm*** | **+67** | |
| Swyddi Heb Gyllideb | -12 | Canslo |
| Canolfannau Dydd | -25 | Canslo |
| Rheoli Traethau | -10 | Canslo |
| Hafan | -10 | Canslo |
| Dilyniant Cartrefi Preswyl | -10 | Addasiad |
| ***Cyfanswm*** | **-67** | |

3.4 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2025/26, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

Atodiad 1

| Adran | Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Cynllun Diwygiedig | Gwir Ddyddiau | Ar ôl | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Addysg Tu Allan i'r Ysgol | 15 | 15 | 0.0 | **15.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 20 | 20 | 0.0 | **20.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Dilyniant Cludiant Ysgolion | 3 | 3 | 0.0 | **3.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Darpariaeth Addysg Ôl-16 | 5 | 5 | 4.5 | **0.5** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Ysgolion Cyffredinol | 3 | 3 | 0.0 | **3.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Amgylchedd | Casglu Gwastraff Masnachol | 15 | 15 | 0.7 | **14.3** | Gwaith ar y gweill | |
| | Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion | 3 | 3 | 1.4 | **1.6** | Gwaith ar y gweill | |
| | Dilyniant Trefniadau Dosbarthu Biniau | 3 | 3 | 1.9 | **1.1** | Gwaith ar y gweill | |
| | Iechyd Anifeiliaid | 12 | 12 | 14.2 | **-2.2** | Adroddiad Drafft | Digonol |
| | Rheolaeth Adeiladu | 12 | 12 | 0.0 | **12.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Hyfforddiant Mandadol | 15 | 15 | 2.6 | **12.4** | Wedi ei gynllunio | |
| | Trefniadau Tân | 10 | 10 | 0.0 | **10.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Cofforaethol | Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 15 | 15 | 5.4 | **9.6** | Wedi ei gynllunio | |
| | Dilyniant Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 3 | 3 | 3.0 | **0.0** | Adroddiad Drafft | Digonol |
| | Dilyniant Cyffredinol | 0 | 20 | 0.5 | **19.5** | Wedi ei gynllunio | |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 40 | 40 | 2.6 | **37.4** | Wedi ei gynllunio | |
| | Swyddi Heb Gyllideb | 12 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data | 25 | 25 | 1.6 | **23.4** | Wedi ei gynllunio | |
| | Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu | 25 | 25 | 2.1 | **22.9** | Gwaith ar y gweill | |
| | | | | | | | |
| Cyllid | Archwiliadau TG | 30 | 30 | 0.0 | **30.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2024-25 | 4 | 4 | 3.8 | **0.2** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Incwm - Trefniadau Adennill | 15 | 15 | 13.3 | **1.7** | Gwaith ar y gweill | |
| | Praeseptau | 12 | 12 | 12.0 | **0.0** | Adroddiad Drafft | Uchel |
| | Rheolaeth Trysorlys | 15 | 15 | 0.0 | **15.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Economi a Chymuned | Amgueddfa Lloyd George | 4 | 4 | 0.5 | **3.5** | Gwaith ar y gweill | |
| | Cronfa'r Degwm | 4 | 4 | 4.1 | **-0.1** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Cynllun Traethau | 10 | 0 | 0.3 | **-0.3** | Wedi canslo | |
| | Hafan | 10 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | | | | | | | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartref Plas Hedd | 12 | 12 | 13.3 | **-1.3** | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Cartref Plas Y Don | 12 | 12 | 12.3 | **-0.3** | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Cartref Tan Y Marian | 12 | 12 | 14.7 | **-2.7** | Adroddiad Drafft | Cyfyngedig |
| | Cartref y Frondeg | 0 | 12 | 7.0 | **5.0** | Gwaith ar y gweill | |
| | Dilyniant Cartrefi Preswyl | 10 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Dilyniant Cartref Plas Pengwaith | 0 | 4 | 4.1 | **-0.1** | Adroddiad Drafft | Cyfyngedig |
| | Dilyniant Cartref Llys Cadfan | 0 | 3 | 1.2 | **1.8** | Gwaith ar y gweill | |
| | Dilyniant Cartref Plas Hafan | 0 | 3 | 1.1 | **1.9** | Gwaith ar y gweill | |
| | DOLS/LPS | 20 | 20 | 2.8 | **17.2** | Wedi ei gynllunio | |
| | Taliadau Uniongyrchol | 20 | 20 | 10.3 | **9.7** | Gwaith ar y gweill | |
| | Canolfannau Dydd | 25 | 0 | 4.2 | **-4.2** | Wedi canslo | |
| | Canolfannau Anabledd Dysgu | 0 | 25 | 6.8 | **18.2** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | Taliadau All-Sirol | 25 | 25 | 0.0 | **25.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Coed yn Syrthio | 12 | 12 | 6.8 | **5.2** | Gwaith ar y gweill | |
| | Cynllun Olyniaeth YGC | 8 | 8 | 0.0 | **8.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Cynllun Parhad Gwsanaeth/Cynllun Argyfwng | 10 | 10 | 6.3 | **3.7** | Gwaith ar y gweill | |
| | Gwasanaeth Profedigaeth | 12 | 12 | 0.0 | **12.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Fflyd - Defnydd Tanwydd | 15 | 15 | 0.0 | **15.0** | Wedi ei gynllunio | |
| | Trefniadau Clefyd Coed Ynn | 12 | 12 | 12.1 | **-0.1** | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | | | | | | | |
| Tai ac Eiddo | Costau Llety Argyfwng | 15 | 15 | 0.3 | **14.7** | Wedi ei gynllunio | |
| | Grant Atal Digartrefedd 2024-25 | 5 | 5 | 3.6 | **1.4** | Gwaith ar y gweill | |
| | Grant Cymorth Tai | 15 | 15 | 3.8 | **11.2** | Gwaith ar y gweill | |
| | | **580** | **580** | **185.3** | **394.7** | | |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2025/26 –<br>Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Hydref 2025 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**

   Mi fyddwn yn argymell i'r Cabinet i wneud y canlynol:

   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
     - cynnydd o £290,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £13,390,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - cynnydd o £36,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - lleihad o £2,743,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
     - cynnydd o £29,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

   Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

   **3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

   Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r

ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad ( rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152.94m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £11.002m ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £100.7m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £47.4m (47%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £12.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2025, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb | Addasiad Llithriad | Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | 2027/28 £000 | Cyfanswm £000 | £000 | £000 | £000 |
| Addysg | 16,301 | 8,218 | 3,451 | 27,970 | **9,547** | 8,125 | **1,422** |
| Amgylchedd | 10,106 | 1,917 | 479 | 12,502 | **4,587** | (73) | **4,660** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | **-** | - | **-** |
| Cyllid | 1,130 | 722 | 1,249 | 3,101 | **925** | 915 | **10** |
| Economi a Chymuned | 26,964 | 6,826 | 2,383 | 36,173 | **5,036** | 1,746 | **3,290** |
| Tai ac Eiddo | 28,314 | 8,052 | 4,102 | 40,468 | **18,335** | 17,249 | **1,086** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,701 | 2,700 | - | 5,401 | **648** | 2,098 | **(1,450)** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,731 | 764 | 700 | 4,195 | **2,475** | 163 | **2,312** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,161 | 3,793 | 5,881 | 21,835 | **6,057** | 6,385 | **(328)** |
| Corfforaethol | 295 | 500 | 500 | 1,295 | **295** | 295 | **-** |
| **CYFANSWM** | **100,703** | **33,492** | **18,745** | **152,940** | **47,905** | **36,903** | **11,002** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £47.905m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol gyda £36.903m yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a £11.002m yn ariannu o'r newydd. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ddiwygiedig ar gyfer hyn :

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb | Addasiad Llithriad | Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | 2027/28 £000 | Cyfanswm £000 | £000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,070 | 4,070 | 4,070 | 12,210 | **-** | - | **-** |
| Benthyca Arall | 18,115 | 4,119 | - | 22,234 | **13,737** | 13,447 | **290** |
| Grantiau a Chyfraniadau | 52,467 | 9,803 | 4,903 | 67,173 | **20,416** | 7,026 | **13,390** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 160 | - | - | 160 | **160** | 160 | **-** |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,185 | - | - | 1,185 | **56** | 20 | **36** |
| Cronfa Cyfalaf | 6,821 | 11,111 | 4,477 | 22,409 | **5,623** | 8,366 | **(2,743)** |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 17,885 | 4,389 | 5,295 | 27,569 | **7,913** | 7,884 | **29** |
| **CYFANSWM** | **100,703** | **33,492** | **18,745** | **152,940** | **47,905** | **36,903** | **11,002** |

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £13.390m a rhestrir y rhai mwyaf isod (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion):

- £2.940m Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau
- £1.972m Grant Ynni Cymru gan Lywodraeth Cymru tuag at fatris trydanol a gwaith ym Mhlas Ogwen
- £1.839m Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru

- £1.443m Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £0.823m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- £0.509m Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd
- £0.500m Cyfraniad Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y cynllun prynu tai

**3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

Mae Cod Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion).

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 - Gwariant Cyfalaf 5 mis cyntaf 2025/26

Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2025/2026 : Cyllidebau Blynyddol

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyca.pdf

**ATODIAD 1**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr gyllideb wreiddiol:

| | 2025/26<br>£'000 | 2026/27-2027/28<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Tŷ Gofal Maethu ac addasiad ariannu eitem o'r flwyddyn blaenorol *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 250 | |
| • Cerbydau yn y meysydd gwastraff ac ailgylchu *(Adran Amgylchedd).* | 40 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau *(Adran Addysg).* | 823 | |
| • Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).* | 509 | |
| • Grant Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 102 | |
| • Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 1,839 | |
| • Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at Barc Gwledig Padarn *(Adran Economi a Chymuned).* | 250 | 50 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru i Leihau Ôl Troed Carbon *(Adran Economi a Chymuned).* | 200 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i'r Archifdy *(Adran Economi a Chymuned).* | 142 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ar gyfer rheoli llyfrgelloedd *(Adran Economi a Chymuned).* | 29 | |

| | |
|---|---|
| • Grant Chwaraeon Cymru tuag at Canolfan Tennis Arfon *(Adran Economi a Chymuned).* | 15 |
| • Grant Cronfa Gylchol trwy law Menter Môn tuag at Pwll Nofio Arfon *(Adran Economi a Chymuned).* | 26 |
| • Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 1,443 |
| • Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 413 |
| • Grant Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail bwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 205 |
| • Grant Cyfalaf 20 milltir yr awr a Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 80 |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 2,940 |
| • Grant o'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth (RRF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 275 |
| • Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 160 |
| • Grant a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru , Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) a Partneriaethau Natur Lleol tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 395 |
| • Grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 146 |
| • Grant Tirweddau Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru tuag gynlluniau yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn *(Adran Amgylchedd).* | 195 |

| | |
|---|---|
| • Grant Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phwyntiau solar *(Adran Amgylchedd).* | 105 |
| • Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 225 |
| • Cyfraniad Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y cynllun prynu tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 500 |
| • Grant cynllun "Enable" gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 350 |
| • Grant Ynni Cymru gan Lywodraeth Cymru tuag at fatris trydanol a gwaith ym Mhlas Ogwen *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,972 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau *(Adrannau Addysg; Economi a Chymuned; Amgylchedd).* | 36 |
| **Cronfa Cyfalaf** | |
| • Addasiadau ar amrywiol gynlluniau i sicrhau'r Cynllun Rheolau Asedau yn cyd-fynd o ran cynlluniau a phroffilio diwygiedig yn dilyn llithriadau o 24/25. Proffiliau nifer o gynlluniau wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf *(Adrannau Addysg; Oedolion, Iechyd a Llesiant; Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Tai ac Eiddo).* | (2,743) |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Addasiadau ar amrywiol gynlluniau i sicrhau'r Cynllun Rheolau Asedau yn cyd-fynd o ran cynlluniau a phroffilio diwygiedig yn dilyn llithriadau o 24/25. Proffiliau nifer o gynlluniau wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf *(Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant; Tai ac Eiddo).* | (1,555) |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | 542 |

| | |
|---|---|
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).* | 283 |
| • Cyfraniad y Gronfa Hinsawdd tuag at gynllun Gwefru Gwynedd ac uwchraddio goleuadau mewn sefydliadau *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Tai ac Eiddo ).* | 496 |
| • Cyfraniad tuag at brosiectau gwledig a gwastraff *(Adran Amgylchedd).* | 124 |
| • Cyfraniad tuag at y Prosiect Swyddfeydd (*Adran Tai ac Eiddo).* | 126 |

----------------------------

**ATODIAD 2**

**Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hailbroffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2025/26<br>£'000 | 2026/27 - 2027/28<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (4,507) | 4,507 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,048) | 1,048 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (3,450) | 3,450 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (136) | 136 |
| Sefydliadau Plant *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)* | (764) | 764 |
| Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,200) | 1,200 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth a Gwelliannau Trefol *(Adran Amgylchedd)* | (188) | 188 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,048) | 1,048 |
| Cynlluniau Mân-ddaliadau *(Adran Tai ac Eiddo)* | (50) | 50 |

**Noder :**

Ni fydd yr ailbroffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ailbroffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD 3**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2025/26**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2025/26 £'000** | **GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2025 £'000** |
|---|---:|---:|
| Addysg | 16,301 | 3,224 |
| Amgylchedd | 10,106 | 805 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 1,130 | 230 |
| Economi a Chymuned | 26,964 | 2,592 |
| Tai ac Eiddo | 28,314 | 3,986 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,701 | 645 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,731 | 1,202 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,161 | 2,834 |
| Corfforaethol | 295 | - |
| **CYFANSWM** | **100,703** | **15,518** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (15%) yn debyg i’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2024/25 yn 15%), ac yn uwch na dwy flynedd yn ôl (11% yn 2023/24).

**ATODIAD 4**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Cod Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2024/25 £m** | **Amcan 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 85.0 | 101.1 | 33.9 | 19.1 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol | 5.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **90.3** | **101.1** | **33.9** | **19.1** |

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 179.9 | 196.2 | 198.0 | 195.5 |

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** | **Dyled ar 31.08.2025 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 98.2 | 78.1 | 72.7 | 70.7 | 98.2 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 179.9 | 196.2 | 198.0 | 195.5 | |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | Uchafswm Dyled 2025/26 £m | Dyled ar 31.08.2025 £m | Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m | Ffin Gweithredol 2025/26 £m | Wedi cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 93.0 | 93.0 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 5.2 | 5.2 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | **98.2** | **98.2** | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | Gwir 2024/25 | Amcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu (£m) | 8.5 | 10.2 | 10.6 | 10.7 |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.5% | 2.9% | 2.9% | 2.9% |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 9fed o Hydref 2025 |
| **TEITL YR EITEM** | HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/25 |
| **AMCAN** | Cyflwyno drafft o ddogfen Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2024/25 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion. |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

## 1. CEFNDIR

1.1. Dyma adroddiad sy'n cyflwyno Hunanasesiad y Cyngor gan edrych yn ôl ar 2024/25 **(Atodiad 1).** Nodir fod yr hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2. Yn ôl yr arfer bydd yr Hunanasesiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei fabwysiadu hefo Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25 (ac Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2024/25). Mae'r 2 ddogfen hon wedi eu cynnwys er gwybodaeth i chi fel atodiadau 2 a 3 **ond nid oes disgwyl i chi gynnig sylwadau/argymhellion arnynt.**

1.3. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor ac yn amlinellu cryfderau a risgiau o dan bob maes ynghyd a'r materion y byddwn yn rhoi sylw iddynt

1.4. Noda canllawiau statudol fod angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses hunanasesu gan roi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd yn y gorffennol i gael eu cynnwys yn gynt yn y broses bu cyfle i aelodau'r pwyllgor gynnig sylwadau ac argymhellion ar y materion drafft oedd i'w cynnwys o fewn yr hunanasesiad yn eu cyfarfod ar yr 22ain o Fai 2025.

## 2. HUNANASESIAD O BERFFORMIAD Y CYNGOR

2.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli'r ddyletswydd a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

2.2. Golyga hyn bod yn rhaid i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn

cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion i. a ii

2.3. Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac yn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda rydyn ni'n gwneud?
- Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

2.4. Fel y nodwyd eisoes mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau'r gwaith "cyn gynted ag bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."

2.5. Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a'r undebau llafur. Dylid defnyddio'r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Dros y flwyddyn diwethaf bu i'r Cyngor gynnal arolygon gyda staff a thrigolion y Sir ac ymgynghori hefo undebau llafur ynghylch ei berfformiad. Ceir crynodeb o'r ymateb a dderbyniwyd i'r amrywiol ymgynghoriadau yr ydym wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 5, 6 a 7 yr hunanasesiad (Atodiad 1).

2.6. Mae'r Cyngor eisoes yn casglu llawer o'r dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Nodir hefyd fod yna gyswllt agos rhwng y ddogfen hon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ôl ym mis Medi. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cadw'r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o'r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

2.7. Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r broses hyn o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

2.8. Fel y nodir uchod mae angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion fel yr amlinellir yn y blwch isod (sydd wedi ei dynnu'n uniongyrchol o'r ddogfen).

| **Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor** |
|---|
| *Para 2.40 Mae'n rhaid i'r Cyngor drefnu bod drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'n rhaid i'r pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd.* |

*Para 2.41 Os na fydd y Cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.*

2.9. Yn dilyn cais gan aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael eu cynnwys yn gynt yn y broses yn y gorffennol cyflwynwyd y prif faterion y bwriadwyd eu cynnwys o fewn yr hunanasesiad ar gyfer 2024/25 i gyfarfod o'r Pwyllgor ar y 22ain o Fai. Mewn ymateb awgrymwyd fod angen rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Cynllun Penrhos - angen pwyslais ar ddatblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos ac nid tai yn unig
- Strategaeth Llifogydd – ystyriaeth i'r brif ffordd A499
- Effeithiau Erthygl 4
- Dyfodol Cynllun ARFOR – sicrwydd parhad i'r Cynllun
- Trefniadau Diogelu Ysgolion – angen sylw pellach

Mae sylw wedi ei roi i'r pwyntiau hyn o fewn y fersiwn drafft o'r hunanasesiad sydd wedi ei atodi (Atodiad 1).

2.10. Byddai peidio â chyhoeddi Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da'r Cyngor.

2.11. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor hwn yn y gorffennol mae angen cynnal Asesiad Perfformiad Panel o leiaf **unwaith** o fewn cylch etholiadol. Bydd yr Asesiad (fydd yn cynnwys aelodau annibynnol) yn digwydd o fewn y Cyngor ym mis Mawrth 2026 ac mae'n gysylltiedig a'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

**3. CAMAU NESAF**

3.1. Bydd drafft o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad, ynghyd â unrhyw sylwadau neu argymhellion gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 11eg o Dachwedd ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ar y 4ydd o Ragfyr, 2025.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr Adroddiad Hunanasesiad drafft ar gyfer 2024/25 sy'n ymddangos yn Atodiad 1 a chynnig unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau os oes rhai.

**Atodiad 1 – Adroddiad Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 (Drafft)**

**Atodiad 2 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024/25 (Drafft)**

**Atodiad 3 - Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 (Drafft)**

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2024/25

## Cefndir a Chyflwyniad

Dyma'r pedwerydd hunanasesiad i Gyngor Gwynedd ei gynnal dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Eleni, am y tro cyntaf, rydym yn ystyried y tri chwestiwn yma yng nghyd destun cryfderau a gwendidau pob un o'r meysydd yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y Cynllun 5 mlynedd hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028, felly mae ystyried y tri chwestiwn uchod wrth fanylu ar ein prif gryfderau a gwendidau yn ddull addas ac effeithiol o daflu golau ar berfformiad y Cyngor.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith *Ardal Ni* sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Y Grŵp Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Mae'n fwriad gan y Cyngor i gynnal Asesiad Perfformiad Panel, fydd yn cynnwys aelodau annibynnol. Yn wreiddiol bwriadwyd gwneud hyn fis Tachwedd y llynedd, ond oherwydd y newidiadau gwleidyddol fu yn y Cyngor newidiwyd hyn i fis Mawrth 2026. Mae angen cynnal Asesiad Panel o leiaf unwaith o fewn cylch etholiadol ac mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

Mae ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad wedi bod yn eu lle ers sawl blwyddyn bellach. Cynhelir y cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma ar lefel Adrannol bob yn ail fis, a maent yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor, perfformiad gwasanaethau (sef y gwaith 'dydd i ddydd'), a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor yma: Mesur Perfformiad. Er mwyn cryfhau hyn ymhellach yn y dyfodol, bydd addasiadau i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad o Ebrill 2025 ymlaen gyda threfn i adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Craffu, fydd yn arwain at mwy o fewnbwn i'r broses gan aelodau.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2024/25 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Yr hunanasesiad ar gyfer 2021-22 oedd ein hasesiad cyntaf a rhoddwyd camau mewn lle er mwyn cyfarch y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Gwelwyd bod rhai o'r gwelliannau hynny yn parhau yn asesiad 2022-23 ac yn 2023-24 gan eu bod yn faterion hirdymor, ond ategwyd nifer o bwyntiau ychwanegol hefyd. Eleni, gwelir y patrwm yn parhau, gyda'r materion hirdymor yn ail-ymddangos ond gydag ystyriaethau newydd yn cael eu hychwanegu yn ogystal.

Mae'r ddogfen hon felly yn grynodeb lefel uchel o berfformiad y Cyngor yn ystod 2024/25, wedi ei gategoreiddio fel cyfres o Gryfderau a Risgiau dan bob maes blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a welir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cryfderau yn seiliedig ar:

- uchafbwyntiau yr adroddiad perfformiad blynyddol
- adborth sydd wedi ei dderbyn gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn etc.)
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

Mae'r Risgiau yn seiliedig ar:

- ein prif risgiau fel a nodir yn y gofrestr risg corfforaethol
- materion wedi eu hadnabod gan gyrff archwilio allanol
- materion eraill yr ydym wedi eu hadnabod a'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

Mae'n bwysig nodi fod nifer fawr o'n cryfderau wedi eu cynnwys yn rhannau eraill yr adroddiad blynyddol, yn enwedig ble mae nhw'n ymwneud â phrosiectau Cynllun y Cyngor

DRAFT

a'n gwaith dydd-i-ddydd. Er mwyn osgoi ail-adrodd, nid ydym (gan amlaf) yn eu rhestru yn yr Hunanasesiad hefyd. I'r darllenydd, bydd ystyried y ddwy ddogfen (yr Adroddiad Blynyddol a'r Hunanasesiad) gyda'i gilydd yn rhoi darlun llawnach o berfformiad y Cyngor dros y cyfnod dan sylw.

Er bod nifer o'r blaenoriaethau yn cynnwys cyfrifoldebau traws-adrannol, dylid nodi fod 'Gwynedd Effeithlon' yn llawer mwy corfforaethol ei natur gan fod nifer o'r cryfderau a'r gwendidau sydd i'w gweld yma yn rhai sefydliadol. Mae'r flaenoriaeth yma ychydig yn wahanol i'r gweddill felly, sy'n fwy tueddol o adlewyrchu cryfderau a gwendidau adrannol.

## Gwynedd Effeithlon

### Cryfderau

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddygymod gyda chyfnodau o lymder/diffyg arian yn effeithiol, ond mae'r sefyllfa yn dod yn gynyddol anoddach wrth i'r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth leihau. Mae'r Cyngor yn pryderu yn fawr am y pwysau mae hyn yn ei roi ar drigolion y sir i gwrdd â'r cynnydd yn y Dreth Cyngor, ynghyd â gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau digonol i boblogaeth Gwynedd o fewn ein cyllideb.
- Trefniadau Llywodraethu corfforaethol da. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n swyddogaethau yn effeithiol, rydym yn gosod mesurau perfformiad mewn lle er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn adolygu'r mesurau hyn o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn ymwybodol o'r angen i herio ein hunain yn barhaus a gosod mesurau sydd yn ystyrlon er mwyn ein caniatáu ni i wella yn gyson. Rydym yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt y gwaith o flaengynllunio llif gwaith manwl dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o'r prosiectau er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae Canllaw i'r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu er mwyn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.
- Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).
- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am adolygu ac asesu'r ymateb ynghyd â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.



DRAFT

- Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Mae prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- Mae'r Cyngor wedi comisiynu *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gyda'r bwriad o roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig unrhyw argymhellion i wella. Bydd yn rhoi sylw penodol i:
    i. Gynnal adolygiad trwyadl o'n trefniadau presennol gan gynnwys ein trefniadau llywodraethiant a threfniadau ariannol.
    ii. Adolygu ein trefniadau llywodraethiant yng nghyd-destun y Cyfansoddiad presennol er mwyn asesu os yw'n addas i bwrpas.
    iii. Asesu os yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyflawni ei bwrpas.
    iv. Adnabod sut rydym yn cyrraedd yr ystod llawn o ofynion statudol wrth wneud penderfyniadau, e.e. Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Y Gymraeg.
    v. Gwerthuso'r modd yr ydym yn adnabod ac asesu risgiau ac yn eu hadolygu a'u monitro.
    vi. Gwerthuso'r modd yr ydym yn monitro a chyflawni argymhellion i wella gan reoleiddwyr allanol a mewnol gan ddysgu gwersi ar draws y sefydliad.
    vii. Adnabod beth allwn ei wneud er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethiant i'r dyfodol.
- Rydym yn ymwybodol fod angen parhau i adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. Fel rhan o'r gwaith yma byddwn yn gwella'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i reolwyr ar reoli risg. Yn ychwanegol, rydym am adolygu i ba raddau y mae'r mesurau penodol sy'n cael eu cyflwyno er mwyn cyfarch y risg yn llwyddo i leihau risgiau yn effeithiol. Byddwn hefyd yn ystyried os y dylem ychwanegu cofnod o'r sgôr sy'n cymryd i ystyriaeth unrhyw gamau lliniaru (mitigation), yn ogystal â'r sgôr risg presennol (sy'n ganlyniad i'r *effaith x tebygolrwydd* yn unig). Bydd gwaith Archwilio Cymru i gynnal Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn ystod 2025 yn bwydo i'r gwaith yma, ynghyd ag argymhellion adolygiad *Local Partnerships*.
- Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio'r sgoriau risg llywodraethu.
- Fel rhan o'i drefniadau parhad gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi categoreiddio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail blaenoriaeth adfer ar ôl trychineb. Bu i hyn alluogi'r sefydliad flaenoriaethu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 gan sicrhau parhad gwasanaethau 'hanfodol'. Mae gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob 3 mis. Yn ystod 2025/26 byddwn hefyd yn adrodd ar y risgiau hyn

i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth ddwywaith y flwyddyn (mis Medi a Chwefror).

- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2024/25, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae Gwynedd yn awdurdod lletya i nifer o bartneriaethau gwahanol, ac mae'n darparu cefnogaeth effeithiol ar eu cyfer.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Yn 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i **81** o brentisiaid ers 2019 (sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill). Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant y Cynllun, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Yn yr un modd mae'r Cynllun Graddedigion (sef Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i **37** hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor. Ar gyfer 2025, mae cyfanswm o 21 o swyddi newydd ar gael, sef 13 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel Ynni a gweithio gyda Chynghorwyr, i rhai sefydlog megis Peirianneg Meddalwedd, Cyllid a Phensiynau a Mecanic, i enwi dim ond rhai.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2024 yn ystod cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol' yn dilyn y pandemig. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ond mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 87% ar gyfer "Rydw i wedi fy ysgogi i wneud fy ngorau yn fy swydd er lles pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth a Fi a'm Cyflogwr. Gwelwyd fod rhai o'r themâu ddaeth i'r amlwg y llynedd yn cael eu hailadrodd, yn enwedig materion yn ymwneud â derbyn gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth, ac mae'r rhain yn parhau yn bwyntiau i'w gwella. Mae mwy o staff hefyd yn mynegi pryder am bwysau gwaith, sydd o bosib yn ganlyniad i'r wasgfa ariannol sydd wedi wynebu'r cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn hefyd yn derbyn sylw pellach.

DRAFT

Cwblhaodd 1,330 o staff yr holiadur Llais Staff, sef tua 21.8% o'r staff gafodd gyfle i ateb yr arolwg. Nododd **50.6%** eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.**

Roedd **40.9%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo**, ac roedd **48.6%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio yn effeithiol.**

- Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur gan ofyn iddynt am adborth ar y meysydd canlynol:
  - Sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd i'w gwella
    - A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?
    - A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo?
    - A oes gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio'n effeithiol?
  - Awgrymiadau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff

Ymhlith yr ymatebion, nodwyd fod lle i wella'r cyfathrebu gydag undebau ynglŷn a materion staffio mewn rhai adrannau, ac roedd cydnabyddiaeth fod gennym rywfaint o ffordd i fynd o ran Partneriaeth Gymdeithasol (pan mae grwpiau fel llywodraeth leol, busnesau ac undebau llafur yn cydweithio i wneud penderfyniadau), gan fod hon yn broses o ddysgu.

- Mae'r Cyngor yn casglu barn pobl y sir mewn sawl ffordd wahanol er mwyn gwella gwasanaethau a hefyd er mwyn cwrdd y gofyniad cyfreithiol sydd ar gynghorau i ymgysylltu â phreswylwyr dan wahanol ddeddfau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eleni, roedd Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru. Er ein bod yn sylweddoli cyfyngderau arolwg o'r fath, mae'n fodd ychwanegol o gasglu barn a byddwn yn triongli'r canfyddiadau gyda data a gwybodaeth eraill a gesglir gennym er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol. Un fantais benodol gyda'r arolwg hwn yw ei fod yn caniatáu i ni gymharu ein canlyniadau gyda chynghorau eraill, rhywbeth na fu'n bosib gydag arolygon mewnol yn unig. Cafwyd 3,094 o ymatebion i'r arolwg ac mae'r canlyniadau yn cynnwys:

  i. Canran yr ymatebwyr sy'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau:

  Gwynedd: 31% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

  ii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

  Gwynedd: 55% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

  iii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth da am arian (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

  Gwynedd: 43% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

O ran canlyniadau eraill a welir yn yr arolwg mae:

iv. Canran yr ymatebwyr sy’n credu’n gyffredinol bod y cyngor yn cymryd barn preswylwyr i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 27% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

v. Canran yr ymatebwyr sy’n credu’n gyffredinol bod y cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr lleol (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 30% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vi. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu’n gryf bod cysylltu a’r cyngor yn syml:

Gwynedd: 50% (1af yng Nghymru o’r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vii. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu’n gryf bod cael gafael ar wybodaeth gyfredol am wasanaethau’r cyngor yn hawdd

Gwynedd: 45% (1af yng Nghymru o’r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

viii. Canran yr ymatebwyr sy’n ymddiried yn y cyngor cryn dipyn neu’n fawr iawn

Gwynedd: 37% (cyd 3ydd o’r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

- Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau. Mae’r nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi gostwng eleni o’i gymharu a llynedd, ond mae’r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi cynyddu. Rydym yn dal i weithio ar leihau’r amser a gymerir i ymateb i gwynion, ac yn anelu i’r Siarter Cyswllt Cwsmer newydd sydd yn cael ei datblygu gael effaith bositif ar hyn.
- Rydym yn ymwybodol o’r angen i fod yn wyliadwrus i osgoi ‘blinder ymgynghori’ (‘consultation fatigue’) gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol, ac o ganlyniad mae gennym Grŵp Ymgysylltu traws adrannol sy’n cyfarfod i gasglu gwybodaeth am ymgynghoriadau arfaethedig, ac i rannu canlyniadau ac arfer dda. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod digon o amser i gynllunio ymgynghoriadau ac yn osgoi dyblygu.
- Mae’r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael. Nod y tîm yw galluogi’r Cyngor i gyflawni gwerth am arian, cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi’r farchnad leol. Mae yna hefyd drefniadau Rheolaeth Categori yn ei le, ble mae tri Tîm Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn gyfrifol am bryniant mewn meysydd penodol gan edrych ar gaffael yn strategol, rhoi pwyslais ar gydweithio, a cynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad i geisio sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian.
- Mae’r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu’r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei chael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.
- Yn 2024/25 mi ddaru’r Cyngor gyrraedd rhestr fer gwobr caffael Cymru (GO Awards). Mae’r enwebiad am ein hymdrechion i geisio ennill gwerth cymdeithasol wrth gaffael ein darpariaeth bwyd ar draws y Sir.

DRAFT

- Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y Rheoliadau Caffael Cenedlaethol Newydd, sef y Ddeddf Caffael 2023. Mae'r Tîm Caffael Canolig a'r Tîm Categori wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y trefniadau a systemau gwaith newydd. Mae yna ddisgwyl bydd y Ddeddfwriaeth caffael newydd yn annog sefydliadau cyhoeddus i rannu'r hyn maent yn bwriadu caffael i'r dyfodol agos gan hefyd ddilyn trefniadau caffael fwy syml a thryloyw.
- Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgil unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i asesu'r effaith amgylcheddol a cheisio lleihau ôl-troed carbon, bydd helpu busnesau gyda'r trefniadau caffael newydd yn flaenoriaeth flwyddyn nesaf.
- Mae cryn waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i sicrhau/cadarnhau dealltwriaeth ymhlith ein rheolwyr mai'r naw ffrwd gwaith sydd o fewn cynllun Ffordd Gwynedd yw mewn gwirionedd ein cynllun datblygu sefydliad. Dyma'r cynllun sydd yn gweithio tuag at sicrhau fod gennym weithlu bodlon ac iach, sydd yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i'n galluogi i ddatblygu'r diwylliant i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Rydym wedi bod yn gweithio ar gyrsiau / e-fodiwlau y gall rheolwyr eu defnyddio gyda'u timau i sicrhau eu dealltwriaeth hwythau o'r diwylliant a geisir, ac i'w cefnogi trwy y broses o gynnal adolygiadau gwasanaeth Ffordd Gwynedd. Rydym eisoes wedi cychwyn treialu rhai o'r cyrsiau gyda grwpiau bach o staff ac wedi derbyn adborth positif.
- Dyma'n gryno y cynnydd amlycaf yn ystod ail flwyddyn Cynllun Ffordd Gwynedd.

  **Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella** - Mae'r pwyslais yn y Cynllun cyfredol ar gynnal adolygiadau ar ddarnau llai o systemau gwaith, yn ogystal a chynnal adolygiadau ar systemau cyfan, wedi dwyn ffrwyth ac mae pob Adran yn y Cyngor yn gallu darparu enghreifftiau o adolygiadau sydd wedi arwain at welliannau yn ystod y flwyddyn.

  **Arweinyddiaeth** - Mae rhaglen hyfforddiant Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd wedi'i hail-gyflwyno ar gyfer rheolwyr yn ystod y flwyddyn tra bo'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn mynd o nerth i nerth gyda'r adborth cadarnhaol gan fynychwyr.

  **Cefnogi a Datblygu** - Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi'i lawnsio gyda'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol. Mae'r Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth, Rhaglen Datblygu Rheolwyr a'r Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth yn parhau i arddangos eu gwerth gyda nifer fawr o swyddogion yn awyddus i gofrestru ar bob achlysur pan fo cyfres newydd yn cael ei chyhoeddi.

  **Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent** - Mae saith ffrwd gwaith wedi'u hadnabod ar gyfer gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Maent yn amrywio o fod yn cynnal ymarferiad "Ffordd Gwynedd" ar yr holl broses o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, i'r angen am sefydlu cynlluniau hyfforddi penodol sydd yn cyfarch sgiliau ac arbenigeddau prin, yn ogystal a'r ymddygiadau priodol, sydd yn angenrheidiol i barhad gwasanaeth yn y dyfodol.

**Gweithlu Bodlon ac Iach** - Cymeradwywyd Strategaeth Llesiant newydd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar yr 17 o Ragfyr, 2024. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dair sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy, ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i'r hyn a geisir ei gyflawni.

**Cyswllt a'r Cwsmer -** Sefydlwyd Grŵp traws-adrannol i lunio Siarter a Safonau Cyswllt Cwsmer. Bydd y Siarter hwnnw, yn ei ffurf drafft terfynol, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu ar yr 8 o Orffennaf, 2025. Bu ymgynghori cynhwysfawr ar gynnwys y Siarter ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mae yma enghraifft dda o geisio barn ar ddatblygiadau gyda staff.

- O safbwynt gweithgareddau mewnol y Cyngor, mae gennym drefniadau ymgysylltu a chyfathrebu da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu'n ganolog efo staff mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys bwletin staff wythnosol, Grŵp Facebook staff, y mewnrwyd, hunanwasanaeth staff, cylchgrawn Gair o Gyngor, ymweliadau staff rheng flaen a sesiynau cwestiwn ac ateb gyda'r Prif Weithredwr. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithgareddau cyfathrebu adrannol a rheolaethol yn digwydd yn rheolaidd.
- Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2024/25 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn saith maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
- Yn ogystal â hyn roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn sawl maes arall ynghyd â chyfle i bob Cynghorydd dderbyn cyfweliad datblygiad personol er mwyn adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio. Ymhellach, cynhelir sesiynau briffio i'r aelodau hefyd, sy'n gyfle i gyflwyno diweddariad ar faterion o bwys e.e. pan fo newidiadau mewn deddfwriaeth ayyb.
- Rydym fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. I'n cynorthwyo gyda hyn, yn 2023 cymeradwywyd Cynllun Digidol newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2023-28. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn cyd-redeg efo cyfnod Cynllun y Cyngor (yn yr un modd ag y mae cyfnod Cynllun Ffordd Gwynedd). Mae cyllid wedi'i sicrhau er mwyn gyrru rhaglen waith dwy flynedd cyntaf y Cynllun Digidol a sawl blaenoriaeth bellach ar waith.
- Atgyfnerthwyd y tîm seibr drwy ddyrchafu prentis i rôl barhaol gyda'r Cyngor, cefnogwyd dau brentis gradd gwyddor data, a gwnaethpwyd datblygiadau helaeth ar y prosiectau system ffôn integredig, system rheoli'r sefydliad ac uwchraddio

llinellau analog i ddigidol yn ystod 2024/25. Bydd nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod 2025/26, gyda'r system ffôn integredig yn brysur ddatblygu ac wedi ei chyflwyno mewn amryw fan yn barod. Prosiect arall fydd yn gweld twf sylweddol eleni yw'r system rheoli sefydliad a disgwylir y bydd system newydd yn ei lle ar gyfer talu cyflogau a gweinyddu materion Adnoddau Dynol yn ystod 2026/27. Gwelir datblygiad cyson a pharhaus gydag uwchraddio ein llinellau analog a bydd hyn yn parhau hyd ddiwedd 2026 a gobeithiwn groesawu Hyfforddai Trawsnewid Digidol newydd i'r Cyngor yn ystod yr haf a hynny drwy raglen hyfforddai a phrentisiaethau'r Cyngor.

**Risgiau**

- Mae gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 25/26 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25. Bryd hynny gwelwyd gorwariant adrannol o £6.6m gyda gorwariant sylweddol yn Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Priffyrdd, Peirianneg ac YGC ac Amgylchedd.
- Cyflwynwyd rhaglen arbed newydd fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a chytunodd y Cyngor ar raglen arbedion gwerth £650,000 wrth osod cyllideb 2025/26 yn ychwanegol i arbedion o £6.4miliwn wrth osod cyllideb 2023/24, ac arbedion pellach o £5.2miliwn wrth osod cyllideb 2024/25. Cymeradwyodd y Cabinet 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig' ar gyfer Cyngor Gwynedd hyd at flwyddyn ariannol 2027/28 ym mis Mai 2024. Fel rhan o'r Cynllun yma, sefydlwyd ystod o fesurau a phecynnau gwaith i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yng nghyllideb y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf, o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Cyflwynwyd fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2028/29) i'r Cabinet ar y 16eg o Fedi, 2025.
- Yn ystod 2024, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan gynnwys ffocws ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau yn y cyllid ac ymdrin â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer yr adrannau yn y Cyngor a orwariodd yn y ddwy flynedd ariannol diwethaf, a bod y Cyngor wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau.
- Mae adolygiad mewnol ar y gweill i wella'n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu'r cyfraddau casglu yn y dyfodol. Bydd y gwaith yma yn parhau i dderbyn sylw dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw cynnar yn y dyfodol, a byddwn yn edrych i adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor, gyda sawl Aelod Cabinet newydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws amryw feysydd. Yn ogystal, disgwylir penodiadau i swyddi uwch swyddogion dros y misoedd nesaf. Gall y newidiadau hyn beri heriau o ran arweinyddiaeth gyson ac achosi oedi wrth wneud penderfyniadau strategol, ond rydym yn cydnabod hyn ac yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater yn briodol.

- Mae trafferthion recriwtio i swyddi mewn rhai meysydd allweddol fel gofal cymdeithasol ac addysg yn gallu peryglu parhad gwasanaeth. Mae'r pryder am hyn wedi arwain at greu prosiect arbennig yng Nghynllun y Cyngor - 'Cynllunio'r Gweithlu' - fydd yn mynd i'r afael â'r her ac yn cynnig amrywiaeth o ddatrysiadau. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi nodi yn y gorffennol y dylid ystyried rhoi cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Asesiad Perfformiad Panel. Wedi ail-drefnu'r dyddiad ar gyfer yr Asesiad gan Banel, mae'n debygol y bydd hyn yn derbyn ystyriaeth bellach cyn eu hymweliad fis Mawrth 2026. Yn ogystal, bydd Archwilio Cymru yn cynnal astudiaeth ar 'Ymateb i bwysau ar y gweithlu mewn llywodraeth leol' yn ystod 2025/26.
- Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi bod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu a byddwn, gyda chefnogaeth Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector, yn edrych ar hyn eto yn ystod 2025/26.
- Mae'r gwaith o sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd yn parhau. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion, ac mae'r gwaith yma yn parhau.
- Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2023. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd gyllidol heriol tu hwnt. Er bod ystyriaeth wedi ei roi i'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r hyn sydd o fewn y Cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu, mae'r sefyllfa gyllidol wedi newid yn sylweddol ers hynny, ac os yw'r wasgfa ariannol yn parhau, gall olygu y bydd rhaid i'r Cyngor addasu neu leihau ein gweledigaeth ac o ganlyniad nifer y prosiectau y byddwn yn medru eu cwblhau yn llawn o fewn y cyfnod.
- Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd ac adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid adran). Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.
- Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae'r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi'n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant.

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.

## Gwynedd Ofalgar

### Cryfderau

- Adolygiadau Statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol.
- Gwelliant mewn canlyniadau i bobl sy'n cael gofal cartref o ganlyniad i ddefnydd o dechnoleg a dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth. Mae bron i ddwy ran o dair o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach.
- Datblygiadau cynllunio strategol - Llechen Lân wedi ei gyhoeddi ac i-Lechen ar waith.
- Fel rhan o'r Rhaglen Waith Gofal Cartref mae sylw penodol ar ddatblygu systemau gwybodaeth a data addas a phriodol, a sicrhau perchnogaeth a rheolaeth i'r rolau mwyaf perthnasol a gweithredol yn y maes/system gofal cartref.
- Yn dilyn yr Ymweliad Gwiriad Gwella a gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru yn Hydref 2024, nodwyd: "Mae gweithlu proffesiynol cyfan y gwasanaeth o ran gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'n dibynnu ar staff asiantaeth ac yn cynnig gwasanaeth mwy cyson i bobl. Mae pobl hefyd yn cael budd o weithlu proffesiynol sy'n gallu cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg."
- Rydym yn cyflogi ymarferydd penodol i gefnogi a hyfforddi pobl i sefydlu busnesau micro, a mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi bod hyn yn arfer da, gan ychwanegu: "Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i waith i hyrwyddo'r opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael gan gynnwys nifer y micro-ofalwyr sydd ar gael, yn unol â'i ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol."
- Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu Hymweliad Gwiriad Gwella (Hydref 2024):
  - Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn darparu arweinyddiaeth sefydlog, a dywed yr ymarferwyr eu bod yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.
  - Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig ac yn rhagori ar y disgwyliadau o ran cefnogi pobl. Mae'n amlwg eu bod yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn.
  - Yn gadarnhaol, fel y nodwyd yn yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf, mae'r ymarferwyr yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Nododd 94% o'r ymarferwyr a gwblhaodd ein harolwg eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u harweinwyr.



DRAFT

- Adolygwyd cyllidebau adrannol er mwyn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, ac i ddelio gyda diffygion cyllidebol hanesyddol mewn rhai adrannau (e.g. gwasanaethau cymdeithasol). Bwriad hyn yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2026/27.

**Risgiau**

- Os nad oes darpariaeth gofal cartref, cartrefi preswyl a nyrsio digonol ac effeithiol, gallai hynny arwain at niwed, mwy o anghenion a chostau ychwanegol. Ymysg y camau rydym yn eu cymryd i ddelio efo hyn, mae prosiect newydd yng Nghynllun y Cyngor – Llechen Lân – sydd wedi dadansoddi demograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.
- Er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol mae angen i'r timau gydweithio yn amlddisgyblaethol gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal. Mae camau eisoes wedi eu cymryd i gryfhau'r partneriaethau yma er fod gwaith pellach i'w wneud, er enghraifft er mwyn datblygu'r berthynas cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ymhellach.
- Os na ellir recriwtio digon o staff, mae perygl na ellir darparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd. Rydym felly wedi adolygu cyflogau a chyflwyno prosiect Llechen Lân yn ddiweddar, yn ogystal â chyflwyno Academi Gofal er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa ac rydym yn bwriadu cymryd camau ychwanegol cyn bo hir hefyd.
- Os nad yw gwasanaethau Busnes a Chomisiynu Gofal yn effeithiol ac effeithlon, mae risg i ddiogelwch unigolion a staff, yn ogystal â risg nad ydym yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd. Mae sawl cam wedi ei gymryd er mwyn ymateb i hyn, gan gynnwys cyflwyno system gofnodi gwasanaethau cymdeithasol newydd. Fodd bynnag, er ein bod yn cyflwyno system newydd, bydd rhaid gweithio gyda'r system bresennol heb gefnogaeth am gyfnod o sawl mis. Mae hyn yn risg uchel iawn, ond yn fater cenedlaethol, ac mae gwaith yn mynd ymlaen i liniaru'r risg.
- Mewn rhai amgylchiadau penodol, gall y Cyngor awdurdodi DoLS (Deprivation of Liberty Safeguards) er mwyn amddiffyn person sydd heb allu meddyliol i dderbyn ofal neu driniaeth er mwyn eu cadw yn ddiogel rhag niwed. Mae gan y Cyngor restr aros ar gyfer asesiadau DoLS gan fod angen swyddog efo cymhwyster penodol i'w cwblhau, a bod angen eu hadolygu yn gyson. Mae risg gyfreithiol ac ariannol ynghlwm â methu gwneud yr asesiadau yn amserol, ac mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn ac yn cymryd camau i wella'r sefyllfa.
- Gallai perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol arwain at fethu darparu gwasanaethau o safon i bobl Gwynedd. Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau perthynas dda rhwng sefydliadau, ynghyd â cheisio symleiddio'r berthynas waith sy'n gallu bod yn or-gymhleth oherwydd rhwystrau deddfwriaethol.
- Byddai methu cael asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau gwaith yn gadael unigolion mewn perygl ac yn wynebu trallod iechyd meddwl heb gefnogaeth briodol.

DRAFT

- Mae cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion, yn arwain at bwysau cyllidebol a risg o orwariant.
- Rhagamcanir y bydd poblogaeth Cyngor Gwynedd yn cynyddu 5% rhwng 2024 a 2043 o 125,900 i 132,200, gan gynnwys cynnydd a ragwelir o 3% yn nifer y plant, cynnydd o 1% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 16% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd.
- Angen gwella'r data a gesglir am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl, fel y nododd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu Hymweliad Gwiriad Gwella (Hydref 2024): “Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i asesu a oes angen gofal a chymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol y bydd angen gofal a chymorth arno yn y dyfodol) ac os felly, pa anghenion sy'n debygol o fod ganddo.”

## Gwynedd Yfory

### Cryfderau

- Mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gryf yn gyffredinol.
- Cymorth o ran bodloni anghenion dysgwyr/darpariaeth y Gymraeg – gan gynnwys y gyfundrefn Addysg Drochi.
- Mae’r awdurdod yn hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion yn gadarn.
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, ac yn benodol ardal Bangor, Cricieth a Bontnewydd ac rydym wedi cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i’n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd. Mae adeilad a champws newydd ar gyfer Ysgol Treferthyr yng Nghricieth wedi agor ei drysau i ddysgwyr ddechrau mis Medi 2024. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o waith, a buddsoddiad o dros £8m er sicrhau amgylchedd dysgu ac adnoddau o’r radd flaenaf i hyd at 150 o ddysgwyr yr ardal. Yn ogystal, mae darpariaeth gofal plant ar y safle, ynghyd ag Uned ABC.

### Risgiau

- Mae newidiadau yn nemograffeg y sir yn effeithio hyfywdra’r gyfundrefn ysgolion presennol, ac yn cynyddu’r diffyg tegwch sy’n bodoli oherwydd yr amrywiaeth sylweddol yng nghost y pen fesul disgybl.
- Mae angen gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn bryder yn dilyn y cwymp fu yn sgil y pandemig. Mae presenoldeb hefyd yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth ac Estyn. Byddwn yn cyflwyno Strategaeth Presenoldeb yn 2025 ac rydym wedi cryfhau ein prosesau drwy wella’r systemau ar gyfer targedu presenoldeb. Rydym hefyd wedi gwneud defnydd o grantiau Llywodraeth Cymru i wella capasiti ac ymgyrch i wella presenoldeb.
- Rydym am gryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. Rydym wedi creu cynllun newydd ar gyfer Medi

DRAFT

2025,  sef creu Uned Cyfeirio Disgyblion aml safle i roi cefnogaeth lefel uchel i rai disgyblion a chryfhau'r gefnogaeth ar gyfer y dysgwyr hyn yn ein hysgolion.

- Newid sylfaenol yn y gefnogaeth gwella ysgolion yn sgil dod â GwE i ben. Gyda newid mor fawr mae'n anorfod y gall effeithio ar ansawdd y gefnogaeth o ran gwella ysgolion ac i safonau.
- Darparu cefnogaeth o safon i ysgolion sydd mewn categori dilynol yn dilyn archwiliadau Estyn.
- Yn ystod y flwyddyn, cafwyd achosion difrifol o droseddu yn erbyn plant, gan gynnwys achos amlwg lle cafodd cyn-bennaeth Ysgol Friars, Neil Foden, ei arestio a'i ddedfrydu i 17 mlynedd o garchar am droseddau rhywiol yn erbyn disgyblion. Mae'r achos hwn wedi amlygu methiannau sylweddol yn systemau diogelu'r cyngor dros gyfnod o flynyddoedd.
- Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu, comisiynu adolygiadau annibynnol, a chyfrannu at Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol dan arweiniad cadeirydd annibynnol. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg hefyd wedi lansio adolygiad o drefniadau diogelu mewn ysgolion ledled Gwynedd, gyda'r nod o wella safonau a sicrhau diogelwch plant. Disgwylir i'r adolygiad ffurfiol gyflwyno gwersi ac argymhellion yn ystod haf 2025.
- Mae risg sylweddol y gall methu â sicrhau bod trefniadau diogelu mewn ysgolion yn bodloni'r safonau uchaf, neu fethu â gweithredu gwersi'r adolygiad, arwain at fethiannau parhaus mewn diogelu, niwed i blant a phobl ifanc, colli ymddiriedaeth y cyhoedd, canlyniadau cyfreithiol, a straen ar adnoddau'r cyngor.

## Gwynedd Lewyrchus

### Cryfderau

- Fel rhan o Fframwaith Adfywio newydd, mae Cynllun Adfywio Lleol wedi'i baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y Sir. Mae'r cynlluniau yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol amlygwyd yn ystod ymgynghoriad 'Ardal Ni' gyda thrigolion Gwynedd. Mae'r Cynlluniau Adfywio Lleol yn ymgorffori prosiectau sydd yn cael eu datblygu gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau sydd yn weithredol yn yr ardal ac yn cyfrannu at wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.
- Datblygwyd 'Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035' ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o weithredu, cefnogi a mesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar yr ardal.
- Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sylweddol o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ARFOR i gryfhau economi Gwynedd. Gyda'n partneriaid rydym wedi dyrannu £24.4 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynlluniau sydd wedi cyfrannu tuag at gryfhau economi Gwynedd, gwella sgiliau a chreu balchder yn ein cymunedau. Mae dros 960 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn cymorth gan greu neu warchod bron i 300 o swyddi, ac mae dros 700 o bobl wedi cael cymhwyster newydd.

- Mae Cynlluniau Canol Tref wedi eu creu ar gyfer sawl tref yng Ngwynedd. Pwrpas y rhain ydi adnabod a chytuno ar gynlluniau gweithredu a gosod blaenoriaethau ar gyfer trefi unigol. Mae’r Cynlluniau Canol Tref yn rhoi sylw penodol i ardaloedd stryd fawr, gyda’r bwriad o’u gwneud yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw ac i weithio, ac i annog pobl i dreulio eu hamser a'u harian yno.
- Mae Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol wedi ei sefydlu er mwyn cyd-lynu ymdrechion gwahanol Wasanaethau’r Cyngor sydd yn delio gydag eiddo gwag. Mae’r Grŵp wedi mabwysiadu amrediad o ymyraethau – yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor technegol, cymorth ariannol, ynghyd â threfniadau gorfodaeth. Ein bwriad yw datblygu’r gwaith yma ymhellach dros y flwyddyn nesaf.
- Ers ennill statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn 2021, mae’r Cyngor a’i bartneriaid yn ceisio manteisio i’r eithaf ar y dynodiad. Mae hyn yn cynnwys prosiect Llewyrch o’r Llechi a LleCHI LleNI - cynlluniau gwerth dros £30m ac a gefnogir trwy Gyngor Gwynedd, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Amgueddfa Cymru a nifer o bartneriaid eraill - sydd eisoes ar waith i wella dealltwriaeth, balchder a chyfleoedd economaidd a chymdeithasol yn ein dyffrynnoedd llechi a ledled yr ardal.

**Risgiau**

- Daeth rhaglen ARFOR i ben ddiwedd Mawrth 2025 ac er bod rhaglen SPF wedi ei hymestyn am y flwyddyn 2025-26, mae hynny ar raddfa llai na’r hyn a welwyd yn y gorffennol. Mae ansicrwydd sylweddol yn bodoli ynghylch cyllid a gweinyddiaeth unrhyw raglenni datblygu’r economi i’r dyfodol.
- Mae risg y gallwn golli cyfle i sicrhau’r budd economaidd gorau i Wynedd drwy’r Cynllun Twf (Uchelgais Gogledd Cymru).

## Gwynedd Glyd

**Cryfderau**

- Mae’r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio’n agos gyda’i phartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd.
- Trwy’r Cynllun Prynu i Osod, mae’r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai.
- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt.
- Mae’r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy.
- Mae gwaith datblygu safle Penrhos, Pwllheli, ar ddechrau, wedi i’r Cyngor, mewn partneriaeth gyda chymdeithas dai Clwyd-Alyn, sicrhau grant ychwanegol o tua £7.7m gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu dechrau gwedd 1 y datblygiad.
- Mae’r Cyngor yn helpu nifer o drigolion y sir i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac

DRAFT

uwchraddiadau eco-gyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy'n defnyddio aer.

**Risgiau**

- Mae digartrefedd yn parhau yn her er i nifer o ymyraethau newydd gael eu cyflwyno yn ddiweddar. Byddwn yn parhau i weithredu nifer o gynlluniau uchelgeisiol gan gynnwys datblygu sawl safle ychwanegol ar draws y sir.
- Er bod llawer i'w groesawu yn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), gallai fod angen llawer o adnoddau ychwanegol i'w weithredu.
- Mae pryder nad oes gan y cyhoedd fynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai byddwn yn lansio 'Siop Un Stop' Tai yn fuan er mwyn cefnogi trigolion gyda'u hymholiadau.
- Cefnogaeth i geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol.

## Gwynedd Werdd

**Cryfderau**

- Yn gyson wedi llwyddo i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn y gorffennol.
- Wedi gosod uchelgais o fod yn garbon-sero net erbyn 2030 ac wedi mabwysiadu 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' er mwyn cwrdd â'r uchelgais.
- Strategaeth Llifogydd wedi ei mabwysiadu sy'n amlygu'r peryglon presennol ac i'r dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn y Sir a sut y bydd y risgiau yn cael eu rheoli.
- Canran yr ymatebwyr i'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol sy'n ei chael yn eithaf hawdd neu'n hawdd iawn bwcio'r ganolfan ailgylchu a gwastraff yng Ngwynedd yn 89% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg).
- Cynllun ar gyfer darparu cymorth grant er mwyn gwella perfformiad defnydd ynni mewn tai yn y sir yn cael effaith gadarnhaol.
- Wedi denu grantiau sylweddol gan y Llywodraeth i ariannu cynlluniau ynni adnewyddadwy, fflyd cerbydau trydan a phwyntiau gwefru cyhoeddus ac i'r fflyd.
- Parodrwydd i arbrofi ac arloesi - bydd grantiau Llywodraeth Cymru a chyfalaf gan y Cyngor yn ariannu prosiect peilot i drosi cartref gofal i safon Passivhaus, gan anelu i ostwng allyriadau carbon o 94%.
- Cydweithio â phartneriaid allanol – y Cyngor yn arwain Partneriaeth Natur Gwynedd.
- Yn unol â Chynllun Fflyd Werdd y Cyngor, pan fo cerbydau angen eu hadnewyddu rydym wedi bod yn trosi i gerbydau trydan ble mae hynny'n bosibl. Mae 48% o geir a faniau bychan y Cyngor bellach yn gerbydau trydan.

**Risgiau**



DRAFT

- Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 70% ac osgoi dirwy ariannol, mae angen newid ymddygiadau trigolion fel eu bod yn ailgylchu mwy ac yn lleihau y gwastraff gweddilliol sydd angen ei gasglu.
- Mae angen moderneiddio safleoedd trin gwastraff ynghyd â gwneud gwelliannau i'n canolfannau ailgylchu.
- Mae risg sylweddol yn bodoli o lifogydd o'r môr allai gael effaith niweidiol ar nifer o gymunedau megis Fairbourne.
- Methu cyflawni targedau amlder mewn perthynas ag arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd.
- Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon ac i amsugno carbon ar draws nifer o feysydd: adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, caffael, llywodraethu, defnydd tir, ecoleg. Rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor yw cyrraedd sero net, ond mae'r cynllun hwn yn gosod nifer o gerrig milltir penodol er mwyn i ni fesur ein cynnydd bob blwyddyn hyd at 2030. Mae yna gymaint o ffactorau polisi, deddfwriaethol a chyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac yn cael dylanwad enfawr ar allu'r Cyngor i wireddu nifer o'n prosiectau, megis cyflenwadau rhwydwaith grid trydan neu buddsoddiad mewn ynni a gwresogi adeiladau. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dewis gwario cyllid sylweddol o'n coffrau er mwyn gwireddu nifer o'r prosiectau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac fe neilltuwyd £3M ar gyfer y gwaith. Er gwaethaf y buddsoddiad fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o safbwynt y ffactorau allanol yn golygu fod cwrdd â'r uchelgais i fod yn ...'garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030' yn parhau i fod yn risg ymarferol a chyllidol i'r Cyngor.
- Er bod y Cyngor wedi buddsoddi £3M o'i gyllid ei hun ers 2022, sy'n barhad o fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau arbed carbon ers 2010, mae risg gwirioneddol i beidio bod â chyllid nag adnoddau dynol i gyflawni'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ei gyfanrwydd.
- Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, cyflwynwyd templed newydd ar gyfer llunio adroddiadau i'r Cabinet, sy'n arwain swyddogion i gyfeirio at y gwahanol ofynion statudol gan gynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth baratoi eu hadroddiadau.

## Gwynedd Gymraeg

### Cryfderau

- Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith weinyddol y Cyngor, sy'n golygu ein bod yn un o gyflogwyr mwyaf y wlad sydd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.

- Rydym yn cynnig cyfleon i staff ddatblygu eu sgiliau ieithyddol gan gynnwys hyfforddiant i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar draws pob lefel.
- Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ymhellach.

**Risgiau**

- Efallai bod canfyddiad gan rai bod angen Cymraeg o 'safon Prifysgol' i weithio i'r Cyngor, ac er nad yw hynny'n gywir, gall effeithio ar recriwtio i rai swyddi.
- Pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn mudo.

| **Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod ar gyfer 2025-26** |
| --- |
| • Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau. |
| • Rheoli effaith y newidiadau sylweddol sydd wedi bod yn ddiweddar yn arweinyddiaeth gwleidyddol y Cyngor ac ymysg Penaethiaid Adran. |
| • Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg. |
| • Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships. |
| • Ystyried sut y gallwn adeiladu ar yr arolwg preswylwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru a chael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau. |
| • Rhoi camau pellach yn eu lle er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Ddyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol. |
| • Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant. |

**Gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn Hunanasesiadau yn y gorffennol ac a fydd yn parhau i 2025/26.**

| **Gwelliant** | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Ein cynnydd hyd yma** |
| • Adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. | • Dros y misoedd diwethaf mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi bod yn edrych yn benodol ar y risgiau uchel iawn. Y bwriad yw i sicrhau bod y risgiau cywir wedi eu cynnwys yn y rhestr ac hefyd i geisio sicrhau cysondeb yn y modd y maent yn cael eu sgorio. |
| • Parhau gyda'r gwaith o gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau bod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol. | • Yn ystod 2024/25 roedd bwriad i gynnal sesiwn efo'r Tîm Arweinyddiaeth ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei arwain gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â chynnal sesiynau hyfforddiant pellach i weddill yr aelodau. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddiant i aelodau yn yr Hydref.<br>• Yn wreiddiol bwriadwyd cynnal sesiwn gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd, ond oherwydd y newidiadau gwleidyddol fu yn y Cyngor ni fu'n bosibl cynnal y sesiwn.<br>• Yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2025 bydd Local Partnerships yn edrych ar drefniadau llywodraethu o fewn y Cyngor ac fel rhan o'r gwaith byddant yn edrych ar sut yr ydym yn gweithredu yn y maes hwn ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella (os oes angen). |
| • Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf. | • Mae llunio Cynllun Rheoli Asedau newydd yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28.<br>• Gwaith o adolygu polisïau wedi ei gyflawni a thrafodaethau wedi'u cynnal gyda rhan helaeth o'r Adrannau. Drafft o Gynllun Asedau mewn lle ond angen addasiadau a phenderfyniad i'w fabwysiadu.<br>• Pan gymeradwyir y Strategaeth Reoli Eiddo Corfforaethol gellir symud ymlaen at baratoi Cynllun Gweithredu Asedau Eiddo (amserlen hynny yn amodol ar y Strategaeth Corfforaethol). |
| • Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel | • Byddwn yn cydweithio gyda chyfoedion mewn cynghorau eraill a chyrff proffesiynol fel CIPFA er mwyn datblygu fframwaith i allu |

DRAFT

| | |
|---|---|
| gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad. | adnabod gwerth am arian. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn yn 2023/24 a bu iddo barhau yn 2024/25. Yn ystod 2025/26 byddwn yn pwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael i sefydlu trefniadau meincnodi cost-effeithiol gydag awdurdodau eraill. |
| • Parhau i weithredu prosiect er mwyn mynd i'r afael â'r problemau recriwtio staff presennol y mae'r Cygnor yn ei brofi. | • Mae Prosiect 'Cynllunio'r Gweithlu', sy'n rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, yn mynd i'r afael â hwn.<br>• Gwaith o greu matrics o swyddi allweddol, wedi'u hasesu ar sail risg i barhad gwasanaethau allweddol y Cyngor (yn enwedig ym meysydd gofal ac addysg) wedi cychwyn ond gwaith pellach i'w wneud.<br>• Mae bwriad i gynnal adolygiad o'r broses gyfan o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, gyda'r nod o barhau i wella'r broses ar gyfer pawb sy'n rhan ohoni – yn enwedig ymgeiswyr am swyddi. |

**Gwelliannau o 2024/25 sydd wedi eu cwblhau**

| Gwelliant | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Datrysiad** |
| • Gwella ein blaengynllunio dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, drwy osod cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer y gwahanol brosiectau yng Nghynllun y Cyngor. | • Ar ddechrau 2024/25 darparwyd cerrig milltir gan yr Arweinyddion Prosiect ar gyfer pob prosiect o fewn Cynllun y Cyngor. Aseswyd y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir hyn yn y cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yn ystod y flwyddyn. |
| • Cymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan drigolion y Sir ar ein perfformiad. | • Bu i'r Cyngor gymryd rhan yn yr arolwg preswylwyr cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru ym mis Chwefror/Mawrth 2025 gyda dros 3,000 o drigolion yn ymateb. |
| • Cwblhau'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd craffu mewn ymateb i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru. | • Yr holl gamau gweithredu wedi eu cyflawni yn dilyn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Pwyllgorau Craffu ar ddechrau 2025/26. |
| • Cyfathrebu gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, a'r Cyngor yn gyffredinol, yn fwy effeithiol i drigolion. | • Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar drefn newydd i adrodd ar berfformiad lle bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn hytrach na chyfarfodydd y Cabinet. Mae'r trefniadau hyn yn weithredol o Fehefin 2025 |

| | |
|---|---|
| | ac erbyn hyn fe gyhoeddir holl fesurau perfformiad y Cyngor yn hytrach na chrynodeb o'r prif rai fel yn y gorffennol. |
| • Gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith y Cyngor ymysg trigolion y Sir. | • Gwaith cyfathrebu sylweddol yn cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor gan gynnwys datganiadau i'r wasg, eitemau ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal darperir ymatebion manwl i ymholiadau gan y cyfryngau am waith y Cyngor a/neu adroddiadau pwyllgor. Dengys ymateb i'r arolwg preswylwyr cenedlaethol fod angen parhau gyda'r gwaith hyn. Mae hyn yn waith parhaus fydd yn parhau i dderbyn sylw'r Cyngor. |
| • Cynnal arolwg llais staff (fel y cynhaliwyd yn y gorffennol) er mwyn cynnal trafodaeth gyson gyda'r gweithlu a darparu cyfle iddynt ddweud beth sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. | • Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod Tachwedd / Rhagfyr 2024, gan gymharu'r canlyniadau gyda'r flwyddyn flaenorol.<br>• Bydd y prif ganfyddiadau yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a gyda'r timau rheoli ymhob Adran unigol. Bydd y cynllun gwaith corfforaethol ar gyfer gweithredu ar y prif ganfyddiadau yn cael ei fonitro fel rhan o waith grŵp Swyddogion Ffordd Gwynedd. |
| • Cynnal arfarniad o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sefydlu a yw'n effeithiol. | • Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad yn Ebrill 2024 a chamau gweithredu wedi eu hadnabod a gweithredu arnynt. |
| • Parhau i weithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen. | • Erbyn diwedd 2024/25 byddwn wedi gweithredu ar yr holl argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu harchwiliad o drefniadau herio perfformiad.<br>• Y cam olaf yn yr ymateb hyn fydd cyflwyno adroddiadau perfformiad i'r pwyllgorau craffu yn hytrach na'r cabinet. Bydd hyn yn weithredol o gylch Mehefin 2025 o'r pwyllgorau craffu. |
| • Gweithredu Rhaglen Waith Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 er mwyn parhau i wella perfformiad a darparu'r gwasanaethau gorau posib ar gyfer trigolion y Sir. | • Dengys adroddiad blynyddol y Cynllun Ffordd Gwynedd ar gyfer 2024/25 fod y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran diwylliant a dulliau gweithio. Nodir hefyd bod:<br>  ◦ rhai adrannau'n dangos arweiniad da, ond mae'r cynnydd yn anghyson ar draws y sefydliad.<br>  ◦ technoleg a deallusrwydd artiffisial yn allweddol i wella gwasanaethau. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • angen ehangu hyfforddiant a chryfhau gwerthuso parhaus.<br>• lleihau absenoldebau a chynyddu perchnogaeth o berfformiad yn flaenoriaethau.<br>• cynlluniau datblygu talent yn gadarnhaol, ond mae cynllunio'r gweithlu yn dal i fod yn her.<br>• y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau o safon yn glir – y flaenoriaeth nawr yw cyflymu'r gwaith ym mhob adran.<br>Bydd y gwaith ar y Cynllun 5 mlynedd yn parhau. |

DRAFFT

## Tystiolaeth bellach i'n canfyddiadau:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28
- Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2023-24
- Adroddiad Blynyddol 2023-24 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Adroddiad Blynyddol 2024-25 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Strategaeth Cyfranogiad 2023
- Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet
- Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol
- Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25
- Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2024
- Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd
- Arolygon staff
- Arolygon preswylwyr
- Adroddiad Blynyddol 2024-25 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
- Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw
- Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024-25
- Adroddiadau Archwilio Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Estyn
- Datganiad Llywodraethu 2024/25
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-25

DRAFT

**Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2024-25**

Rhagair yr Arweinydd

I DDILYN

Cynghorydd Nia Jeffreys
Arweinydd Cyngor Gwynedd

DRAFT

**Cyflwyniad**

Mae 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' yn cynnwys cyfres o brosiectau uchelgeisiol fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau i drigolion y sir dros gyfnod o bum mlynedd. Daw'r prosiectau dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  *Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*
- **Gwynedd Lewyrchus**
  *Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*
- **Gwynedd Glyd**
  *Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*
- **Gwynedd Ofalgar**
  *Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*
- **Gwynedd Gymraeg**
  *Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*
- **Gwynedd Werdd**
  *Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*
- **Gwynedd Effeithlon**
  *Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod ail flwyddyn Cynllun y Cyngor. Mae'n arferiad cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn parhau yn addas, ac i roi cyfle i'r Cyngor eu haddasu yng ngoleuni datblygiadau lleol a chenedlaethol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y cynllun fel a gytunwyd gan y Cyngor ar y 7fed o Fawrth, 2024.

Fel y llynedd, rhennir yr adroddiad i benodau sy'n adlewyrchu'r saith maes blaenoriaeth, gan ddisgrifio'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r prif gyflawniadau yng ngwaith dydd i ddydd ein hadrannau, er enghraifft gofal plant ac oedolion, yr economi, a thai.

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf trwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r tabl ar ddiwedd yr adroddiad yn dangos cyfraniad pob prosiect blaenoriaeth tuag at y pum ffordd o weithio.

Ail ran yr adroddiad perfformiad ydi ein hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dyma ein pedwerydd hunanasesiad. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno hyn yn flynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eleni hefyd, atodir rhan ychwanegol sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sy'n ofyn adrodd newydd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Mae'r angen i wneud arbedion ariannol bron â bod yn her flynyddol i Lywodraeth Leol bellach, a doedd y llynedd ddim gwahanol. Mae cyfanswm o arbedion gwerth £43 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16, gyda £5.6 miliwn o'r cyfanswm yna yn dod o'r flwyddyn ariannol 2024/25. Er gwaethaf yr heriau ariannol yma, mae'r Cyngor yn arloesi yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad, cynhelir cyfres o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad adrannol yn rheolaidd er mwyn gweld sut gynnydd mae'r adrannau yn ei wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal â phrosiectau Cynllun y Cyngor. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma. Nid tynnu sylw at y pethau da yn unig yw bwriad yr adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.

DRAFT

**Gwynedd Yfory**

Ein huchelgais yw sicrhau fod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddigost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

**Prosiectau**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir
- Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd
- Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael ei gweithredu sy'n cynnwys gwaith i roi cefnogaeth i dadau, darparu cefnogaeth iechyd meddwl amenedigol, cynllun toiledu, a datblygu iaith a lleferydd.
- Ehangwyd y ddarpariaeth gofal plant dwy oed i nifer o ardaloedd newydd yn y sir, gan gynnwys Abermaw, Y Bala, Caernarfon, Porthmadog a Bangor.

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Dechreuwyd y gwaith adeiladu ar safle maes parcio Byw'n Iach Bangor er mwyn uwchraddio'r ardal a chreu mannau parcio ar gyfer staff Ysgol Hirael, fydd yn gwneud safle'r ysgol ei hun yn un di-geir. Bydd y gwaith adeiladu ar y gwelliannau i Ysgol Hirael ei hun yn cychwyn yn 2025-26.

DRAFT

- Mae adeilad hen Ysgol Glanadda wedi ei ddymchwel a'r gwaith adeiladu ar gyfer ysgol newydd Ein Harglwyddes wedi dechrau. Mae'r ffrâm ar gyfer yr ysgol newydd eisoes yn ei le, a bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf.
- Mae Achos Strategol Amlinellol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyflwr yr adeiladau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Tryfan, Bangor. Mae trafodaethau yn parhau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Cwblhawyd y gwaith o adeiladu Ysgol Treferthyr yng Nghricieth, a bu i ysgol newydd ar gyfer 150 o ddysgwyr agor ei drysau ddechrau mis Medi 2024.
- Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ysgol newydd ym Montnewydd fis Gorffennaf 2024. Mae'r gwaith o greu ysgol dros dro, fydd yn caniatáu lle i adeiladu'r ysgol newydd, yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o fod yn weithredol erbyn mis Medi 2025.

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Rhannwyd canfyddiadau ymchwil am y gost ariannol o fynychu ysgol gydag ysgolion.
- Lluniwyd rhaglen waith i ymateb i ganfyddiadau'r holiaduron, ac fel rhan o hyn bydd camau gweithredu yn cael eu llunio, sydd yn unigryw i bob ysgol, fydd yn arwain at leihau'r gost o anfon plant i'r ysgol.

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Casglwyd barn pobl ifanc ynglŷn â'r holl ddarpariaethau ieuenctid sydd ar gael. Bydd y bylchau yn derbyn sylw yn strategaeth newydd y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau sydd ar gael yn y caeau chwarae delwedd uchel ac yn gwneud gwelliannau o fewn y cyllid sydd ar gael.

**Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Drafft o'r Strategaeth Addysg newydd wedi ei pharatoi a bwriedir ei chyflwyno yn fuan yn 2025-26.

**Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn sefydlu Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth 2024, cynhaliwyd gwaith i fapio anghenion ac ymchwilio i ddarpariaethau mewn siroedd eraill er mwyn canfod ymarfer da. Yn sgil y gwaith yma, cytunodd y Cabinet ym mis Ebrill 2025 i greu Uned (aml safle) ar gyfer darparu cefnogaeth i blant sydd â anawsterau ymddygiad ac ymgysylltu sylweddol. Cytunwyd ar gynllun ariannu gan ddirprwyo'r amserlen i weithredu a gwireddu'r cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg. Mae prif leoliad y ddarpariaeth wedi ei leoli yn Llanwnda ar hen

DRAFT

safle'r ysgol, gyda buddsoddiad o Grant Cyfalaf ADY wedi bod i sicrhau bod yr adeilad yn addas i bwrpas.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Mae trefn Byrddau Prosiect mewn lle i sicrhau bod rheolaeth prosiectau cyfalaf addysg yn gadarn. Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni'n ystod y flwyddyn i gwrdd â gofynion gwariant grantiau cyfalaf un tro yn ystod y flwyddyn megis y grant Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ysgolion bro, ac mae prosiectau cyfalaf y Rhaglen Dreigl yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl erbyn hyn.
- Ar gyfer mynediad i ysgolion Cynradd ac Uwchradd ym mis Medi 2024, cynigwyd 99.5% o ddewisiadau cyntaf rhieni.
- Rydym wedi llwyddo i gynnig hyfforddiant a gweithdai dilynol i bersonau dynodedig AMYSE (sef Anhawster Mynychu Ysgol ar Sail Emosiynol) a staff cefnogol mewn nifer o ysgolion uwchradd yn ystod 2024/25. Mynychodd 13 ysgol uwchradd y cyflwyniad cychwynnol a llwyddodd 10 ysgol uwchradd i fynychu y 3 gweithdy dilynol. Byddwn yn cynnig yr hyfforddiant i fwy o ysgolion uwchradd yn ystod 2025/26. Byddwn yn cynnig sesiynau goruchwyliaeth tymhorol i'r ysgolion yma a gobeithiwn hyfforddi mwy o staff yn y flwyddyn addysgol ddilynol.
- Mae prydau ysgol am ddim ar gael i bob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ym mhob ysgol gynradd yng Ngwynedd.
- Rydym yn darparu cludiant addysg proffesiynol ac effeithlon ar gyfer dysgwyr cymwys yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso mynediad i bob safle addysgol yn y sir.
- Drwy leihau nifer y disgyblion yn y Canolfannau ABC ar yr un pryd â sicrhau bod pob disgybl yn rhannu lleoliad gyda'u hysgolion Prif lif, rydym wedi gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r cynllun yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar dargedau unigol ac ymateb yn briodol i'r anghenion yn y Canolfannau. Yn ogystal, mae'r trefniant o rannu lleoliad yn sicrhau bod ysgolion yn cael cyfle i adnabod y disgyblion, gan eu galluogi i gynllunio a pharatoi darpariaeth briodol ar gyfer blwyddyn Derbyn. O ganlyniad, gwelir gwelliannau mewn cynnydd datblygiadol yn gynt, a pharodrwydd y disgyblion dwys i drosglwyddo i addysg llawn amser.
- Mae 97% o bersonau dynodedig diogelu ysgolion wedi cwblhau hyfforddiant person dynodedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y canllaw cenedlaethol yn nodi na ddylid gadael cyfnod o fwy na thair blynedd rhwng hyfforddiant, rydym yn annog hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd fel arfer dda. Nid yw'r ffigwr yn 100% gan fod tri aelod o staff newydd wedi dechrau yn eu rolau ac heb gwblhau'r hyfforddiant eto, ond wedi cofrestru i'w wneud.
- Bu'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn canolbwyntio ar gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae hyn wedi cynnwys datblygu dulliau mwy systematig o adnabod anghenion yn gynnar, gan sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu mewn modd amserol ac

DRAFT

effeithiol. Bu cydweithio'n agos ag ysgolion a gwasanaethau eraill i gyd-gynllunio strategaeth newydd, gyda'r nod o sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yn gynhwysol, yn gynaliadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn sefydlu canolfan newydd fydd yn weithredol o fis Medi 2025, gan gynnig ystod o wasanaethau wedi'u targedu i gefnogi disgyblion.

DRAFFT

**Gwynedd Lewyrchus**

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw sicrhau:

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

**Prosiectau**

- Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
- Adfywio cymunedau a chanol trefi
- Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith
- Cadw'r Budd yn Lleol

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd uwch-gynhadledd Economi Ymweld Gynaliadwy gyda dros 100 yn mynychu.
- Adolygwyd ein trefniadau i gefnogi digwyddiadau yng Ngwynedd.
- Agorwyd pedwar Aros-fan ar draws Gwynedd ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi modur. Rydym yn monitro'r defnydd a wneir ohonynt, a byddwn yn paratoi adroddiad gwerthuso maes o law.
- Sefydlwyd strwythur i weithredu Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035, ac mae cyllid wedi ei neilltuo i weithredu'r cynllun.
- Cefnogwyd cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwyllesiant'. Buddsoddwyd £715,553 er mwyn cefnogi 109 o sefydliadau a busnesau i gynnal gwahanol weithgareddau, a denodd hyn fuddsoddiad ychwanegol o £5.8m i'r Sir. Roedd llawer o weithgaredd wedi digwydd trwy Storiel, Byw'n Iach, Archifau, Llyfrgelloedd a Pharc Glynllifon.
- Cefnogwyd cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y diwydiant llechi gan sicrhau arian Loteri Treftadaeth i brosiectau LleCHI LleNi, ac arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae sawl prosiect sylweddol ar y gweill gan gynnwys ail-ddatblygu'r Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn yn Llanberis, a gwneud gwelliannau canol tref a gosod celf gyhoeddus mewn chwe thref. Yn ogystal, uwchraddiwyd Aelwyd yr Urdd a chwblhawyd gwaith ar lwybr cysylltiol ym Mlaenau Ffestiniog.

DRAFT

**Adfywio cymunedau a chanol trefi**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cyhoeddwyd y Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y sir ar wefan y Cyngor, a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau cydlynu lleol.
- Cynigiwyd grantiau gwerth £1.8m drwy Gronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau i ystod o brosiectau adfywio lleol.
- Mae Cynlluniau Creu Lleoedd wedi eu cwblhau ar gyfer Porthmadog, Pwllheli, Y Bala, a Dolgellau.
- Buddsoddwyd £1.8m o arian grant Cronfa Ffyniant Gyffredin i uwchraddio canol trefi Gwynedd.
- Rhoddwyd grant Trawsnewid Trefi 2024/5 i nifer o brosiectau er mwyn gwella canol trefi, gan gynnwys Parc y Coleg, Bangor; eiddo gwag Galeri Cyf; Menter y Tŵr Pwllheli; Canolfan Bro Tegid, Y Bala; a Chanolfan Iechyd a Lles Bangor.

**Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cafodd 600 o fusnesau a mentrau cymdeithasol gymorth gan y Cyngor drwy raglen ARFOR a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd fis Hydref, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i fusnesau yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor. Llwyddodd ymgyrch gan y Cyngor i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol i gyrraedd 50,000 o gyfrifon.
- Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sy'n cynnig y budd mwyaf i Wynedd, gan gynnwys Cynllun Parc Bryn Cegin sydd wedi ei gymeradwyo, ac mae trefniadau mewn lle i gychwyn gweithredu ar safle a Phrosiect Hwb Arloesi Glynllifon sy'n cael ei ailgynllunio.
- Rhoddwyd cefnogaeth i 221 o bobl i ddychwelyd i waith yn 2024/25 a chafodd 251 o bobl gymorth i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da.

**Cadw'r Budd yn Lleol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lluniwyd strategaeth caffael newydd fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn fuan.
- Adolygwyd ein rheolau gweithdrefn caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf Caffael newydd.
- Rydym wedi diweddaru'n gwefan a'n mewnrwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rheoliadau newydd, technegau caffael a'r nod o gadw'r budd yn lleol maes o law.

DRAFT

**Rhai o’n prif gyflawniadau**

**Datblygu’r economi ac adfywio cymunedau**

Darparodd Cyngor Gwynedd amrywiaeth eang o gefnogaeth i gynnal a chynorthwyo busnesau i ffynnu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio:

- Rhoddwyd cymorth i 176 o fusnesau gwahanol drwy gynlluniau cefnogi busnes dan reolaeth y Cyngor. Roedd y cymorth yn gyfuniad o help ariannol ar ffurf grant i alluogi busnesau i fuddsoddi er mwyn lleihau costau neu fanteisio ar gyfleoedd newydd, cefnogaeth ymarferol i helpu busnesau adolygu eu gweithgareddau a chynllunio i’r dyfodol, a chymorth i fusnesau wneud gwell defnydd o dechnoleg a’r cyfryngau digidol.
- Yn dilyn cefnogaeth gan dîm Gwaith Gwynedd, llwyddodd 221 o drigolion i gael swydd. Roedd hyn yn gynnydd o draean ar ganlyniad y llynedd.
- Yn sgil derbyn cynnig o gymorth ariannol gan y Cyngor yn ystod 2024/25, mae 54 o fusnesau wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol i’w gweithwyr ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- Cwblhau a chyhoeddi Cynlluniau Creu Lleoedd er mwyn gwella chwe thref o fewn y sir - Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Y Bala.
- Mae Cist Gwynedd, y porth grantiau cymunedol, wedi dyrannu dros £1.6miliwn o grantiau i wahanol grwpiau a sefydliadau yn y sir.
- Mae’r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi sicrhau buddsoddiad gwerth £8.5m ar gyfer prosiectau canol trefi.
- Er mwyn gwella trefi’r sir, rhoddwyd cefnogaeth ariannol i ddod â 10 eiddo gwag mewn canol trefi yn ôl i ddefnydd, ac i adnewyddu a gwella 26 adeilad arall.

**Diwylliant a Hamdden**

- Lansiwyd gwefan newydd i Barc Glynllifon www.parcglynllifon.cymru er mwyn hyrwyddo’r hyn sydd ar gael yno.
- Roedd cais gwerth £300,000 am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Yn sgil hyn bydd gwaith yn digwydd yn 2025-26 i ail wynebu'r maes parcio, gosod mannau gwefru ar gyfer ceir a beics, paneli solar a gwaith dehongli/arwyddion.
- Bu gwelliannau i isadeiledd canolfannau hamdden gan gynnwys ail wynebu’r cyrtiau tennis mewnol, a gosod cwrt Padel newydd - y cwrt cyhoeddus cyntaf yng Ngogledd Cymru - yng Nghanolfan Tennis Arfon, a throsi’r MUGA i fod yn gae 2G 7v7 yn Glan Wnion, Dolgellau.
- Agorwyd cae 3G newydd yng Nghaernarfon gan gyn bêl-droediwr Cymru a Lerpwl, Ian Rush.
- Gwnaethpwyd gwelliannau i harbwr Porthmadog gan gynnwys adnewyddu cadwyni angorfeydd yr harbwr er mwyn sicrhau diogelwch cychod, a gwella lloc allanol yr harbwr er mwyn darparu safle mwy ymarferol a diogel. Uwchraddiwyd system



DRAFT

deledu cylch cyfyng harbwr Abermaw i wella diogelwch a chwblhawyd gwelliannau i Ffordd y Compownd.

- Yn dilyn gwaith uwchraddio gwerth £450,000 i'r maes parcio, treialwyd trefn newydd o godi ffioedd am barcio yn Ninas Dinlle.
- Buddsoddwyd £280,000 i foderneiddio'r arddangosfeydd yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy yn dilyn derbyn grant o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.
- Mae'r ymgyrch Croeso Cynnes yn weithredol ymhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd gyda chyfle i ymuno mewn gweithgareddau fel chwarae gwyddbwyll, gwneud jig-so a Chôr dementia. Mae sesiwn gwyddbwyll pnawn Iau Llyfrgell Caernarfon yn tyfu o nerth i nerth, gyda phlant, pobl ifanc a phobl hŷn yn cyd-chwarae yn rheolaidd.
- Uwchraddiwyd ein system Llyfrgelloedd (LMS) fis Rhagfyr 2024. Mae tîm LMS Cymru, a arweinir gan Gyngor Gwynedd, yn gweithio ar lansio ap newydd a chatalog llyfrau Cymru Gyfan.
- Datblygwyd rhaglen amrywiol yn Neuadd Dwyfor, gyda phwyslais ar nosweithiau cerddorol byw gan unigolion a bandiau yn Gymraeg, yn ychwanegol i'r cynnig ffilmiau a sioeau theatr arferol. Fel rhan o hyn, cyflwynwyd brand 'Gigs Town Hôl' sydd yn mynd o nerth i nerth.
- Rhoddwyd cefnogaeth ariannol gwerth £77,000 i gynnal 33 digwyddiad gwahanol yn y sir. Mynychodd 154,000 o bobl y digwyddiadau, a chyfrifwyd fod yr economi leol wedi cael budd o £4,069,561 o ganlyniad.

DRAFFT

**Gwynedd Glyd**

Ein huchelgais yw sicrhau bod gan bob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywydau . Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau fod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau fod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

**Prosiectau**

- Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol
- Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae 386 o dai cymdeithasol bellach wedi'u codi ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai a bydd y rhain yn helpu bron i 1,300 o unigolion.
- Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar safleoedd yn Llanberis a Bangor i greu tai fforddiadwy dan gynllun Tŷ Gwynedd.
- Prynwyd 23 o dai trwy'r Cynllun Prynu i Osod (gan ddod â'r cyfanswm i 46 o dai), a bydd y rhain yn cael eu gosod ar lefelau rhent fforddiadwy.
- Daethpwyd â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai.
- Mae 62 o aelwydydd wedi prynu eu cartref trwy gymorth y Cynllun Prynu Cartref erbyn hyn.

**Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cefnogwyd trigolion y sir i wneud y mwyaf o gynlluniau i leihau costau ynni fel ECO4, gyda 216 o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.
- Sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt trwy gydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol.
- Rydym wedi dosbarthu 656 o dalebau ynni i drigolion anghenus sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £24,719. Ers y cychwyn rydym wedi dosbarthu 5,671 o dalebau gwerth £236,055 - arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i drigolion mwyaf bregus y sir.

DRAFT

- Rydym wedi cyfeirio trigolion i gael cymorth ychwanegol gan sefydliadau fel y Banciau Bwyd, Canllaw, Teleofal, Grantiau Tai Gwag y Cyngor a Benthyciadau Cyngor, Gwaith Gwynedd, Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, Dŵr Cymru, Hybiau Cymunedol a hefyd cyfeirio at y gwasanaeth Mesuryddion Ynni Clyfar.
- Rhannwyd arbenigedd a gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan Costau Byw Cyngor Gwynedd sydd ar gael i bawb.
- Cynhaliwyd clinigau cymunedol i gyfeirio pobl at y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

**Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae datblygiadau i roi llety i bobl ddigartref wedi eu cwblhau ym Mangor a Phwllheli, ac mae gwaith adeiladu yn parhau ar ddatblygiad arall ym Mangor.
- Cwblhawyd pryniant cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon, ac mae gwaith cefndirol sylweddol wedi digwydd ar gyfer cyflwyno cais cynllunio megis asesiadau strwythurol, dichonoldeb ac ati, ar gyfer ei drosi yn unedau i bobl leol sydd angen cartref.
- Denwyd 12 eiddo ychwanegol ar gyfer Cynllun Lesu Cymru sydd yn galluogi mwy o bobl i rentu'n breifat yng Ngwynedd, a'i wneud yn opsiwn mwy fforddiadwy. Byddwn yn parhau i drafod gyda landlordiaid a'r Llywodraeth i edrych am opsiynau i gynyddu'r cyfleoedd dros oes y cynllun. Hyd yma mae 28 eiddo wedi'i osod gan helpu 65 o unigolion.
- Mae ein 'Siop un Stop' bron yn barod i'w lansio. Adnodd newydd er mwyn ymateb i anghenion trigolion wrth iddynt gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog ydi'r 'Siop un Stop'.

**Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus penderfynwyd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, er mwyn rheoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau. Mae hyn wedi ei weithredu ac mae bellach mewn lle ar draws y sir.
- Cynhaliwyd gwaith ymchwil i effaith y Premiwm Treth Cyngor o ran unrhyw newid defnydd o eiddo. Gwelwyd fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar, ond nid oedd digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i brofi bod hynny yn uniongyrchol o ganlyniad i'r Premiwm. Yn dilyn hyn, penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel ar gyfer 2025-26.



DRAFT

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Gosodwyd uchelgais i greu 83 o unedau llety â chefnogaeth ar gyfer pobl ddigartref ein sir erbyn diwedd oes y Cynllun Gweithredu Tai, a hynny er mwyn ateb y galw cynyddol am y gwasanaeth. Ers 2021 mae 20 o unedau wedi eu creu, gyda 62 arall ar y rhaglen waith. Hyd yma mae o leiaf 30 o bobl wedi derbyn cefnogaeth yn yr unedau newydd, a byddwn yn parhau i gefnogi unigolion a theuluoedd dros y blynyddoedd nesaf.
- Ym mis Hydref 2024, agorodd Dôl Sadler – adeilad newydd sbon ar gyfer darparu llety â chefnogaeth i drigolion ein sir – ar safle hen Ysgol Glan Wnion yn Nolgellau. Cyrhaeddodd y datblygiad restr fer Gwobrau Inside Housing Development yn y categori Best Supported Housing Development: Rural/Suburban.
- Mae dau safle Tŷ Gwynedd yn y broses adeiladu – safleoedd Llanberis a Choed Mawr, Bangor. Bydd dau arall yn dechrau yn 2025/26, a mwy i ddilyn yn y blynyddoedd nesaf. Mae safleoedd eraill yn cael eu hystyried ar draws y sir i gyfarch anghenion lleol.
- Trwy'r Cynllun Prynu i Osod, mae'r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai. Mae'r Cyngor eisoes wedi prynu 46 o dai (sy'n rhagori ar yr uchelgais a osodwyd ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2024/25 sef 43). Mae'r Cyngor wedi gosod 16 tŷ ac yn cwblhau gwaith trwsio ac uwchraddio angenrheidiol ar 20 o dai eraill.
- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt. Trwy'r Cynllun Gweithredu Tai, mae'r Adran yn gallu cynnig eithriad o flwyddyn ychwanegol oddi ar dreth cyngor ar dai gwag, fel bod modd i deulu neu unigolion gwblhau gwaith adfer allweddol i ddod â'r tŷ i safon byw derbyniol. Hyd yma, mae 123 o eithriadau gwerth cyfanswm o £165,061 wedi'u rhoi i berchnogion tai gwag.
- Mae grantiau ar gael i berchnogion wneud gwaith uwchraddio angenrheidiol i dŷ fu'n arfer bod yn wag, a hyd yma mae 108 o'r grantiau hyn wedi'u dyrannu. Cyfanswm nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor yw 284. Mae hyn wrth gwrs yn golygu bod 284 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd trigolion lleol hefyd. Mae hyn yn cyrraedd a rhagori ar yr uchelgais a osodwyd sef dod â 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Mae'r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd. Yn ystod 2024/25, codwyd 90 o dai fforddiadwy ar draws Gwynedd gan ddod â'r cyfanswm o dai newydd ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai i 386.
- Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Yn 2024/25, denwyd £8m yn ychwanegol fydd yn galluogi i'n partneriaid tai godi o leiaf 50 o unedau ychwanegol.
- Mae gwaith datblygu safle Penrhos, Pwllheli, ar ddechrau, wedi i'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda chymdeithas dai Clwyd Alyn, sicrhau grant ychwanegol o tua £7.7m gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu dechrau gwedd 1 y datblygiad fydd yn creu 44 o gartrefi newydd.
- Mae'r Cynllun Prynu Cartref wedi llwyddo i helpu 62 o aelwydydd i brynu cartref oddi ar y farchnad agored yng Ngwynedd. Mae 25 arall yn y broses ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda Pheilot Dwyfor, wedi llwyddo i ymestyn

DRAFFT

uchafswm gwerth eiddo cymwys mewn rhai ardaloedd o Ddwyfor er mwyn ymateb i'r sefyllfa leol, sy'n golygu y gall mwy o bobl elwa o'r Cynllun.

- Ers mis Hydref 2022, mae 753 o dai wedi derbyn cymorth grant i wella'u perfformiad ynni. Mae hyn wedi helpu nifer o drigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi mwy clyd ac i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac uwchraddiadau ecogyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy'n defnyddio aer.
- Yn ystod Ebrill a Mai 2024, cynhaliwyd Tai ar Daith, sef y gyfres gyntaf o ddigwyddiadau galw-heibio ar gyfer helpu'r cyhoedd gyda materion tai. Ymwelwyd â thri lleoliad – Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau a derbyniwyd adborth cadarnhaol ym mhob safle gan y 158 o unigolion a alwodd heibio. Mae'r Adran wedi derbyn nifer o wahoddiadau i ymweld â lleoliadau eraill ac ymwelir â'r rhain yn y blynyddoedd i ddod.

DRAFFT

**Gwynedd Ofalgar**

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o’n prif gyfrifoldebau a’n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy’n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a’i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a’u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw’n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu i fod yn sir Oed Gyfeillgar.

**Prosiectau**

- Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol
- Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal
- Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned
- Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth
- Llechen Lân
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Cynllun Awtistiaeth
- Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Rydym wedi gorffen uwchraddio Hafod Mawddach a Chefn Rodyn.
- Mae unedau dementia ym Mryn Blodau wedi agor.
- Mae trafodaethau wedi cychwyn ar ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon.
- Rydym yn ymchwilio i weld os oes angen darpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli.

DRAFT

**Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae chwiliwr Dewis a system therapi galwedigaethol AskSara wedi'i integreiddio i dudalennau gwefan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosib i bobl gael gwybodaeth a chyngor addas ac amserol i'w helpu i aros yn annibynnol, a lleihau pwysau ar wasanaethau traddodiadol.
- Mae dewislen o ddyfeisiau teleofal wedi ei chreu ac mae'n cael ei hyrwyddo ar y wefan, yn y cyfryngau a thrwy'r timau gwaith cymdeithasol er mwyn helpu pobl i aros yn annibynnol. Bydd hefyd yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau traddodiadol.

**Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlwyd trefniadau cyfathrebu a chyfarfod rheolaidd er mwyn hyrwyddo cydweithio a galluogi'r timau oedolion i deimlo fwy fel un. Mae hyn yn lleihau dyblygu a gwella cyfathrebu sydd yn ei dro yn rhoi gwell gwasanaeth i'r unigolyn.
- Datblygwyd trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.

**Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd Cydlynydd Cyfleon Gwaith a Swyddogion Cefnogi Cyflogaeth ychwanegol, a gwnaethpwyd gwaith i adnabod y math a'r nifer o gyfleoedd sydd eu hangen. Golygai hyn fod unigolion ag anabledd dysgu yn cael gwaith cyflogedig (gwir gyflog byw) a bod yr unigolyn a'r cyflogwr yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion y Cyngor.

**Llechen Lân**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cwblhawyd dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd, y galw am wasanaeth, ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu'r galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.

**Cefnogi Llesiant Pobl**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd Hyrwyddwyr Lles a chynhaliwyd digwyddiadau costau byw, a sesiynau galw-heibio amrywiol.
- Sefydlwyd dau Hwb Cefnogi Pobl mewn dwy ardal newydd.
- Buom yn cydweithio gyda Cyngor Ar Bopeth i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion.
- Rhoddwyd cymorth ymarferol i bobl ddysgu sut i fynd ar-lein a dosbarthwyd cyfarpar TG fel rhan o'r Prosiect Cynhwysiad Digidol.



DRAFT

- Sefydlwyd peilot y cynllun Gafael Llaw sy'n gynllun ar draws gwasanaethau cymdeithasol a Galw Gwynedd, sy'n ymestyn allan yn rhagweithiol i drigolion i wneud yn siŵr fod pawb yn gwybod lle i fynd am gymorth a pha help sydd ar gael.
- Sefydlwyd Cronfa Gyfalaf a Refeniw er mwyn cefnogi prosiectau bwydo yn y cymunedau, a darparwyd cyrsiau coginio yn yr hybiau mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.
- Cynhaliwyd sesiynau Bwyd a Hwyl yn ystod gwyliau'r haf ble darparwyd gweithgareddau i blant oedd yn cynnwys sesiynau addysgiadol, gweithgareddau corfforol ac addysg am fwyd a maeth. Cofrestrodd pedair ysgol i gymryd rhan.
- Darparwyd pecynnau i gefnogi toiledu plant oedd yn cynnwys clytiau go iawn y gellir eu hail ddefnyddio, poti a phecynnau gwybodaeth.
- Dosbarthwyd cannoedd o nwyddau mislif am ddim drwy'r llyfrgelloedd yn ystod 2024/25.
- Dosbarthwyd 5,575 o becynnau bwyd gan gynlluniau bwyd cymunedol drwy'r sir a darparwyd 11,601 o brydau bwyd.
- Mynychodd 3,478 o bobl sesiynau Croeso Cynnes ar draws 25 o gynlluniau ledled y sir ble darparwyd gweithdai lles megis gemau wythnosol a sesiynau creadigol yn ogystal â sesiynau galw mewn ar amryw faterion e.e. arian neu iechyd.

**Cynllun Awtistiaeth**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd gweithiwr ataliol yn y tîm cefnogi teulu er mwyn cydweithio gyda phlant sydd ar y llwybr diagnosis neu wedi derbyn diagnosis. Mae'n gweithio yn agos iawn gyda'r tîm awtistiaeth, ac yn rhan o ddarparu ymyrraeth ar sail grŵp.
- Mae'r tîm yn datblygu rhaglenni cefnogi rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gartref yn effeithiol a phriodol.
- Darparwyd amrywiaeth o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr gan gynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth, a hyfforddiant ynglŷn ag ymddygiad sy'n peri pryder.
- Mae'r tîm yn parhau i weithio ar brosiect Llwybrau Ni, fydd yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ac egwyl i rieni a gofalwyr.

**Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Agorwyd cartref grŵp bychan ym Morfa Bychan, a croesawyd dau blentyn i'r cartref. Yn ogystal, prynwyd dau eiddo ychwanegol ac mae gwaith paratoi ar y gweill i'w cofrestru.
- Mynychwyd cyfarfod yn yr ardal i drafod y cynllun.
- Datblygwyd Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru'r uned gydag Arolygaeth Gofal Cymru.

DRAFT

**Rhai o’n prif gyflawniadau**

- Lansiwyd Academi Gofal, cynllun unigryw i bobl ddatblygu gyrfa yn y sector Gofal. Darperir profiadau ymarferol a chyfleoedd i staff feithrin a datblygu eu sgiliau i sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.
- Mae bron i ddwy ran o dair (tynnu am 1000) o ddyfeisiau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach.
- Er y cynnydd yn y galw, llwyddwyd i leihau rhestrau aros am asesiad. Mae cyllid ‘Her 50 Diwrnod’ wedi ein galluogi i ariannu gwaith Therapydd Galwedigaethol i roi sylw i restrau aros, yn ogystal ag uwch-sgilio Ymarferwyr i gynnal asesiadau am offer.
- Yn dilyn newidiadau sy’n golygu bod staff yn gweithio rhan o’r wythnos yn yr ysbytai, gwelwyd fod unigolion yn cael asesiad ac ymateb amserol, ac mae hyn wedi arwain at leihad yn nifer yr unigolion sydd yn aros i ddychwelyd adref yn saff o’r ysbyty.
- Mae’r rhestr aros am ofal cartref wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn.
- Mae’r gyfradd llenwi cartrefi preswyl y Cyngor wedi codi ac wedi cyrraedd y lefel uchaf ers blynyddoedd sydd yn golygu bod llai o bobl yn aros yn ddiangen mewn ysbytai neu efo risg uchel yn y gymuned.
- Mae’r ‘Cynllun cyfleodd gwaith anabledd dysgu’ yn mynd o nerth i nerth. Mae’r cynllun cludo cadeiriau arbenigol wedi dechrau, sydd yn cyflogi unigolion ag anabledd dysgu, ac mae nifer o unigolion wedi cwblhau hyfforddiant profi offer trydanol gyda’r bwriad o ddarparu gwasanaeth profi ar gyfer adrannau'r Cyngor.
- Cynigwyd 1183 noswaith o ofal egwyl fer i blant dros y flwyddyn (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Mae hyn yn caniatáu i'r plentyn dderbyn gofal a chefnogaeth, a chael cyfleoedd a phrofiadau i annog eu datblygiad a’u lles, tra mae rhieni yn medru mwynhau cyfnodau o seibiant o’i rôl gofalu.
- Cyhoeddwyd tudalen wybodaeth newydd ar wefan y Cyngor er mwyn hyrwyddo’r 12.5 awr o Ofal Plant am ddim sydd ar gael ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 2 oed.

DRAFT

**Gwynedd Gymraeg**

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau fod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau fod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

**Prosiectau**

- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
- Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd
- Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Y gwaith i adeiladu Uned Iaith ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ei gwblhau ac agorodd yr uned i ddysgwyr yn Ionawr, 2025.
- Mae'r gwaith i foderneiddio'r tair uned drochi Cynradd wedi ei gwblhau gyda gwelliannau wedi eu gwneud i unedau Cymerau, Dolgellau a Maesincla.
- Yn sgil derbyn grant pellach gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwaith ar greu pentref rhithwir Aberwla ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi ei gwblhau.

**Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Datblygwyd nifer o brosiectau gwahanol fel rhan o'r Strategaeth Iaith 2023-33 gan gynnwys rhai i hyrwyddo cyfathrebu clir a'r Gymraeg mewn busnes.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o brosiect Gwarchod Enwau Llefydd a sefydlwyd rhaglen waith ar gyfer 2025-26 er mwyn sicrhau bod yr enwau Cymraeg yn cael eu gwarchod ac yn parhau i gael eu defnyddio.
- Datblygwyd 'Prosiect 15' ymhellach er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae'r prosiect yn creu cynnwys digidol yn y Gymraeg ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac mewn gwahanol arddulliau, ac yn creu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Comisiynwyd cwmni i greu cynnwys a

gweithgareddau ar gyfer 2025/2026 yn ogystal â chreu adroddiad am opsiynau ar gyfer y dyfodol.

- Cyfrannwyd at waith is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau sy'n ceisio ymateb i'r heriau o recriwtio gweithlu gyda sgiliau Cymraeg.
- Cydweithiwyd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn ymchwilio i agwedd a defnydd iaith trigolion.

**Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu, cyflwynwyd Polisi Iaith drafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 10fed o Ebrill, 2025. Bydd yn cael ystyriaeth bellach gan y Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Comisiynwyd Astudiaeth Effaith o'r Gyfundrefn Drochi a bydd yr adroddiad, fydd yn cynnwys argymhellion o'r prif ganfyddiadau a gwelliannau posib i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn yr hydref.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Rhoddwyd cymorth i Fenter Iaith Gwynedd sefydlu yn fenter iaith gynaliadwy a fydd yn hybu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Gwynedd. Llwyddwyd i gadw at yr amserlen a chwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol gan gynnwys trosglwyddo staff i'r endid annibynnol erbyn 1 Ebrill 2025.
- Cydlynwyd Fforwm Iaith Gwynedd gan gynnwys prosiect ymgysylltu gyda phobl ifanc er mwyn deall mwy am eu hagwedd a defnydd o'r Gymraeg.
- Cynhaliwyd peilot o ran mesur defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd wrth ddefnyddio rhai o wasanaethau rheng flaen Cyngor Gwynedd gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, derbynfeydd a chanolfan alwadau.

DRAFFT

**Gwynedd Werdd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

**Prosiectau**

- Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Cymunedau Glân a Thaclus

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Gweithredu ar risgiau llifogydd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mabwysiadwyd Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir.
- Cwblhawyd prosiect gwerth bron i £6 miliwn fydd yn diogelu ardal Hirael ym Mangor rhag effeithiau llifogydd arfordirol ac yn gwella adnoddau hamdden lleol.
- Yn Abermaw, mae'r gwaith dylunio manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn parhau ar y trywydd iawn ac yn symud yn unol â'r rhaglen. Mae model ffisegol o'r cynllun wedi'i adeiladu yng Ngholeg yr Imperial Llundain, a bydd yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw newidiadau posibl i'r risg llifogydd yn sgil ein gwaith. Disgwylir i'r cam dylunio manwl gymryd tua dwy flynedd i'w gwblhau.

**Gwastraff ac ailgylchu**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lluniwyd drafft o Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu fydd yn gosod cyfeiriad am y blynyddoedd i ddod gyda'r nod o uchafu lefelau ailgylchu a chamau penodol i drawsnewid y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Bydd hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2025.
- Rydym wedi bod yn cydweithio â Wrap Cymru i baratoi cynlluniau cychwynnol ar gyfer cyfleusterau trin a phrosesu gwastraff modern ac addas i bwrpas ar gyfer safleoedd Caergylchu (Caernarfon) a Ffridd Rasus (Harlech).

DRAFFT

- Treialwyd cynllun i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau ailgylchu penodol yn ardaloedd Tanygrisiau a Bangor, gyda'r bwriad i'w ymestyn i ardaloedd eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Rhoddwyd sylw ychwanegol i reoli gwariant, gan roi ystyriaeth i'r cynlluniau arbedion yn ogystal ag anelu i osgoi gorwariant.

**Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Bellach mae 31% o geir a faniau fflyd yn gerbydau trydan
- Gosodwyd 60 pwynt gwefru mewn 13 lleoliad ar gyfer y fflyd
- Mae Partneriaeth Natur Gwynedd wedi denu gwerth £2.3milliwn i Wynedd ar gyfer gwaith cadwraeth yn y ddwy flynedd diwethaf, ac wedi derbyn £511,000 pellach am y ddwy flynedd nesaf, gan gyfrannu'n sylweddol at dargedau natur a bioamrywiaeth cenedlaethol.
- Llwyddwyd i ddenu'r grantiau canlynol yn y maes adeiladau ac ynni: £300,000 gan Ynni Cymru ar gyfer gosod batris yng Nghanolfannau Hamdden Plas Silyn a Plas Ffrancon, ac £1.7M gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Gwres Carbon Isel ar gyfer Plas Ogwen Bethesda. Hwn yn gynllun cyffrous gyda'r her o ddod ag adeilad fel hyn i fod yn Passivhaus.

DRAFT

**Teithio Llesol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, datblygwyd cynlluniau llwyddiannus yn Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd), Ysgol Rhostryfan ac Ysgol Treferthyr, Cricieth. Bydd y prosiectau i gyd wedi eu cwblhau yn fuan yn 2025-26.
- Hyrwyddwyd y llwybrau cerdded a beicio i drigolion ac ymwelwyr i'r sir, gan dynnu sylw penodol at rwydwaith teithio llesol Gwynedd.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn adolygiad, cyflwynwyd rhwydwaith bysiau cyhoeddus newydd ym Meirionnydd ac yn Arfon fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal. Bydd angen cynnal adolygiad pellach yn Nwyfor yn dilyn canlyniadau tendr diweddar.

**Cynllun Datblygu Lleol newydd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Rydym wedi dechrau gweithredu'r Cytundeb Cyflawni er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i Wynedd. Derbyniodd y Cytundeb Cyflawni gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r camau cyntaf o gasglu tystiolaeth a galw am safleoedd datblygu wedi cychwyn. Bydd y gwaith yma yn parhau yn ystod 2025-26.

**Cymunedau Glân a Thaclus**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae tîm tacluso Ardal Ni wedi delio gyda chynnydd sylweddol o geisiadau am waith gan gynnwys torri chwyn trefol a gordyfiant, golchi strydoedd a thynnu gwm, glanhau arwyddion ffyrdd/enwau strydoedd, a glanhau dodrefn stryd. Maent yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol iawn gan Aelodau, cynghorau cymuned a thref a thrigolion lleol.
- Bu gostyngiad o 21% yn yr achosion tipio anghyfreithlon ddaeth i sylw'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Cynhaliwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl i lanhau ar ôl eu cŵn, a gwelwyd lleihad yn nifer y cwynion gan y cyhoedd am y broblem.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Llwyddodd Safonau Masnach i gyrraedd y targed o archwilio 100% o fusnesau risg uchel yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo sydd wedi ei drwyddedu i werthu ffrwydron a thân gwyllt yn ogystal â rhai yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.
- Llwyddodd 82% o siwrneiau bws lleol gyrraedd ar amser.
- Mae 38% o geir neu faniau'r Cyngor bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- Bu cynnydd o 0.98% yn nifer y litrau o danwydd a ddefnyddiodd y Cyngor o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae'r mwyafrif llethol (99%) o fusnesau bwyd sy'n cael eu harchwilio yn parhau i gyrraedd sgôr o 3+, a threfnir ail-ymweliad o fewn 3 mis ar gyfer y rhai sy'n cael sgôr is na hynny. Fodd bynnag mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyfarch argymhellion yr ASB er mwyn gwella'r sefyllfa.
- Mae ein lefelau ailgylchu dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson 64%. Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd yn y targed cenedlaethol i 70%, nid ydym bellach yn cyrraedd y targed statudol. Bydd y Strategaeth Wastraff yn manylu ar gynlluniau i fynd i'r afael â hyn.
- Bu gostyngiad sylweddol o 44% yn nifer y cwynion am fethu casglu gwastraff ac ailgylchu yn ystod y flwyddyn.

DRAFT

**Gwynedd Effeithlon**

Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser. Ein huchelgais yw:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

**Prosiectau**

- Cynllunio'r Gweithlu
- Datblygu diwylliant y Cyngor
- Sicrhau tegwch i bawb
- Merched mewn arweinyddiaeth
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol
- Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
- Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Cynllunio'r Gweithlu**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlu cynllun profiadau gwaith, fel ffrwd arall i geisio denu pobl i ddod i weithio i'r Cyngor yn y dyfodol.
- Lluniwyd dashfwrdd sydd yn darparu gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol staff.
- Sefydlwyd cynllun hyfforddi gweithlu penodol ar gyfer staff cyffredinol, i gydweddu a chefnogi cynlluniau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer rheolwyr ac arweinyddiaeth y Cyngor yn ehangach.
- Llwyddodd y Cyngor i gael achrediad Lefel 2 yn y cynllun 'Hyderus o Ran Anabledd'.
- Sefydlu fforwm / fforymau staff ar faterion cydraddoldeb.
- Penodwyd rhagor o brentisiaid a hyfforddeion proffesiynol. Ar gyfer 2025, mae cyfanswm o 21 o swyddi newydd ar gael, sef 13 swydd prentis ac 8 swydd i raddedigion.

**Datblygu diwylliant y Cyngor**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- “Ffordd Gwynedd” ydi’r enw ar y ffordd o weithio yr ydym wedi’i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn, ac mae’n digwydd ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor.
- Ail-sefydlwyd y Grŵp Ymarferwyr fel Grŵp Arbrofi a Gwella, gyda’r bwriad o ysgogi mwy o rannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd.
- Cynhaliwyd adolygiadau o systemau a phrosesau mewn unedau gwasanaeth ymhob adran yn y Cyngor.
- Cynhaliwyd dwy gyfres o’r Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm i ddelio gydag eitemau fel cydweithio traws-adrannol, strategaeth llesiant, dathlu llwyddiant, deall a gwella perfformiad, rheoli absenoldebau a’r arfer o gynnal adolygiadau o systemau gwaith.
- Sefydlwyd Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol am y tro cyntaf o fewn y Cyngor, a hynny o ganlyniad i adnabod bwlch yn y cyfleoedd i’r garfan hon o uwch-reolwyr rannu profiadau a chyfrannu at ddatblygiad y sefydliad.
- Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi’i lawnsio gyda’r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol.
- Cyflwynwyd Strategaeth Llesiant newydd. Mae’r Strategaeth yn seiliedig ar dri sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i’r hyn a geisir ei gyflawni.

**Sicrhau tegwch i bawb**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Bu gwaith casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag ysgolion. Yn benodol, achosion o fwlio a throseddau casineb, y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu’r ysgol ynghyd â phresenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion. Mae gwaith wedi dechrau ar adnabod anghenion hyfforddiant i staff ysgolion ac o gydweithio gyda swyddogion lles, gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu ac asiantaethau i allu gweithredu ar y data.
- Adolygu’r wybodaeth sydd ar gael yn y dashfwrdd data cenedlaethol gan Data Cymru, gan benderfynu creu dashfwrdd tebyg yn fewnol sy’n edrych yn benodol ar Wynedd.
- Parhau gyda’r fframwaith hyfforddiant gan sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang, er mwyn rhoi’r adnoddau a’r hyder i’n staff ar bob lefel o fewn y Cyngor i barchu amrywiaeth a delio ag ystod o anghenion yn addas. Mae’r cwrs hyfforddiant LHDTC+ yn weithredol ac ar gael i’r holl staff ers cychwyn 2025.
- Yn dilyn cyflwyno’r drefn asesu effaith newydd, rydym wedi cael siawns i’w wella yn sgil cyfnod peilot. Rydym hefyd wedi edrych ar godi ymwybyddiaeth staff o’r drefn newydd a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau safon y gwaith.
- Sefydlu fforwm / fforymau staff er mwyn trafod materion cydraddoldeb, fel bod ein gweithwyr yn gallu cyfrannu i’r maes o fewn y Cyngor.

DRAFT

**Merched mewn arweinyddiaeth**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Cynhaliwyd rhagor o weithgareddau sy'n sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial a'r Sgyrsiau dros Baned.
- Hyrwyddwyd a chodwyd ymwybyddiaeth o faterion rhagfarn heb wybod a hunan ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff.
- Cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion.
- Parhau i ystyried beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da.
- Parhau i roi sylw i gyfansoddiad pwyllgorau a grwpiau er sicrhau bod cydbwysedd o ran cynrychiolaeth fenywaidd a gwrywaidd.

**Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Cyfanswm o arbedion gwerth £43 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 93% o'r £46.6m gofynnol dros y cyfnod. Mae gwerth £5.6 miliwn o gyfanswm yr arbedion yn berthnasol i arbedion y flwyddyn ariannol 2024/25.
- Monitro bod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.
- Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.

**Cynllun Digidol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Rydym yn dilyn rhaglen waith fanwl er mwyn gwireddu'r Cynllun Digidol, ac mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn cadw trosolwg ar ein cynnydd.
- Er mwyn cefnogi trefn newydd y Cyngor "Gweithio i'r dyfodol" datblygwyd system gyfrifiadurol newydd i alluogi staff neilltuo desgiau.
- Gwaith yn digwydd i ail-ddylunio gwefan y Cyngor. Bydd yn cael ei brofi gyda'r cyhoedd yn ystod 2025-26.
- Mae gwelliannau yn digwydd i ddarpariaeth ffôn y Cyngor, gyda bron i 1000 o staff ar y system newydd bellach, gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt a rhai ysgolion, ac mae rhaglen gynhwysfawr wedi ei pharatoi ar gyfer cwblhau'r ddarpariaeth.
- Gwaith wedi ei gynnal er mwyn dod i gasgliad ar ein hopsiynau ar gyfer systemau rheoli'r sefydliad i'r dyfodol.

**Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Dechrau'r gwaith o gyflwyno system TG newydd Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor.
- Llunio cynllun gweithredu ar gyfer Tîm Rheoli'r Cyngor ar sut i gyrraedd model integredig o reoli iechyd a diogelwch.

**Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Gwaith adolygu polisïau wedi ei gyflawni a thrafodaethau wedi'u cynnal gyda rhan helaeth o'r Adrannau.
- Mae'r gwaith o addasu'r gofodau adrannol o fewn y Pencadlys wedi'i gwblhau i alluogi adleoli staff o'r swyddfeydd ymylol.
- Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hangen ar gyfer gofod swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, ac ystyriwyd opsiynau i uchafu defnydd y safleoedd trwy gyfuno defnyddiau amgen.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Yn ystod 2024-25, cyhoeddwyd 89 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a wnaeth arwain at 469 o eitemau newyddion, sydd yn cymharu'n ffafriol â'r flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ddelio gyda 510 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau.
- Roedd 2,790,297 ymweliad â gwefan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Cyflwynwyd 261,549 cais am wasanaeth ar-lein yn 2024-25 sef 4,472 cais yn fwy nac yn 2023-24.
- Lansiwyd cyfrif newydd gan y Cyngor ar gyfrwng cymdeithasol Bluesky.
- Ar gyfartaledd mae'r tîm cyfieithu wedi cyfieithu bron i 400,000 o eiriau bob mis, ynghyd â chyfieithu ar y pryd mewn bron i 60 o gyfarfodydd bob mis.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod y flwyddyn, ac mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion ein gweithwyr a sut gall y Cyngor wella ymhellach.
- Cyflwynwyd adolygiad er mwyn gwella'r gyfradd casglu Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r mannau pleidleisio yn y sir er mwyn asesu addasrwydd ein gorsafoedd ac ystyried os oes lleoliadau mwy addas ar gael.

DIWEDD

DRAFT

Cyngor Gwynedd

# Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25

## 1. Cyflwyniad

Nod yr adroddiad yw dangos sut mae Cyngor Gwynedd wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol.

Mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** (y "Ddeddf SPPP"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys **Cyngor Gwynedd**, lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r **Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** a sefydlwyd gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio **consensws neu gyfaddawd** gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

i. yn pennu eu **hamcanion llesiant**; a
ii. yn gwneud **penderfyniadau strategol** ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae **Adran 16(2)** o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth "geisio consensws neu gyfaddawd".

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

a) ymgynghori â hwy ar **gyfnod cynnar** o'r broses, a
b) eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:
   i. ddarparu **digon o wybodaeth** iddynt i allu ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a
   ii. darparu **digon o amser** iddynt i ystyried yr hyn a gynigir ac ymateb yn briodol.

Yn ôl **Adran 18** o'r Ddeddf:

1. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
2. Rhaid i'r adroddiad gael ei **gytuno gyda'r undebau llafur cydnabyddedig** neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chafodd ei gytuno.

Drafft - Dim i'w gylchredeg

3. Rhaid i'r corff cyhoeddus **gyhoeddi'r adroddiad**, a'i gyflwyno i'r **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. Cefndir

Yn ogystal a dyletswyddau o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mae gofynion o fewn Deddfau eraill megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau i fod yn ymgynghori hefo gwahanol garfannau (gan gynnwys staff).

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd, i atgyfnerthu'r berthynas iach sydd yn bodoli ar y cyfan ers degawd a mwy. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Bwriad y grŵp hwn yw rhoi pwyslais ar gynnal perthnasau gweithio da rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, gan drafod a datrys materion cyflogaeth cynhennus yn rhagweithiol, yn ogystal â trin a thrafod datblygiad yr amodau gwaith lleol a mentrau cyflogaeth eraill. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor (Rheolwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, swyddogion adnoddau dynol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (GMB, UNISON ac Unite).

Yr undebau llafur a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd yw:

- GMB
- UNISON
- Unite

## 3. Sut y bu i ni gwrdd/cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Er ein bod fel arfer yn cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun y Cyngor, dim ond adolygiad ysgafn a gynhaliwyd yn ystod 2024/25, gyda dim ond un prosiect newydd yn cael ei ychwanegu at y Cynllun. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ehangach gan y Cyngor y tu hwnt i Aelodau Etholedig (drwy gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn) wrth wneud y penderfyniad hwn.

Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2024/25, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig, gan ofyn am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Yn benodol, gofynnwyd:

- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?

Drafft - Dim i'w gylchredeg

- A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau perfformiad effeithiol?
- Pa awgrymiadau sydd ganddynt ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff?

Ymhlith yr ymatebion, nodwyd bod lle i wella'r cyfathrebu â'r undebau ar faterion staffio mewn rhai adrannau. Hefyd, cydnabuwyd bod angen datblygu ymhellach ein dull o Bartneriaeth Gymdeithasol gan ei bod yn parhau i fod yn broses o ddysgu ac esblygu. Er bod y berthynas gorfforaethol yn iach ar y cyfan, a bod yna gysylltiadau cadarnhaol o fewn rhai adrannau o'r Cyngor hefyd, cydnabyddir mai'r cam nesaf ydi mynd ymhellach a sefydlu perthynas adeiladol rhwng yr undebau llafur a phob un o adrannau'r Cyngor. Bydd hynny yn ddatblygiad rhagweithiol a chadarnhaol pellach.

Fel y sonnir uchod mae'r Grŵp Cyswllt corfforaethol rhwng y Cyngor a'r undebau llafur yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos er mwyn trafod materion cyflogaeth. Er bod rhywfaint o sylw wedi ei roi i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y gorffennol byddwn yn sicrhau ei fod wedi ei gynnwys fel eitem safonol ar agenda pob cyfarfod i'r dyfodol.

Yn ystod 2024/25 bu i'r grwp cyswllt corfforaethol gyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Dyma rai o'r materion a dderbyniodd sylw yn ystod y flwyddyn:

1. Cyflwyno polisi profi alcohol a chyffuriau o'r newydd.
2. Datblygu a chyflwyno polisi a system reoli absenoldebau salwch staff o'r newydd.
3. Y posibilrwydd o fabwysiadu siarter iaith Gymraeg y TUC.
4. Ymdrin â newid o fewn gwasanaethau / adrannau, mewn modd cydymdeimladol sydd yn rhoi cefnogaeth i staff.

Un enghraifft o'r bartneriaeth yn gweithio mewn modd adeiladol ydi datblygiad y polisi o'r newydd ar gynnal profion cyffuriau ac alcohol ymysg y gweithlu, a chyflwyno'r polisi a'r system rheoli absenoldebau salwch o'r newydd. Mae llwyddiant y ddau enghraifft yma wedi eu seilio ar gynnwys a chydweithio gyda'r undebau o'r dechrau un - o adnabod y 'broblem' i lunio datrysiadau. Mae'r ddau bwnc yn gallu bod yn gynhennus ac wedi golygu cryn newid mewn polisi, ond trwy gydweithio o'r dechrau llwyddwyd i gyrraedd datrysiad sydd yn dderbyniol gan y ddwy ochr.

O Ebrill 2025 bydd y Cyngor yn cymryd camau pendant i hwyluso cyfranogiad cynrychiolwyr lleol yn eu dyletswyddau undebol, gan gynnwys adnabod a neilltuo cyllideb benodol i gefnogi'r broses hon a rhyddhau cynrychiolwyr o'u swyddi parhaol.

Drafft - Dim i'w gylchredeg

Yn hanesyddol, nid ydym wedi ceisio’n benodol sicrhau consensws gyda’r undebau llafur wrth wneud penderfyniadau strategol nac wrth osod ein hamcanion llesiant. Mae’r diffyg hwn wedi cael ei gydnabod fel gwendid yn y broses, ac wrth edrych tua’r dyfodol, byddwn yn gweithredu camau pendant i sicrhau bod digon o amser yn cael ei glustnodi yn y broses gynllunio, er mwyn galluogi cydweithio ystyrlon a chynhyrchiol gyda’r undebau.

Ein nod yw gwreiddio’r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Fel rhan o’r ymrwymiad hyn yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn rhoi camau yn eu lle er mwyn cryfhau ein cyfraniad, gan gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o’r gofynion sy’n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru a Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a chyflwyno awgrym o ran sut i gwrdd â’r gofyn.
- Cyflwyno drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 fel bod cyfle i’r undebau gyflwyno unrhyw argymhellion neu sylwadau cyn i’r ddogfen dderbyn ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cabinet a’r Cyngor Llawn. (Gorffennaf 2025)
- Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda’r undebau i drafod ein hamcanion llesiant presennol a’r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn yn uniongyrchol ac yn rhagweithiol, gan sicrhau bod eu sylwadau’n cael eu hystyried fel rhan o’r broses adolygu. (Tachwedd 2025)
- Cynnwys yr undebau’n weithredol yn y broses ddrafftio o adolygiad Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28, gan rannu drafft gyda nhw a’u galluogi i gyflwyno argymhellion a sylwadau cyn i’r drafft fynd gerbron y Cabinet/Cyngor Llawn. (Ionawr 2026)

Drafft - Dim i’w gylchredeg

**Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Hydref 2026**

**13 Tachwedd 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025 a'r Archwiliad Perthnasol
Rheolaeth Trysorlys 2025-26 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cyfraddau Casglu Treth Cyngor
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor

**15 Ionawr 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025
Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor

**5 Chwefror 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26
Arbedion 2026/27
Strategaeth Gyfalaf 2026/27 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2026/27
Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol 2026/27
Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch3
Blaenraglen y Pwyllgor

**Mai 2026**
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026
Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26
Siarter Archwilio Mewnol
Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarter 4
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2025
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Blaenraglen y Pwyllgor

**Medi 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26
Rhaglen Ddatblygu'r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon 2025/26 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2025/26
Rheolaeth Trysorlys 2025/26
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Ch1
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Blaenraglen y Pwyllgor

**Hydref 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad Perthnasol
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor